Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)

The National Assembly for Wales
(The Official Record)

Dydd Mawrth 12 Medi 2000

Tuesday 12 September 2000

Cynnwys
Contents

4 Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer

4 Ethol i’r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Election to the Local Government and Housing Committee

5 Cwestiynau i’r Prif Ysgrifennydd
Questions to the First Secretary

20 Cynnig Trefniadol
Procedural Motion

24 Pwyntiau o Drefn
Points of Order

27 Datganiad ar y Prinder Tanwydd
Statement on the Fuel Shortage

61 Pwyntiau o Drefn
Points of Order

64 Datganiad Busnes
Business Statement

65 Cynnig Trefniadol
Procedural Motion

67 Sefydlu Pwyllgor Ymgynghorol Penodi Comisiynydd Plant
Establishment of Children’s Commissioner Appointment Advisory Committee

68 Ethol Aelodau i’r Pwyllgor Ymgynghorol Penodi Comisiynydd Plant
Election of Members to the Children’s Commissioner Appointment Advisory Committee

69 Dirprwyo Swyddogaethau
Delegation of Functions

76 Pwynt o Drefn
Point of Order

77 Yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant
The Comprehensive Spending Review

102 Cynnig Trefniadol
Procedural Motion

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.

Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer

Y Llywydd: Galwaf y Cynulliad Cenedlaethol i drefn. Fe sylwch fod gennym glociau newydd yn y Siambr, gan ein bod yn cadw llygad barcud ar yr amser. Bydd y clercod sydd yn eistedd ar f'ochr dde yn gweithredu'r clociau o heddiw ymlaen. Mae'r clociau yn effeithio ar bob Aelod o'r Cynulliad. Byddant yn cael eu defnyddio i amseru cwestiynau a siaradwyr yn ystod dadleuon. O dan Reol Sefydlog Rhif 7.3, byddaf yn cyhoeddi ar ddechrau dadl yr amser a roddir i Aelodau i siarad. Byddwch yn gwerthfawrogi y bydd y clociau'n cael eu defnyddio fel arbrawf yr wythnos hon. Fel Llywydd, gobeithiaf y bydd y clociau yma yn barhaol.

The Presiding Officer: I call the National Assembly to order. You will notice that we have new clocks in the Chamber, as we are keeping a close eye on the time. The clerks who are sitting on my right will operate the clocks as of today. The clocks affect all Assembly Members. They will be used to time questions and speakers during debates. Under Standing Order No. 7.3, I will announce at the beginning of a debate the time allocated to Members to speak. You will appreciate that the clocks will be used on a trial basis this week. As Presiding Officer, I hope that the clocks will be here permanently.

Ethol i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Election to the Local Government and Housing Committee

The Presiding Officer: In the absence of the Business Secretary, I call on another member of the Cabinet to propose the motion.

Y Llywydd: Yn absenoldeb y Trefnydd, galwaf ar aelod arall o'r Cabinet i gyflwyno'r cynnig.

The Finance Secretary (Edwina Hart): I propose that

Yr Ysgrifenydd Cyllid (Edwina Hart): Cynigiaf fod

the Assembly in accordance with section 57(8) of the Government of Wales Act 1998 and Standing Order No. 8.4, elects Janet Davies (Plaid Cymru) to its Local Government and Housing Committee in place of Brian Hancock (Plaid Cymru).

y Cynulliad yn unol ag adran 57(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog Rhif 8.4, yn ethol Janet Davies (Plaid Cymru) i'w Bwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn lle Brian Hancock (Plaid Cymru).

Cynnig: O blaid 42, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion: For 42, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Dafis, Cynog
Davies, David
Davies, Glyn

Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
German, Michael
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Gwyther, Christine
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Middlehurst, Tom
Morgan, Rhodri
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Richards, Rod
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Thomas, Owen John
Williams, Kirsty

Derbyniwyd y cynnig.
Motion adopted.

Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd
Questions to the First Secretary

Y Llywydd: Byddaf yn caniatáu tair munud ar gyfer pob cwestiwn. Bydd y tair munud yn cychwyn pan ddechreuwch eich ateb, Brif Ysgrifennydd.

The Presiding Officer: I will allow three minutes for each question. The three minutes will start when you begin your answer, First Secretary.

Prynu Hyder
Takeover of Hyder

Q1 Peter Black: Will the First Secretary make a statement on the takeover of Hyder by Western Power Distribution? (OAQ6599)

C1 Peter Black: A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar brynu Hyder gan Western Power Distribution? (OAQ6599)

The First Secretary (Rhodri Morgan): Western Power Distribution announced last week that it had received a sufficient number of shareholder acceptances of its offer to proceed with the acquisition. That is likely to be formally completed by the end of the month. While the Assembly has expressed its concerns about the implications of the control

Y Prif Ysgrifennydd (Rhodri Morgan): Cyhoeddodd Western Power Distribution yr wythnos ddiwethaf bod nifer ddigonol o gyfranddalwyr wedi derbyn ei gynnig i fynd ymlaen â'r broses gaffael. Mae hynny'n debygol o gael ei chwblhau'n ffurfiol erbyn diwedd y mis. Er bod y Cynulliad wedi mynegi ei bryderon ynglŷn â goblygiadau

of Welsh Water and South Wales Electricity moving outside Wales, we are also glad that the extended period of uncertainty is over. Sue Essex, the Secretary for Environment, Planning and Transport, officials and I will meet WPD to discuss concerns that have been expressed in the Assembly.

symud rheolaeth Dŵr Cymru a Thrydan De Cymru y tu allan i Gymru, yr ydym hefyd yn falch bod y cyfnod estynedig o ansicrwydd drosodd. Bydd Sue Essex, Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth, swyddogion a minnau yn cwrdd â WPD i drafod pryderon a fynegwyd yn y Cynulliad.

Peter Black: I refer to a letter dated 15 June 2000 to Stephen Byers regarding this takeover. What response have you had to that letter and, given the actions of the Department of Trade and Industry, do you believe that it was ever read by Stephen Byers?

Peter Black: Cyfeiriaf at lythyr dyddiedig 15 Mehefin 2000 at Stephen Byers ynglŷn â'r prynu hwn. Pa ymateb a gawsoch i'r llythyr hwnnw ac, o gofio gweithrediadau'r Adran Masnach a Diwydiant, a ydych o'r farn iddo erioed gael ei ddarllen gan Stephen Byers?

The First Secretary: I believe that it was read by Stephen Byers. When I discussed the issue with him he said that the legal advice that he had received was strong. If I recall, the issue was whether material control of Welsh Water would be exercised by United Utilities if it was to carry out the day-to-day operations. The legal advice that the Secretary of State for Trade and Industry received was that material control over the policies of Welsh Water was not something that United Utilities would have any influence over if it was carrying out the contract of running day-to-day operations.

Y Prif Ysgrifennydd: Credaf i Stephen Byers ei ddarllen. Pan drafodais y mater gydag ef, dywedodd bod y cyngor cyfreithiol a gafodd yn un cryf. Os cofiaf, y mater dan sylw oedd a fyddai rheolaeth faterol Dŵr Cymru yn cael ei gweithredu gan United Utilities petai'n ymgymryd â'r gweithrediadau o ddydd i ddydd. Y cyngor cyfreithiol a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant oedd nad oedd rheolaeth faterol dros bolisïau Dŵr Cymru yn rhywbeth y byddai gan United Utilities unrhyw ddylanwad drosti petai'n ymgymryd â'r contract o redeg y gweithrediadau o ddydd i ddydd.

Ieuan Wyn Jones: A gaf fi bwyso ymhellach arnoch ynglŷn â'r ateb ar rôl yr Adran Masnach a Diwydiant. Mae canfyddiad sicr y bu i'r Adran Masnach a Diwydiant anwybyddu barn y Prif Ysgrifennydd a'r Cynulliad ynglŷn ag anfon cais Western Power Distribution i'r Comisiwn Cystadleuaeth. A ydych yn derbyn bod y ffaith fod gan Senedd yr Alban Gomisiwn Cystadleuaeth ei hun yn rhoi'r argraff i bobl Cymru fod gan yr Alban system i amddiffyn ei buddiannau, pan nad oes system o'r fath yng Nghymru? Pa bryd y caiff Cymru yr un system?

Ieuan Wyn Jones: May I press you further about the answer on the Department of Trade and Industry's role. There is a definite perception that the DTI ignored the First Secretary's and the Assembly's views as regards referring Western Power Distribution's bid to the Competition Commission. Do you accept that the fact that the Scottish Parliament has its own Competition Commission gives the people of Wales the impression that Scotland has a system to protect its interests, whereas such a system does not exist in Wales? When will Wales have the same system?

Y Prif Ysgrifennydd: Dyna agwedd Plaid Cymru ar bron bob cwestiwn y gallaf feddwl amdano. Beth bynnag yw'r setliad â'r Alban—a derbynia pawb bod y setliad yn wahanol i'r hyn ydyw yng Nghymru—dywedant fod pethau yn well yn yr Alban. Mae'r glaswellt bob amser i'w weld yn wyrddach ar ochr arall y bryn. Mae'r

The First Secretary: That is Plaid Cymru's line on almost every question that I can think of. Whatever the settlement is with Scotland—and everybody accepts that it is different from the settlement in Wales—they will say that things are better in Scotland. The grass is always greener on the other side of the hill. The circumstances are very

amgylchiadau yn wahanol iawn. Nid yw'r diwydiant dŵr a charthffosiaeth yn rhan o'r sector preifat yn yr Alban. Ni ellir gwerthu pethau nad ydynt yn y sector preifat yn y lle cyntaf. Ni ddylid ein beio ni am fod y Llywodraeth flaenorol wedi gwerthu'r diwydiant dŵr a charthffosiaeth 12 mlynedd yn ôl. Nid yw'r sefyllfa yn debyg yn yr Alban. Penderfynodd y Blaid Dorïaidd yn erbyn preifateiddio'r diwydiant dŵr a charthffosiaeth yn yr Alban.

different. The water and sewerage industry is not part of the private sector in Scotland. You cannot sell what is not in the private sector in the first place. We should not be blamed for the fact that the previous Government sold off the water and sewerage industry 12 years ago. The situation is not the same in Scotland. The Tory Party decided against privatising the water and sewerage industry in Scotland.

Nick Bourne: Will you comment on the likely effect of the successful bid on Welsh jobs? Perhaps more importantly, will you take this opportunity to say something about the job situation in Broughton, particularly as the workers are not able to come down here due to the fuel crisis?

Nick Bourne: A wnewch chi wneud sylwadau ar effaith debygol y cynnig llwyddiannus ar swyddi yng Nghymru? Efallai yn bwysicach na hynny, a wnewch chi gymryd y cyfle hwn i ddweud rhywbeth am y sefyllfa o ran swyddi ym Mrychdyn, yn arbennig gan na all y gweithwyr ddod i lawr yma o ganlyniad i'r argyfwng tanwydd?

The Presiding Officer: Order. This question is not about Broughton.

Y Llywydd: Trefn. Nid yw'r cwestiwn hwn yn ymwneud â Brychdyn.

Nick Bourne: It is about Welsh jobs.

Nick Bourne: Mae'n ymwneud â swyddi yng Nghymru.

The First Secretary: In light of what the Llywydd has said, I will confine my remarks to Welsh Water. The concern that we all share and the uncertainty that faces us relates to the practical meaning of WPD's commitment to retain headquarters control in Wales. If that is merely a brass plate outside an office doorway it will not mean very much. If it means retaining a headquarters in terms of customer contact, support, engineering and so on, it will be highly significant. This was why the Assembly took the view originally that the Nomura promise to keep headquarters functions in Wales was more significant than WPD's promise. We hope that we are wrong about that and that WPD will have more than a brass plate presence in Wales.

Y Prif Ysgrifennydd: Yng ngoleuni'r hyn a ddywedodd y Llywydd, cyfyngaf fy sylwadau i Dŵr Cymru. Mae'r pryder y mae pawb ohonom yn ei rannu a'r ansicrwydd sydd yn ein hwynebu yn ymwneud ag ystyr ymrwymiad WPD i gadw'r pencadlys yng Nghymru o safbwynt ymarferol. Os mai dim ond plât efydd y tu allan i fynedfa swyddfa fyddai hynny ni fydd yn golygu rhyw lawer. Os yw'n golygu cadw pencadlys yn nhermau cyswllt cwsmeriaid, cymorth, peirianneg ac ati, bydd yn hynod arwyddocaol. Dyna pam yn wreiddiol y cymerodd y Cynulliad y safbwynt bod addewid Nomura i gadw swyddogaethau'r pencadlys yng Nghymru yn fwy arwyddocaol nag addewid WPD. Yr ydym yn gobeithio ein bod yn anghywir yn hynny o beth ac y bydd gan WPD fwy o bresenoldeb yng Nghymru na phlât efydd.

Effaith Polisïau'r Weinyddiaeth ar Gaerdydd
The Effect of the Administration's Policies on Cardiff

Q2 Jonathan Morgan: What effect has the First Secretary's administration's policies had on the city of Cardiff? (OAQ6596)

C2 Jonathan Morgan: Pa effaith y mae polisïau gweinyddol y Prif Ysgrifennydd wedi'i chael ar ddinas Caerdydd? (OAQ6596)

The First Secretary: Cardiff is the capital of Wales and we are the National Assembly for Wales. The symbiotic relationship between a nation and its capital city, which applies in every country in the world, also applies in Wales. It is an interesting and sometimes tricky relationship because Cardiff is the largest city in Wales and is conscious of its capital city status, quite rightly. Cardiff has benefited from the triple crown of developments which have put it, and Wales, on the world map during the past few years. The European Summit was held here in June 1998, and 1999 saw the Rugby World Cup in the new Millennium Stadium and the inception of the National Assembly for Wales. Looking at the current pace of development in Cardiff, it is difficult to say how much of it is due to the European Summit, to the Millennium Stadium and the Rugby World Cup or to the institution and policies of the Assembly. However, we know that Cardiff helps to put Wales on the map and that the Assembly helps to put Cardiff on the map.

Y Prif Ysgrifennydd: Caerdydd yw prifddinas Cymru a ni yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r berthynas symbiotig rhwng cenedl a'i phrif ddinas, sydd yn berthnasol ym mhob gwlad yn y byd, hefyd yn berthnasol yng Nghymru. Mae'n berthynas ddiddorol ac weithiau'n anodd gan mai Caerdydd yw'r ddinas fwyaf yng Nghymru ac mae'n ymwybodol o'i statws fel prif ddinas, ac felly y dylai pethau fod. Mae Caerdydd wedi elwa ar y datblygiadau coron driphlyg sydd wedi ei rhoi hi, a Chymru, ar fap y byd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Cyhaliwyd yr Uwchgynhadledd Ewropeaidd yma ym mis Mehefin 1998, ac yn 1999 cynhaliwyd Cwpan Rygbi'r Byd yn Stadiwm newydd y Mileniwm a sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gan edrych ar gyflymder presennol datblygiadau yng Nghaerdydd, mae'n anodd dweud faint ohono sydd o ganlyniad i'r Uwchgynhadledd Ewropeaidd, i Stadiwm y Mileniwm a Chwpan Rygbi'r Byd ac i'r Cynulliad fel sefydliad a'i bolisïau. Fodd bynnag, gwyddom fod Caerdydd yn helpu i roi Cymru ar y map a bod y Cynulliad yn helpu i roi Caerdydd ar y map.

Jonathan Morgan: Will you tell the people of the capital city why you are subjecting them to a double whammy of council tax hikes—a surcharge this year and cuts in funding next year? What do you have against your home city?

Jonathan Morgan: A ddywedwch wrth bobl y brif ddinas pam eich bod yn cynyddu'r dreth gyngor ddwywaith—tâl ychwanegol eleni a thoriadau mewn cyllid y flwyddyn nesaf? Beth sydd yn peri i chi ddal dig yn erbyn eich dinas enedigol?

2:10 p.m.

The First Secretary: That is an absurd over-reaction to a consultation paper and an exercise that was carried out by the Welsh Local Government Association and the Assembly to try to find a fair formula for local government. The formula has not yet been introduced because we are only half way through the consultation process. However, Jonathan seems to know the consultation's outcome before myself or Peter Law, who is responsible for this matter. Every local authority that considers that it will be disadvantaged by the implementation of the formula as recommended by the working group will make a big noise about it. The losers always scream and the winners—those who will gain from such a formula—will smile quietly in a corner. I have often

Y Prif Ysgrifennydd: Gorymateb afresymol yw hynny i bapur ymgynghorol ac ymarfer a gynhaliwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Cynulliad i geisio dod o hyd i fformwla deg ar gyfer llywodraeth leol. Nid yw'r fformwla honno wedi cael ei chyflwyno hyd yn hyn gan mai dim ond hanner ffordd drwy'r broses ymgynghori yr ydym. Fodd bynnag, ymddengys bod Jonathan yn gwybod canlyniad yr ymgynghoriad cyn i mi neu Peter Law, sydd yn gyfrifol am y mater hwn, ei wybod. Bydd pob awdurdod lleol fydd o'r farn y byddai gweithredu'r fformwla fel yr argymhellir gan y gweithgor yn achosi anfantais iddo yn gwneud ffwdan mawr ynglŷn ag ef. Mae'r rhai sydd yn colli bob amser yn sgrechian a bydd yr enillwyr—y rhai hynny fydd yn elwa ar fformwla o'r

said that and this is a classic example. Cardiff council is putting the worst-case scenario forward and is saying that social workers and teachers will have to be sacked to pressurise against the introduction of the formula.

fath—yn gwenu'n dawel mewn cornel. Yr wyf yn aml wedi dweud hynny ac mae hon yn enghraifft nodweddiadol. Mae cyngor Caerdydd yn paentio'r darlun gwaethaf posibl ac yn dweud y bydd yn rhaid i weithwyr cymdeithasol ac athrawon gael eu diswyddo er mwyn rhoi pwysau i beidio â chyflwyno'r fformwla.

As an Assembly for the whole of Wales, we must consider what is fair for Wales as a whole and what compensates authorities adequately for the additional costs that arise from deprivation on the one hand and sparsity of population and consequent additional cost of delivery of services on the other.

Fel Cynulliad ar gyfer Cymru gyfan, rhaid inni ystyried yr hyn sydd yn deg i Gymru gyfan a'r hyn sydd yn digolledu awdurdodau yn ddigonol am y costau ychwanegol sydd yn deillio o amddifadedd ar un llaw a phoblogaeth wasgaredig a'r gost ychwanegol a ddaw yn sgîl cyflwyno gwasanaethau ar y llaw arall.

Jenny Randerson: Do you not agree that there is something fundamentally wrong with the proposed new formula, given that it indicates that Cardiff council—currently the second lowest spender on education per pupil in Wales, as it has been for many years—should in future spend even less on education?

Jenny Randerson: Onid ydych o'r farn bod rhywbeth yn sylfaenol anghywir gyda'r fformwla newydd arfaethedig, o gofio ei bod yn awgrymu y dylai cyngor Caerdydd—y cyngor gyda'r ail wariant isaf ar addsyg fesul disgybl yng Nghyrmu, fel y bu ers blynyddoedd lawer—wario hyd yn oed yn llai ar addysg yn y dyfodol?

The First Secretary: The historic reasons for Cardiff council's low expenditure per pupil were attributed to the fact that it was also responsible for college education, though not higher education. It was responsible for a wide range of colleges. As colleges tend to be more glamorous than schools, too much money was spent on colleges and not enough on schools when the authority's expenditure was compared with that of authorities that were only responsible for schools. When colleges were incorporated and placed outside the local government budget, Cardiff decided to step up its spending to try to reach the Welsh average expenditure per pupil on schools. I do not know how successful it has been in that, but the Assembly is not responsible for the direct level of expenditure on one service by the city of Cardiff.

Y Prif Ysgrifennydd: Yn hanesyddol, y rhesymau a roddwyd dros wariant isel cyngor Caerdydd fesul disgybl oedd ei fod hefyd yn gyfrifol am addysg colegau, ac eithrio addysg uwch. Yr oedd yn gyfrifol am ystod eang o golegau. Gan fod colegau yn tueddu i fod yn fwy deniadol nag ysgolion, gwariwyd gormod ar golegau ac ni wariwyd digon ar ysgolion pan gymharwyd gwariant yr awdurdod â gwariant yr awdurdodau hynny a oedd yn gyfrifol am ysgolion yn unig. Pan ymgorfforwyd y colegau a'u gosod y tu allan i gyllideb llywodraeth leol, penderfynodd Caerdydd gynyddu ei wariant er mwyn ceisio cyrraedd gwariant cyfartalog Cymru o ran gwariant fesul disgybl ar ysgolion. Ni wn pa mor llwyddiannus y bu yn hynny o beth, ond nid yw'r Cynulliad yn gyfrifol am y lefel uniongyrchol o wariant ar un gwasanaeth gan ddinas Caerdydd.

Trafodaethau gyda Western Power Distribution
Discussions with Western Power Distribution

Q3 Christine Humphreys: What discussions has the First Secretary had with Western Power Distribution concerning its

C3 Christine Humphreys: Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'u cael gyda Western Power Distribution ynghylch

successful takeover bid of Hyder? (OAQ6623)

The First Secretary: We have not yet discussed with WPD the successful conclusion of its takeover bid, because that only took place on 6 September, when WPD announced that the offer would be unconditional because it had received sufficient acceptances. We had extensive discussions with WPD when both Nomura and WPD were bidding. Now that the offer is unconditional and is proceeding, Sue Essex, myself and officials from the Environment and Economic Development departments will meet. I believe that a meeting is scheduled for 14 September.

Christine Humphreys: Now that other water companies, in particular Severn Trent, have taken legal action against WPD's plans to hand over Dŵr Cymru's operations to Unitied Utilities and as this Assembly warned the Department of Trade and Industry of that, what steps will you take to investigate the Assembly's powers to modify the water licence to protect investment in Hyder and the jobs that it provides?

The First Secretary: That is a tricky question, which I cannot answer because this is a sub judice matter. The court case will be heard on 13 September. It would be unwise for me to comment in advance of a court judgment. On the wider issue, I understand that the new Office of Water Services licence will be re-examined by OFWAT's new Director General on the basis that the Severn Trent challenge is unsuccessful. As soon as the Director General changes the terms of the water licence, the matter will return to the Assembly to be examined. The Assembly can then recommend that it go before the Competition Commission if it so chooses.

Phil Williams: It is generally agreed that our discussions here on the Hyder takeover were mature, constructive and carefully considered, but do you agree that the impression is that the Assembly's opinion had no effect on the final outcome? What steps can you take to ensure that the mature, considered and informed opinions of the Assembly affect the outcome of similar

llwyddiant ei ymgais i brynu Hyder? (OAQ6623)

Y Prif Ysgrifennydd: Nid ydym eto wedi trafod gyda WPD ganlyniad llwyddiannus ei ymgais i brynu, oherwydd dim ond ar 6 Medi y digwyddodd hynny, pan gyhoeddodd WPD y byddai'r cynnig yn ddiamod gan fod nifer ddigonol o bobl wedi ei dderbyn. Cawsom drafodaethau helaeth gyda WPD pan gyflwynodd Nomura a WPD eu cynigion. Gan fod y cynnig yn awr yn ddiamod a'i fod yn mynd rhagddo, bydd Sue Essex, myfi a swyddogion o adran yr Amgylchedd a'r adran Datblygu Economaidd yn cwrdd. Credaf fod cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer 14 Medi.

Christine Humphreys: Gan fod cwmnïau dŵr eraill, Severn Trent yn arbennig, wedi cymryd camau cyfreithiol yn erbyn cynlluniau WPD i drosglwyddo gweithrediadau Dŵr Cymru i United Utilities a chan fod y Cynulliad hwn wedi rhybuddio'r Adran Masnach a Diwydiant o hynny, pa gamau y byddwch yn eu cymryd i ymchwilio i bwerau'r Cynulliad i addasu'r drwydded dŵr i ddiogelu buddsoddiad yn Hyder a'r swyddi y mae'n ei ddarparu?

Y Prif Ysgrifennydd: Mae hwnnw'n gwestiwn anodd, na allaf ei ateb gan ei fod yn fater *sub judice*. Caiff yr achos llys ei glywed ar 13 Medi. Annoeth fyddai imi gynnig sylwadau cyn i'r llys ddyfarnu. Ynglŷn â'r mater ehangach, yr wyf ar ddeall y bydd Cyfarwyddwr Cyffredinol OFWAT yn ail-ystyried trwydded newydd y Swyddfa Gwasanaethau Dŵr ar y sail bod apêl Severn Trent yn cael ei gwrthod. Cyn gynted ag y bydd y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn newid telerau'r drwydded dŵr, bydd y mater yn dychwelyd i'r Cynulliad ei ystyried. Yna gall y Cynulliad argymell ei fod yn ei gyflwyno gerbron y Comisiwn Cystadlu os dymuna.

Phil Williams: Cytunir yn gyffredinol fod ein trafodaethau yma ar brynu Hyder yn rhai aeddfed, adeiladol a phwyllog, ond a gytunwch mai'r argraff a roddwyd yw nad oedd barn y Cynulliad yn effeithio ar y canlyniad terfynol? Pa gamau y gallwch eu cymryd i sicrhau bod barn aeddfed, bwyllog a hyddysg y Cynulliad yn effeithio ar y canlyniad mewn materion cyffelyb yn y

matters in the future?

dyfodol?

The First Secretary: In a perfect world, no doubt, if the Assembly stated that something should happen, it would. However, the legal advice that was received by the Secretary of State for Trade and Industry tied his hands. Had he rejected the advice that material control over Dŵr Cymru would not be exercised by the United Utilities contract, that would have been subject to judicial review. He felt obliged to make the judgment not to refer it to the Competition Commission. Had the Assembly used what is loosely known in the stock market as the 'Offa's Dyke defence'—in other words, if the Assembly had said, 'hands off Dŵr Cymru/Hyder'—the stock market would have said, 'do not buy Hyder because the Assembly does not want you to do so'. The world is not like that. Unless we had gone into the market with a couple of hundred million pounds in order to buy Hyder, there was no way that we could have prevented the acquisition, especially as Hyder was in effect, by its own admission, bust. Somebody had to buy it; we were not in a position to buy it—to renationalise it in effect. Therefore it was a matter of either Nomura, the candidate we preferred for various reasons relating to jobs in Wales, or Western Power Distribution, buying it. WPD bought it.

Y Prif Ysgrifennydd: Yn ddelfrydol, yn sicr, pe bai'r Cynulliad yn datgan y dylai rhywbeth ddigwydd, byddai'n digwydd. Fodd bynnag, clymwyd dwylo'r Ysgrifennydd Masnach a Diwydiant gan y cyngor cyfreithiol a gafodd. Pe bai wedi gwrthod y cyngor na fyddai contract United Utilities yn rhoi rheolaeth faterol dros Dŵr Cymru, byddai hynny wedi bod yn destun arolwg barnwrol. Teimlai dyletswydd arno i ddod i'r casgliad na ddylid ei gyfeirio at y Comisiwn Cystadleuaeth. Pe bai'r Cynulliad wedi defnyddio'r hyn a elwir yn y farchnad stoc yn 'amddiffyniad Clawdd Offa'—sef bod y Cynulliad wedi dweud, 'cadwch draw oddi wrth Dŵr Cymru/Hyder'—byddai'r farchnad stoc wedi dweud, 'peidiwch â phrynu Hyder gan nad yw'r Cynulliad am ichi wneud hynny'. Nid yw pethau'n digwydd felly. Oni bai ein bod wedi mynd i'r farchnad ag ychydig o gannoedd o filoedd o bunnoedd i brynu Hyder, nid oedd modd inni atal y broses gaffael, yn enwedig gan fod Hyder, yn ôl ei gyfaddefiad ei hun, wedi mynd i'r wal. Yr oedd yn rhaid i rywun ei brynu; nid oeddem ni mewn sefyllfa i'w brynu—i'w ad-wladoli i bob diben. Felly yr oedd yn rhaid bod naill ai Nomura, ein dewis ymgeisydd am amryw resymau yn ymwneud â swyddi yng Nghymru, neu Western Power Distribution yn ei brynu. WPD a'i prynodd.

Polisïau Ewropeaidd y Cynulliad Cenedlaethol
The National Assembly's European Policies

Q4 Alun Cairns: What communication has the First Secretary had with the European Commission regarding the National Assembly's European policies? (OAQ6615)

C4 Alun Cairns: Pa gyfathrebu a fu rhwng y Prif Ysgrifennydd a'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch polisïau Ewropeaidd y Cynulliad? (OAQ6615)

The First Secretary: My officials and I meet regularly with the European Commission, in Cardiff and in Brussels, to discuss a broad range of Assembly policies which have a European dimension. By coincidence, I am meeting Catherine Eva, the head of the European Commission office in Cardiff, first thing tomorrow morning, and along with many, we will open the Wales European Centre office in Brussels in about 10 days' time. That will give us more direct contact and will enable us to have better feedback about the emerging changes in European

Y Prif Ysgrifennydd: Bu fy swyddogion a minnau yn cyfarfod yn rheolaidd â'r Comisiwn Ewropeaidd, yng Nghaerdydd ac ym Mrwsel, i drafod ystod eang o bolisïau'r Cynulliad â chanddynt ddimensiwn Ewropeaidd. Fel mae'n digwydd, byddaf yn cyfarfod Catherine Eva, sef pennaeth swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghaerdydd ben bore yfory, ac ynghyd â nifer o Aelodau o'r Cynulliad, byddwn yn agor swyddfa Canolfan Ewropeaidd Cymru ym Mrwsel ymhen rhyw 10 diwrnod. Bydd hynny'n rhoi mwy o gyswllt uniongyrchol

policy across a whole range of agricultural, environmental and economic development issues.

inni ac yn ein galluogi i gael gwell adborth ar y newidiadau i bolisïau Ewropeaidd sydd yn dod i'r amlwg ar draws ystod gyfan o faterion yn ymwneud ag amaethyddiaeth, yr amgylchedd a datblygu economaidd.

Alun Cairns: The most important European policy that has affected the National Assembly has been the advent of European structural funds, and Objective 1 in particular. That has been widely reported to have been bungled and delayed by the National Assembly. On 20 June you referred to 'the fast-track round, which we hope to be able to finally sign, seal and deliver before the end of July.'

During the recess it was discovered that the fast-track round has been delayed yet again. Will you update us on the progress? Do you accept that it is not going according to plan because of the lack of coherent communication with the European Union?

Alun Cairns: Y polisi Ewropeaidd pwysicaf sydd wedi effeithio ar y Cynulliad Cenedlaethol yw dyfodiad arian strwythurol Ewropeaidd, ac Amcan 1 yn benodol. Nodwyd yn eang bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi gwneud traed moch ohono ac wedi achosi oedi. Ar 20 Mehefin cyfeiriasoch at 'y cylch dull carlam, y gobeithiwn allu ei arwyddo, ei selio a'i gyflenwi cyn diwedd Gorffennaf.'

Yn ystod y toriad, darganfuwyd bod y cylch dull carlam wedi ei ohirio unwaith eto. A wnewch roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni? A ydych yn derbyn nad yw'n mynd rhagddo yn briodol oherwydd diffyg cyfathrebu synhwyrol â'r Undeb Ewropeaidd?

The First Secretary: I do not accept that it is not going according to plan. I think that this matter was discussed at the Programme Monitoring Committee yesterday. The programme complement, which is the supplementary, more detailed document that follows the single programming document, will be completed over the next few weeks. The programme complement does not have to be agreed by the European Commission; the Commission simply has to be notified of it. Nobody can actually receive money until the programme complement has been completed. It will certainly be completed by 20 October or thereabouts, and will be circulated to the main applicants and to all members of the Programme Monitoring Committee, including Dr Phil Williams, in about three or four weeks. There is no delay and this constant repetition, in the Joseph Goebbels-like belief that to constantly repeat a lie turns it into the truth, is absurd. Alun, you are the only person who says that this has been bungled. You think that if you say this word 10 times it becomes the objective truth. It is the subjective truth inside your head and no-one else's.

Y Prif Ysgrifennydd: Nid wyf yn derbyn nad yw'n mynd rhagddo yn briodol. Credaf i'r mater hwn gael ei drafod yn y Pwyllgor Monitro Rhaglen ddoe. Caiff cynnwys y rhaglen, sef y ddogfen atodol, fanylach sydd yn dilyn y ddogfen raglennu sengl, ei chwblhau yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf. Nid oes rhaid i'r Comisiwn Ewropeaidd gytuno ar gynnwys y rhaglen; dim ond gorfod hysbysu'r Comisiwn ohono sydd yn rhaid gwneud. Ni all neb cael arian nes bod cynnwys y rhaglen wedi ei gwblhau. Yn sicr caiff ei gwblhau erbyn tua 20 Hydref, a'i ddosbarthu i'r prif geiswyr ac i bob aelod o'r Pwyllgor Monitro Rhaglen, gan gynnwys Dr Phil Williams, ymhen ryw dair neu bedair wythnos. Nid oes unrhyw oedi ac mae'r ail-adrodd parhaus hwn megis cred Joseph Goebells, y bydd ail-adrodd celwydd dro ar ôl tro yn droi'n wirioneddd, yn hurt. Alun, chi yw'r unig un sydd yn dweud bod hwn wedi bod yn draed moch. Yr ydych yn credu y daw yn wir golau os dywedwch yr ymadrodd hwn 10 gwaith. Dim ond yn eich pen chi y mae'n wir a neb arall.

Elin Jones: Yn dilyn dyfarniad y Llys Ewropeaidd heddiw, a yw'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu cael trafodaeth

Elin Jones: Following the European Court's judgment today, does the First Secretary intend to hold discussions with the European

gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ynglŷn â'r angen posibl i godi'r tollau ar Bont Hafren; tollau ychwanegol a allai gael effaith niweidiol ar economi'r De a'r Gorllewin?

Commission regarding the possible need to increase the tolls on the Severn Bridge; additional tolls which could have a harmful effect on the economy of the South and the West?

Y Prif Ysgrifennydd: Trafodais heddiw gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys sut i roi'n ôl yr union faint o arian a gollir gan bobl sydd yn defnyddio pontydd megis Pont Hafren. Mae'r Trysorlys wedi cytuno'n llwyr i roi'r arian yn ôl mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Bydd y manylion yn cymryd rhywfaint o amser i'w gweithio allan, ond dyna'r addewid a drafodais gyda'r Trysorlys heddiw. Gallaf weld fod Dafydd Wigley yn ei chael hi'n anodd credu hynny, ond mae'n hollol wir. Bydd yr holl arian a gollir gan ddefnyddwyr tollbontydd yn cael ei roi'n ôl gan y Trysorlys.

The First Secretary: I discussed today with the Chief Secretary to the Treasury how to give back the exact amount of money that is lost by people who use bridges such as the Severn Bridge. The Treasury has fully agreed that the money should be reimbursed in one way or another. The details will take some time to work out, but that is the promise that I discussed with the Treasury today. I can see that Dafydd Wigley is finding that difficult to believe, but it is absolutely true. All the money lost by users of toll bridges will be reimbursed by the Treasury.

2:20 p.m.

Cyfarfod Llawn Cyntaf Cyd-Bwyllgor y Gweinidogion
The First Full Meeting of the Joint Ministerial Committee

Q5 Janet Ryder: Will the First Secretary make a statement on his contribution to the first full Joint Ministerial Committee meeting held recently? (OAQ6612)

C5 Janet Ryder: A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar ei gyfraniad i'r cyfarfod llawn cyntaf o Gyd-bwyllgor y Gweinidogion a gynhaliwyd yn ddiweddar? (OAQ6612)

The First Secretary: You moved slightly too quickly for me, Janet. I assume that you read out question 5. I was still looking at Dafydd Wigley's incredulous face at my answer to the previous question.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr ydych wedi symud ychydig yn rhy gyflym i mi, Janet. Yr wyf yn cymryd ichi ddarllen cwestiwn 5. Yr oeddwn i yn dal i edrych ar yr olwg anghrediniol ar wyneb Dafydd Wigley yn dilyn fy ateb i'r cwestiwn blaenorol.

Andrew Davies and I attended the first meeting of the Joint Ministerial Committee on 1 September. The meeting reviewed the progress of devolution across the UK in its first 15 months. I believe this is known in management speak as a 'wash-up session'. We focused particularly on the impact of the introduction into domestic legislation of the European Convention on Human Rights, and the concordats and memoranda of understanding between the devolved administrations. The meeting also agreed a joint communiqué, which is available on the intranet.

Mynychodd Andrew Davies a minnau gyfarfod cyntaf Cyd-bwyllgor y Gweinidogion ar 1 Medi. Bu'r cyfarfod yn bwrw golwg ar y cynnydd ar ddatganoli ar draws y DU yn y 15 mis cyntaf. Gelwir hyn yn 'wash-up session' yn iaith y rheolwyr, fe gredaf. Canolbwyntiwyd yn bennaf ar effaith cyflwyno'r Cytundeb Ewropeaidd ar Hawliau Dynol i gyfraith y wlad, a'r concordatiau a'r memoranda cyd-ddealltwriaeth rhwng y gweinyddiaethau datganoledig. Cytunodd y cyfarfod ar gyd-ddatganiad hefyd, sydd ar gael ar y fewnrwyd.

Janet Ryder: I am sure that you will agree

Janet Ryder: Fe gytunwch, mae'n siŵr, fod

that there are still some issues where it remains important that Wales has a strong voice at a United Kingdom level. One such issue is forming primary legislation. How can the Assembly best have an impact on drafting primary legislation that affects Wales? Is there not a case, as happens in Scotland, for drafting legislation here before sending it to Westminster?

rhai materion o hyd lle mae'n bwysig bod gan Gymru lais cryf ar lefel y Deyrnas Unedig. Un mater o'r fath yw llunio deddfwriaeth sylfaenol. Sut y gall y Cynulliad effeithio ar ddrafftio deddfwriaeth sylfaenol sydd yn ymwneud â Chymru yn y ffordd orau? Onid oes achos, fel sydd yn digwydd yn yr Alban, dros ddrafftio deddfwriaeth yma cyn ei hanfon i San Steffan?

The First Secretary: That subject came up during the Joint Ministerial Committee and, obviously, was a very proper subject to discuss. I expressed the great satisfaction in Wales at the outcome of the negotiations to bring in a children's commissioner quickly in the Assembly's first year of existence, which was done by amending the Care Standards Bill. I think that that matter is coming up for discussion again this week in the Assembly. I said that what we would be hoping for was a regular series. This would not necessarily be done by tacking on an amendment, which was the only practicable way in the last legislative year but by having, on average, one Welsh Bill per year in the Queen's Speech. I do not know how it will work out, but I expressed that view strongly on behalf of the Assembly.

Y Prif Ysgrifennydd: Codwyd y pwnc hwnnw yng Nghyd-bwyllgor y Gweinidogion ac, yn amlwg, mae'n bwnc cwbl briodol i'w drafod. Mynegais y boddhad mawr yng Nghymru y byddai comisiynydd plant yn cael ei benodi'n fuan yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynulliad, a wnaethpwyd drwy ddiwygio'r Mesur Safonau Gofal, o ganlyniad i'r negodiadau. Credaf y bydd y mater hwn yn cael ei drafod yn y Cynulliad drachefn yr wythnos hon. Dywedais mai ein gobaith ni oedd y byddai cyfres reolaidd. Ni fyddai hyn yn cael ei wneud drwy ychwanegu diwygiad o reidrwydd, sef yr unig ffordd ymarferol yn ystod y flwyddyn ddeddfwriaethol ddiwethaf ond drwy gyflwyno un Mesur Cymreig, ar gyfartaledd, bob blwyddyn yn Araith y Frenhines. Ni wn sut y bydd yn gweithio, ond mynegais y farn honno yn gryf ar ran y Cynulliad.

Who does the drafting is another matter. We did not go into that level of detail at the meeting of the Joint Ministerial Committee in Edinburgh on 1 September.

Mater arall yw pwy sydd yn drafftio'r mesur. Ni thrafodwyd y manylion ar hynny gennym yng nghyfarfod Cyd-bwyllgor y Gweinidogion yng Nghaeredin ar 1 Medi.

Michael German: Did you raise the difficulty we have had in the relationship between the Assembly and the Department of the Environment, Transport and the Regions? You know that we have had difficulties with them over the Passenger Transport Authority, genetically modified crops, the Local Government Bill, and European directives. Did you raise this matter and, if so, what did they say?

Michael German: A soniasach am yr anhawster a gawsom yn y berthynas rhwng y Cynulliad ac Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau? Gwyddoch inni gael anawsterau gyda hwy o ran yr Awdurdod Cludiant Teithwyr, cnydau a addesir yn enetig, y Mesur Llywodraeth Leol, a'r cyfarwyddebau Ewropeaidd. A godwyd y mater hwn gennych, ac os felly, beth a ddywedasant?

The First Secretary: I am not the editor of the *News of the World*. I do not believe in the tactic of naming and shaming, either here or in meetings of committees such as the JMC. The way I put it at the Joint Ministerial Committee was that there will inevitably be a league table of ministries in London. Some of

Y Prif Ysgrifennydd: Nid fi yw golygydd y *News of the World*. Ni chredaf y dylid enwi a difrio pobl, boed yma neu yng nghyfarfodydd pwyllgorau fel y JMC. Yr hyn a ddywedais yng Nghyd-bwyllgor y Gweinidogion oedd y bydd tabl cynghrair o weinidogaethau yn Llundain wrth reswm. Bydd rhai ohonynt yn

them will appear sympathetic and to have latched on to the idea of devolution and the mutual obligations that we owe to each other, because we do not have primary legislative powers or because there are key issues of divided control. Some ministries have grasped this quickly and are very good, some are middling, and others—inevitably in a league table—are at the bottom. I do not think that I ought to say more than that.

ymddangos yn gydymdeimladol a wedi cydio yn y syniad o ddatganoli a'r goblygiadau sydd gennym y naill i'r llall, am nad oes gennym bwerau deddfu sylfaenol neu am fod materion allweddol sydd yn gysylltiedig â rheolaeth ranedig. Mae rhai gweinyddiaethau wedi deall hyn yn gyflym ac maent yn dda iawn, mae rhai'n weddol, ac mae eraill—yn anochel mewn tabl cynghrair—ar y gwaelod. Ni chredaf y dylwn ddweud mwy na hynny.

Concordat rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a'r Swyddfa Gartref
Concordat between the National Assembly and the Home Office

Q6 Ann Jones: When will a concordat between the National Assembly and the Home Office be formally concluded? (OAQ6598)

C6 Ann Jones: Pryd y bydd concordat rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a'r Swyddfa Gartref wedi'i gwblhau'n ffurfiol? (OAQ6598)

The First Secretary: You will be glad to know, Ann, that officials of the Assembly and the Home Office have agreed on the text and that I expect to formalise the concordat by means of an exchange of letters with the Home Secretary in the near future.

Y Prif Ysgrifennydd: Byddwch yn falch o glywed, Ann, bod swyddogion y Cynulliad a'r Swyddfa Gartref wedi cytuno ar y testun a disgwyliaf y byddaf yn ffurfioli'r concordat drwy gyfnewid llythyrau gyda'r Ysgrifennydd Cartref yn y dyfodol agos.

Ann Jones: That is very welcome. Do you agree that if we could have signed a concordat earlier, the situation regarding a Welsh representative on the Central Fire Brigades Advisory Council, which was successfully resolved thanks to our Team Wales approach—I thank Members from all parties who signed my statement of opinion on that issue—would have been an example where we would have been allowing an inter-governmental relationship to develop issues more effectively?

Ann Jones: Croesawaf hynny. A ydych yn cytuno y byddai'r sefyllfa ynglŷn â chynrychiolydd o Gymru ar Gyngor Ymgynghorol Canolog y Brigadau Tân, a ddatryswyd yn llwyddiannus oherwydd ein hymagwedd Tîm Cymru—diolchaf i'r Aelodau o bob plaid a lofnododd fy natganiad barn ar y mater hwnnw—wedi bod yn enghraifft lle y byddem wedi bod yn caniatáu perthynas rynglywodraethol i ddatblygu materion yn fwy effeithiol pe gallem fod wedi llofnodi concordat ynghynt?

The First Secretary: It is hard to replay an experiment: what would have happened if we had signed a concordat six months ago, or three months ago? In the absence of a concordat, there are other ways to deal with an issue, and sometimes we have had to work in the absence of a concordat. They are now almost all signed and delivered. Many of them are coming up for review, after almost 12 months of operation. Another conclusion of the Joint Ministerial Committee in Edinburgh was to look again at some of the concordats and the memoranda of understanding where they have been in existence for many months. If you must rely on the cold wording of a concordat or

Y Prif Ysgrifennydd: Mae'n anodd edrych yn ôl: beth a fyddai wedi digwydd pe bawn wedi llofnodi concordat chwe mis yn ôl, neu dri mis yn ôl? Yn absenoldeb concordat, mae ffyrdd eraill o ymdrin â mater, ac ar adegau, bu'n rhaid inni weithio yn absenoldeb concordat. Maent bron i gyd wedi eu llofnodi a'u cyflwyno bellach. Caiff llawer ohonynt eu harolygu cyn bo hir, wedi 12 mis bron o'u gweithredu. Un o gasgliadau eraill Cyd-bwyllgor y Gweinidogion yng Nghaeredin oedd ystyried rhai o'r concordatiau a'r memoranda cyd-ddealltwriaeth eto lle maent wedi bod mewn bodolaeth am lawer o fisoedd. Os oes rhaid ichi ddibynnu ar eiriau plaen concordat neu femorandwm i bwyntio

memorandum to point a finger at inadequacies or alleged disagreements, saying 'I can quote paragraph four in my favour', and that is all that you can work from, it is a pretty poor show and demonstrates a poor relationship between you as a devolved administration and central Government. You need a concordat as a backup, but you must have good understanding at the ministerial and official level. The level of goodwill that you have is key, not what is written in the cold print of the concordat.

bys at ddiffygion neu anghytuno honedig, gan ddweud, 'Gallaf ddyfynnu paragraff pedwar o'm plaid', a dyna'r cwbl y gallwch ei ddefnyddio, gwael o beth ydyw gan ddangos bod perthynas wael rhyngoch chi fel gweinyddiaeth ddatganoledig a'r Llywodraeth yn ganolog. Mae arnoch angen concordat wrth gefn, ond rhaid ichi hefyd gael dealltwriaeth ar lefel y gweinidogion a'r swyddogion. Yr ewyllys da sydd gennych sydd yn allweddol, nid yr hyn a ysgrifennwyd ar bapur mewn concordat.

Dafydd Wigley: A fyddai'r Prif Ysgrifennydd yn derbyn bod penderfyniadau'r Swyddfa Gartref yn hynod o bwysig i Gymru a'i chymunedau, yn arbennig o safbwynt sicrhau bod digon o blismyn yn ein cymunedau? A wnaiff gytuno a chadarnhau bod y concordat sydd o dan sylw yn darparu i'r Cynulliad hwn allu rhoi barn—ac i'r farn honno gael sylw ac ystyriaeth gan y Swyddfa Gartref—ar nifer yr heddweision sydd eu hangen yn ein cymunedau ac, yn arbennig, ar yr adnoddau ariannol i'w cynnal?

Dafydd Wigley: Would the First Secretary accept that the Home Office's decisions are extremely important to Wales and its communities, especially as regards ensuring that there are enough policemen in our communities? Will he agree and confirm that the concordat under discussion provides for this Assembly to be able to express an opinion—and for that opinion to be listened to and considered by the Home Office—on the number of police officers that are needed in our communities and, in particular, on the financial resources required to support them?

Y Prif Ysgrifennydd: Mae'r adnoddau yn fater braidd yn wahanol, a delir ag ef drwy broses gwbl ar wahân. Byddaf yn gwirio geiriau'r memorandwm drafft sydd ger ein bron er mwyn gweld a yw'n cynnwys pwyntiau Dafydd. Efallai y caf drafodaeth ynglŷn â hynny gyda Dafydd. Ni chredaf y gall y concordat ddweud beth fyddai nifer y plismyn ychwanegol y byddai unrhyw gymuned, sir neu ardal yn gofyn amdanynt nac ychwaith yr adnoddau i dalu amdanynt.

The First Secretary: The resources are a somewhat different matter, and they are dealt with through an entirely separate process. I will check the wording of the draft memorandum that we are now looking at to see whether it includes Dafydd's points. Perhaps I could have a discussion on that with Dafydd. I do not believe that the concordat can state what the number of extra policemen that any community, county or area would ask for would be, nor what the resources to pay for them would be.

Effaith Polisïau yng Nghanol De Cymru
The Impact of Policies in South Wales Central

Q7 David Melding: What impact have the First Secretary's administration's policies had in South Wales Central since July 1999? (OAQ6597)

C7 David Melding: Pa effaith y mae polisïau gweinyddiaeth y Prif Ysgrifennydd wedi'u chael yng Nghanol De Cymru ers Gorffennaf 1999? (OAQ6597)

The First Secretary: The Assembly's purpose is to act without fear or favour for the benefit of the whole of Wales, rather than for the benefit of one part of Wales. South Wales Central has benefited from how we have worked to produce a society that is more

Y Prif Ysgrifennydd: Nod y Cynulliad yw gweithredu'n deg er lles Cymru gyfan, yn hytrach na lles un rhan o Gymru. Mae Canol De Cymru wedi elwa ar y ffordd yr ydym wedi gweithio i greu cymdeithas sydd yn fwy medrus a iach nag erioed o'r blaen, sydd â

skilled and healthier than before, has access to efficient public services and in which social exclusion can be reduced to an absolute minimum. South Wales Central includes not only pockets but areas of substantial poverty as defined by British and European, as well as Welsh, comparative standards. It is therefore important that we make people in all parts of South Wales Central true citizens of the new Wales that we are attempting to create.

chyfle i fanteisio ar wasanaethau cyhoeddus effeithiol a lle y gellir lleihau allgáu cymdeithasol i'r nesaf peth i ddim. Yng Nghanol De Cymru, ceir nid yn unig lecynnau ond ardaloedd o dlodi sylweddol fel y'i diffinnir yn ôl safonau cymharu Prydain ac Ewrop, yn ogystal â Chymru. Felly mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod pobl ymhob rhan o Ganol De Cymru yn wir ddinasyddion y Gymru newydd yr ydym yn ceisio ei chreu.

David Melding: Does the First Secretary agree that one of the best things that he could do for the economy of South Wales Central would be to declare the airport access road a trunk road scheme?

David Melding: A yw'r Prif Ysgrifennydd yn cytuno mai'r gymwynas orau y gallai ei wneud i economi Canol De Cymru fyddai datgan bod y ffordd fynedfa i'r maes awyr yn gynllun cefnffordd?

The First Secretary: That would involve a substantial additional commitment, which I suppose would be in the order of £100 million, being transferred to the Assembly from the local authority. I would describe that as creative accountancy. The important decision is whether you spend £100 million on a road, not whether you finance it directly from the Assembly's budget or from the Vale of Glamorgan Council's budget. We are still trying to work out the best way of accessing the airport from the west, the north and the east—from Cardiff and Newport—and the balance between public transport access and private transport access, that is, access by car. There are 13 roundabouts, including the difficult one at Culverhouse Cross, on the way to the airport from the north and the east. It is now difficult to do much about Culverhouse Cross due to overbuilding in the area. However, the planning issues and the sectoral issues between private and public transport must be sorted out. Those are the key issues, not the creative accountancy measure that David proposes.

Y Prif Ysgrifennydd: Byddai hynny'n golygu cryn ymrwymiad ychwanegol, a fyddai'n golygu, fe gredaf, trosglwyddo tua £100 miliwn i'r Cynulliad o'r awdurdod lleol. Cyfrifo creadigol fyddai hynny yn fy marn i. Yr hyn sydd yn bwysig i'w benderfynu yw a ydych yn gwario £100 miliwn ar ffordd, ac nid a ydych yn ei hariannu'n uniongyrchol o gyllideb y Cynulliad neu o gyllideb Cyngor Bro Morgannwg. Yr ydym yn dal i geisio dod o hyd i'r ffordd orau o gyrraedd y maes awyr o'r gorllewin, y gogledd a'r dwyrain—o Gaerdydd a Chasnewydd—a'r cydbwysedd rhwng ei gyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus a'i gyrraedd ar drafnidiaeth breifat, hynny yw, ei gyrraedd mewn car. Mae 13 o gylchfannau, gan gynnwys yr un anodd yng Nghroes Cwrlwys, ar y ffordd i'r maes awyr o'r gogledd ac o'r dwyrain. Bellach mae'n anodd gwneud llawer ynglŷn â Chroes Cwrlwys oherwydd gormod o adeiladu yn yr ardal. Fodd bynnag, rhaid rhoi trefn ar y materion cynllunio a sectoraidd o ran trafnidiaeth breifat a chyhoeddus. Dyna'r materion allweddol, nid y mesur o gyfrifo creadigol y mae David wedi ei gynnig.

Pauline Jarman: The Wales Millennium Centre will do much to improve the quality of life in our capital city and its environs. However, building work on the site has been at a standstill for over two months. What steps has the First Secretary taken to enable this prestige project to move forward?

Pauline Jarman: Bydd Canolfan Mileniwm Cymru yn gwneud llawer i wella ansawdd bywyd yn ein prif ddinas a'r cyffiniau. Fodd bynnag, mae'r gwaith adeiladu ar y safle wedi peidio ers dros ddeufis. Pa gamau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi eu cymryd i alluogi'r prosiect clodfawr hwn fynd rhagddo?

The First Secretary: It is not so much two months as two or three years, as the original intention was that the centre would open on 1 March 2000. It is now September 2000 and work has not yet started. That indicates that there are knotty problems over the design and funding of the Wales Millennium Centre. The centre is an essential accoutrement of a truly cultured Wales. Having an opera house, a dance theatre and all the other things that will be contained within the Wales Millennium Centre is essential for that. However, we are still discussing how it is built, who pays for it, how much it will cost and who will be in charge of it, with the scheme's promoters and with the Millennium Commission.

Y Prif Ysgrifennydd: Nid deufis ond dwy neu dair blynedd a fu, gan mai'r bwriad gwreiddiol oedd agor y ganolfan ar 1 Mawrth 2000. Mae'n fis Medi 2000 bellach ac ni ddechreuwyd ar y gwaith. Dengys hynny fod problemau dyrys ynglŷn â chynllun Canolfan Mileniwm Cymru a sut y caiff ei hariannu. Mae'r ganolfan yn ategolyn hanfodol i Gymru wir ddiwylliedig. Mae cael tŷ opera, theatr dawns a'r holl bethau eraill a gaiff eu cynnwys o fewn Canolfan Mileniwm Cymru yn hanfodol ar gyfer hynny. Fodd bynnag, yr ydym yn parhau i drafod sut y dylid ei hadeiladu, pwy a fydd yn talu amdani, faint a arian y bydd yn ei gostio a phwy a fydd yn gyfrifol amdani, gyda hyrwyddwyr y cynllun a Chomisiwn y Mileniwm.

2:30 p.m.

Canolfannau Celfyddydau Cymru
Welsh Centres of Art

Q8 Jenny Randerson: What action is the First Secretary taking to ensure that Welsh centres of art are, and will continue to be, part of Welsh and European culture? (OAQ6605)

C8 Jenny Randerson: Pa gamau y mae'r Prif Ysgrifennydd yn eu cymryd i sicrhau bod canolfannau celfyddydau Cymru yn rhan, ac yn parhau i fod yn rhan, o ddiwylliant Cymru ac Ewrop? (OAQ6605)

The First Secretary: I am not sure what your definition of centres of art is, Jenny. There are several schools of thought on what art is—I am sure that David Davies would have a contribution to make, but he has left the Chamber, so he will not be able to make one of his special speeches on what is exhibited at the Tate. The National Museums and Galleries of Wales has outstanding collections of paintings by artists from Wales, but mostly from Europe, including the wonderful Davies collection, Renoir's *La Parisienne*, and so on. It also loans its paintings to other European museums and galleries or swaps them so that we can see works to which we do not normally have access. You will be pleased to learn that the over 60s—including myself—and children are now able to visit the National Museum for free. The Glynn Vivian Art Gallery in Swansea and Oriel Mostyn in north Wales also display a wide range of Welsh and European art. I suppose that our biggest problem is how to secure adequate funding for contemporary Welsh art.

Y Prif Ysgrifennydd: Nid wyf yn siŵr sut yr ydych yn diffinio canolfannau celfyddydau, Jenny. Mae sawl ysgol o feddwl ynglŷn â beth yw celfyddyd—yr wyf yn siŵr y byddai David Davies wedi cyfrannu, ond mae wedi gadael y Siambr, felly ni fydd yn gallu rhoi un o'i areithiau arbennig ar yr hyn sydd ar ddangos yn oriel Tate. Mae gan Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru gasgliadau nodedig o beintiadau gan artistiaid o Gymru, ond yn bennaf o Ewrop, gan gynnwys casgliad gwych Davies, *La Parisienne* Renoir ac yn y blaen. Mae hefyd yn benthyca ei pheintiadau i amgueddfeydd ac orielau eraill yn Ewrop neu'n eu cyfnewid fel y gallwn weld gwaith nad ydym fel arfer yn gallu ei weld. Byddwch yn falch o glywed bod pobl dros 60 oed—gan gynnwys minnau—a phlant yn gallu ymweld â'r Amgueddfa Genedlaethol am ddim bellach. Mae Oriel Gelf Glynn Vivian yn Abertawe ac Oriel Mostyn yng ngogledd Cymru hefyd yn arddangos ystod eang o gelf o Gymru ac Ewrop. Ein problem fwyaf, fe gredaf, yw sut i sicrhau digon o arian ar gyfer celf Gymreig gyfoes.

Jenny Randerson: Following the Wallace report on the Arts Council of Wales, will you ask the Assembly Secretary with responsibility for the arts to intercede to protect existing public and private sector investment in the Centre for Visual Arts in Cardiff and to ensure that Wales does not face yet another prestige arts project—the Wales Millennium Centre—failing?

Jenny Randerson: Yn dilyn adroddiad Wallace ar Gyngor Celfyddydau Cymru, a ofynnwch chi i'r Ysgrifennydd Cynulliad sydd yn gyfrifol am y celfyddydau i ymyrryd er mwyn diogelu buddsoddiad cyfredol y sector cyhoeddus a phreifat yng Nghanolfan y Celfyddydau Gweledol yng Nghymru a sicrhau nad yw Cymru yn gweld prosiect celfyddydol arall o bwys—Canolfan Mileniwm Cymru—yn methu?

The First Secretary: There are three or four questions there. We are still considering the Wallace report. It is a powerful report. As far as I am aware, it does not state that we ought to take particular action on either the Centre for Visual Arts in Cardiff in the old library, or the Wales Millennium Centre. The report is more about the structure, funding and running of the Arts Council of Wales. Regardless of the Wallace report, we must accept that the numbers visiting the Centre for Visual Arts have been extremely disappointing and are almost on a par with those of the Millennium Dome in Greenwich in missing the target by three quarters. The figure is supposed to be 250,000, and instead it is 50,000. That is one problem.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr ydych wedi gofyn tri neu bedwar o gwestiynau yna. Yr ydym yn parhau i ystyried adroddiad Wallace. Mae'n adroddiad grymus. Hyd y gwn i, nid yw'n nodi y dylem gymryd camau penodol naill ai ar Ganolfan y Celfyddydau Gweledol yng Nghaerdydd yn yr hen lyfrgell, neu Ganolfan Mileniwm Cymru. Mae'r adroddiad yn ymwneud mwy â strwythur, ariannu a rhedeg Cyngor Celfyddydau Cymru. Er gwaethaf adroddiad Wallace, rhaid inni dderbyn i'r niferoedd sydd yn ymweld â Chanolfan y Celfyddydau Gweledol fod siomedig dros ben ac maent yn cyfateb bron i'r ffigurau ar gyfer Dôm y Mileniwm yn Greenwich sef methu'r targed o dri chwarter. Y ffigur arfaethedig oedd 250,000, ond yn lle hynny 50,000 ydyw. Mae honno yn un broblem.

I have already dealt with the subject of the Wales Millennium Centre. We cannot take individual decisions. We have the Arts Council of Wales and it is better to ensure that it is properly staffed and resourced and that it makes the decisions, rather than have the Assembly decide whether it should pay £100,000 to this arts body, and £500,000 to that one. You set up a quango, ensure that it is run properly, that it has good staff, a proper board and a good share, and then you expect it to get on with the job.

Yr wyf eisoes wedi trafod mater Canolfan Mileniwm Cymru. Ni allwn gymryd penderfyniadau unigol. Mae gennym Gyngor Celfyddydau Cymru ac mae'n well sicrhau ei fod yn acel ei staffio a'i ariannu'n briodol ac mai ef sydd yn gwneud y penderfyniadau, yn hytrach na disgwyl i'r Cynulliad benderfynu a ddylid talu £100,000 i'r naill gorff celfyddydol, a £500,000 i'r llall. Yr ydych yn sefydlu cwango, yn sicrhau ei fod yn cael ei redeg yn briodol, bod ganddo staff da, bwrdd iawn a chyfran dda, ac yna yr ydych yn disgwyl iddo gyflawni ei dasg.

Cynog Dafis: Pwysaf ar y Prif Ysgrifennydd i sicrhau bod trafodaethau'n parhau gyda Chanolfan Mileniwm Cymru. Mae'n brosiect eithriadol o bwysig. Mae ei lwyddiant yn ddibynnol ar ddau ffactor. Yn gyntaf, presenoldeb amrywiaeth o gyrff oddi mewn i'r ganolfan—megis yr Urdd a Hijinx Theatre—ac yn ail, ar adeilad o ansawdd uchel. A yw Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pwysau yn cael ei roi ar Gomisiwn y

Cynog Dafis: I urge the First Secretary to ensure that discussions with the Wales Millennium Centre continue. It is an exceptionally important project. Its success depends on two factors. First, the presence of a variety of organisations in the centre—such as the Urdd and Hijinx Theatre—and secondly, on a building of high quality. Is the Government of Wales ensuring that pressure is being put on the Millennium Commission

Mileniwm i roi y symiau cymharol fychan i Gymru a fyddai'n achub y prosiect hwnnw? Nid yw'r symiau yn ddim mwy na briwsion o'u cymharu â'r miliynau lawer sydd wedi mynd i'r Dôm.

to give the comparatively small amounts to Wales that would save that project? Those amounts are no more than crumbs compared to the many millions that have gone to the Dome.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr oeddwn yn disgwyl i Cynog lusgo'r Dôm i mewn i'r cwestiwn, er mwyn gwneud cymhariaeth. Nid yw'r ffaith fod cymaint o arian wedi cael ei wario neu ei wastraffu—nid wyf am ddweud beth yw fy marn—ar y Dôm yn golygu y gallwn ni wastraffu arian ar brosiectau yng Nghymru oherwydd eu bod wedi gwneud hynny yn y Dôm yn Greenwich. Mae'r un ddyletswydd arnom i sicrhau bod ein prosiectau ni yn werth yr arian a wariwn arnynt. Dyna yr ydym yn ceisio ei wneud yn awr, ar hyd yr un egwyddorion a llinellau ag yr oedd Cynog yn eu hannog.

The First Secretary: I was expecting Cynog to drag the Dome into the question, in order to make a comparison. The fact that so much money has been spent or wasted—I will not say what my opinion is—on the Dome does not mean that we can waste money on projects in Wales because they have done so at the Dome in Greenwich. We have the same duty to ensure that our projects are worth the money that we spend on them. That is what we are trying to do now, along the same principles and lines that Cynog was urging.

Cynnig Trefniadol
Procedural Motion

Y Llywydd: Yr wyf wedi derbyn cais o dan Reol Sefydlog Rhif 6.9 i'r Cynulliad ystyried ar unwaith fater brys penodol sydd o bwys cyhoeddus ar unwaith.

The Presiding Officer: I have received a request under Standing Order No. 6.9 for the Assembly to immediately consider a particular matter of urgent public importance.

Ieuan Wyn Jones: Gwnaf gais o dan Reol Sefydlog Rhif 6.9—

Ieuan Wyn Jones: I make a request under Standing Order No. 6.9—

Andrew Davies: Point of order. I cannot hear the translation.

Andrew Davies: Pwynt o drefn. Ni allaf glywed y cyfieithu.

Ieuan Wyn Jones: Y mae'r cyfieithu yn gweithio yn awr. Cynigiaf y cynnig hwn o dan Reol Sefydlog Rhif 6.9, wedi sicrhau caniatâd y Llywydd i wneud hynny ymlaen llaw. Cynigiaf fod

Ieuan Wyn Jones: The translation is now working. I propose this motion under Standing Order No. 6.9, having obtained the Presiding Officer's permission to do so beforehand. I propose that

y Cynulliad yn trafod ar unwaith fater brys penodol sydd o bwys cyhoeddus ar unwaith.

the Assembly should immediately discuss a particular matter of urgent public importance.

Y mater dan sylw yw'r argyfwng presennol yng Nghymru ac yng ngwledydd Prydain ynglŷn â phetrol a disel.

The matter in question is the present crisis in Wales and throughout the countries of Britain regarding petrol and diesel.

Wrth gynnig y cynnig hwn, Lywydd, teimlaf nid yn unig ei bod yn briodol fod y Cynulliad yn ystyried y mater hwn fel mater o frys heddiw, ond ei bod yn hanfodol ei fod yn

In proposing this motion, Presiding Officer, I feel that it is not only appropriate that the Assembly considers this matter as a matter of urgency today, but that it is essential that it

gwneud hynny.

does so.

These are exceptional circumstances, which demand exceptional measures by the National Assembly. It would be extraordinary were any Member of the National Assembly to feel that this was not a matter about which we should have an urgent debate. The reason for that is clear. It is now apparent that there is a clear correlation between a high duty on petrol and diesel and very high prices of crude oil. The Government could and should have anticipated that. It could have seen this crisis coming along way off.

Mae'r rhain yn amgylchiadau eithriadol, sydd yn galw am fesurau eithriadol gan y Cynulliad Cenedlaethol. Byddai'n hynod pe na bai unrhyw Aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol o'r farn bod hwn yn fater y dylem ei drafod fel mater o frys. Mae'r rheswm dros hynny yn eglur. Ymddengys bellach fod cyswllt amlwg rhwng y dreth uchel a godir ar betrol a disel a phris uchel iawn olew crai. Gallai a dylai'r Llywodraeth fod wedi rhagweld hynny. Gallai fod wedi gweld yr argyfwng hwn o bell.

What we have witnessed during the last few days has the hallmarks of a popular protest by people who see that their businesses are suffering. These protests have implications about which we need to challenge the First Secretary, and not only in relation to his own duties—the National Assembly is responsible for such emergency services as health and social services and the fire service. However, it is also important that the National Assembly expresses a clear view, which the First Secretary can convey in the strongest terms to the Treasury in London. In these exceptional circumstances, there is a case for calling for a reduction in the duty on petrol and diesel. In the course of any debate I would hope to be able to pursue those arguments.

Mae'r hyn a welwyd gennym yn ystod yr ychydig ddyddiau diwethaf yn nodweddu protest boblogaidd gan bobl sydd yn gweld bod eu busnesau'n dioddef. Mae goblygiadau i'r protestiadau hyn y mae angen inni herio'r Prif Ysgrifennydd yn eu cylch, ac nid yn unig mewn perthynas â'i ddyletswyddau ef ei hun—mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gyfrifol am wasanaethau brys megis iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth tân. Fodd bynnag, mae'n bwysig hefyd i'r Cynulliad Cenedlaethol fynegi barn bendant, y gall y Prif Ysgrifennydd ei chyfleu i'r eithaf i'r Trysorlys yn Llundain. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae lle i ddadlau dros ostwng y dreth ar betrol a disel. Yn ystod unrhyw ddadl hoffwn fynd ar drywydd y dadleuon hynny.

Finally, I say to the Government that a statement will not be good enough. The situation has gone beyond that. We demand a full debate so that all Members can participate fully.

Yn olaf, dywedaf wrth y Llywodraeth na fydd datganiad yn ddigon da. Mae'r sefyllfa wedi mynd y tu hwnt i hynny. Mynnwn ddadl lawn fel y gall pob Aelod gymryd rhan lawn.

The Presiding Officer: I call the Business Secretary to comment.

Y Llywydd: Galwaf ar y Trefnydd am ei sylwadau.

The Business Secretary (Andrew Davies): I presume that Ieuan was moving the no named day motion.

Y Trefnydd (Andrew Davies): Yr wyf yn cymryd bod Ieuan yn cyflwyno cynnig heb ddyddiad trafod.

Ieuan Wyn Jones: No.

Ieuan Wyn Jones: Nac wyf.

Andrew Davies: You were asking for the debate as a matter of urgency. I will not address the substantive policy issue because whatever happens in the vote will be addressed either in the debate or, if that is voted against—

Andrew Davies: Yr oeddech yn gwneud cais am y ddadl fel mater o frys. Nid af i'r afael â mater sylweddol y polisi oherwydd bydd yr hyn a gawn yn y bleidlais yn cael ei drafod naill ai yn y ddadl neu, os pleidleisir yn erbyn—

Ieuan Wyn Jones: It is important to clarify that I did not move the no named day motion; I simply asked for a debate. The Assembly will have to vote on whether or not we move on to debate the no named day motion.

Ieuan Wyn Jones: Mae'n bwysig egluro na chyflwynais gynnig heb ddyddiad trafod; gofyn yr oeddwn am ddadl. Bydd yn rhaid i'r Cynulliad bleidleisio pa un ai a ydym yn symud ymlaen i drafod cynnig heb ddyddiad trafod ai peidio.

Andrew Davies: Irrespective of whether we have the debate or not, there will be a statement by my colleague, Sue Essex. We will debate the substantive issue at that point. However, as a Government we cannot support this proposition, particularly in the light of the no named day motion that has been tabled by Plaid Cymru.

Andrew Davies: Waeth a gawn ddadl ai peidio, bydd fy nghyd-Aelod Sue Essex yn gwneud datganiad. Byddwn yn trafod y mater sylweddol bryd hynny. Fodd bynnag, fel Llywodraeth ni allwn gefnogi'r cynnig hwn, yn enwedig yng ngoleuni cynnig heb ddyddiad trafod a gyflwynwyd gan Blaid Cymru.

This is an urgent situation, which the Government takes very seriously. My colleagues have been working hard on this and liaising with the UK Government. The people of Wales are concerned about the present fuel crisis. We think that it would be better if the Assembly were to consider it in the context of a full and detailed statement from Sue Essex, Secretary for the Environment, Planning and Transport. She will give a commitment to update Members on a daily basis and to give a further report in Plenary on Thursday if necessary. That would be a more appropriate way of dealing with this serious situation rather than indulging in the political point scoring that is contained in the Plaid Cymru no named day motion.

Mae hon yn sefyllfa frys, y mae'r Llywodraeth yn ei chymryd o ddifrif. Mae fy nghyd-Aelodau wedi bod yn gweithio'n ddygn ar hyn ac yn cysylltu â Llywodraeth y DU. Mae pobl Cymru'n pryderu am yr argyfynwg tanwydd presennol. Yr ydym o'r farn y byddai'n well pe bai'r Cynulliad yn ei ystyried yng nghyd-destun datganiad llawn a manwl gan Sue Essex, Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth. Bydd yn ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau bob dydd gan gyflwyno adroddiad pellach i'r Cyfarfod Llawn ddydd Iau os bydd angen. Byddai honno yn ffordd fwy priodol o ymdrin â'r sefyllfa ddifrifol hon yn hytrach nag ymbleseru mewn ymrafael pleidiol fel sydd yn y cynnig heb ddyddiad trafod gan Blaid Cymru.

2:40 p.m.

The Presiding Officer: Order. I hate to interrupt such an august person as the Business Secretary so early in the session. However, we are not debating the no named day motion. We are debating Standing Order No. 6.9, which states that when:

Y Llywydd: Trefn. Mae'n gas gennyf dorri ar draws person mor fawreddog â'r Trefnydd mor gynnar yn y sesiwn. Fodd bynnag, nid ydym yn trafod cynnig heb ddyddiad trafod. Yr ydym yn trafod Rheol Sefydlog Rhif 6.9 sydd yn datgan:

'a Member other than an Assembly Secretary has made a proposition, the Presiding Officer will allow an Assembly Secretary to reply before putting the proposition to the vote'.

'os Aelod heblaw Ysgrifennydd Cynulliad sydd wedi gwneud cynnig, bydd y Llywydd yn caniatáu i Ysgrifennydd Cynulliad ateb cyn cynnal pleidlais ar y cynnig.'

We are not debating the no named day motion.

Nid ydym yn trafod cynnig heb ddyddiad trafod.

Andrew Davies: I accept your point, but

Andrew Davies: Yr wyf yn derbyn eich

Ieuan did refer to the motion in moving this procedural motion. Furthermore, he referred to the substantive policy issues contained in that motion. As Ieuan will remember as the former Business Manager of Plaid Cymru, the administration came under considerable pressure, and my colleague, the Finance Secretary and I agreed that we would find time to debate the comprehensive spending review fully and immediately on our return after the summer constituency weeks. We gave our commitment and we wish to abide by it. That is also an extremely urgent, long-term matter for the Assembly. We have done that and I believe that it is right that we stick to our decision and the commitment that we made previously. We can do this with a statement by my colleague, Sue Essex, on the fuel crisis and a debate on the comprehensive spending review.

pwynt, ond cyfeiriodd Ieuan at y cynnig wrth gyflwyno'r cynnig trefniadol hwn. At hynny, cyfeiriodd at y materion polisi sylweddol a oedd o fewn y cynnig hwnnw. Fel y cofia Ieuan fel cyn Drefnydd Plaid Cymru, bu'r weinyddiaeth o dan gryn bwysau, a chytunodd fy nghyd-Aelod, Yr Ysgrifennydd Cyllid a minnau y byddem yn rhoi amser i drafod yr arolwg cynhwysfawr o wariant yn llawn ac ar unwaith wedi inni ddychwelyd o wythnosau yn yr etholaethau yn yr haf. Rhoddwyd ymrwymiad gennym a dymunwn gadw ato. Mae hwnnw hefyd yn fater brys tymor hir i'r Cynulliad. Yr ydym wedi gwneud hynny a chredaf ei bod yn briodol inni gadw at ein penderfyniad a'r ymrwymiad a wnaethpwyd gennym ynghynt. Gallwn wneud hyn drwy ddatganiad gan fy nghyd-Aelod, Sue Essex, ar yr argyfwng tanwydd a dadl ar yr arolwg cynhwysfawr o wariant.

Cynnig: O blaid 24, Ymatal 0, Yn erbyn 32.
Motion: For 24, Abstain 0, Against 32.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bourne, Nick
Cairns, Alun
Dafis, Cynog
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Graham, William
Hancock, Brian
Jarman, Pauline
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lloyd, David
Melding, David
Morgan, Jonathan
Richards, Rod
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Phil

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Black, Peter
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Jane Davidson
Davies, Andrew
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
Feld, Val
German, Michael
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Marek, John
Middlehurst, Tom
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Williams, Kirsty

Gwrthodwyd y cynnig.
Motion rejected.

Y Llywydd: Golyga hyn fod y Cynulliad wedi penderfynu peidio â chynnal dadl frys ar y pwnc.

The Presiding Officer: This means that the Assembly has decided not to hold an urgent debate on the subject.

Pwyntiau o Drefn
Points of Order

William Graham: Point of order. Thank you for allowing me to raise the matter this afternoon. It concerns the relationship between Assembly Members and the Civil Service. I will preface my short remarks by saying that this is not a matter of personal opinion; it is a matter of concern to all Assembly Members. I am sure that we will all welcome your ruling but I trust that the ruling will contain a clear route to resolve issues of this kind and that it will allow an elected Member to make reasonable comment in the spirit of a free and open representative democracy.

William Graham: Pwynt o drefn. Diolch ichi am ganiatáu imi godi'r mater hwn y prynhawn yma. Mae'n ymwneud â'r berthynas rhwng Aelodau o'r Cynulliad a'r Gwasanaeth Sifil. Cyn cynnig fy sylwadau byr hoffwn ddweud nad mater o farn bersonol yw hwn; mae'n fater o bryder i bob Aelod o'r Cynulliad. Yr wyf yn siŵr y byddwn oll yn croesawu eich dyfarniad ond hyderaf y bydd y dyfarniad yn rhoi llwybr clir i ddatrys materion o'r fath ac y bydd yn caniatáu Aelod etholedig roi sylwadau rhesymol mewn ysbryd o ddemocratiaeth gynrychioliadol rydd ac agored.

The Presiding Officer: I am grateful to William for giving me advance notice of his intention to raise a point of order relating to the relationship between Assembly Members and Assembly staff. The protocol governing the relationship between Assembly Members and staff was agreed by unanimous vote in Plenary on 18 May 1999, and emphasised that the relationship between Assembly Members and Assembly staff should be professional and based on mutual respect. The protocol does not establish any machinery to determine who is responsible for resolving disagreement about this key principle.

Y Llywydd: Yr wyf yn ddiolchgar i William am fy rhybuddio ymlaen llaw o'i fwriad i godi pwynt o drefn ynghylch y berthynas rhwng Aelodau o'r Cynulliad a staff y Cynulliad. Cytunwyd ar y protocol sydd yn rheoli'r berthynas rhwng Aelodau a staff y Cynulliad yn unfrydol yn y Cyfarfod Llawn ar 18 Mai 1999, gan bwysleisio y dylai'r berthynas rhwng Aelodau'r Cynulliad a staff y Cynulliad fod yn un broffesiynol yn seiliedig ar barch y naill at y llall. Nid yw'r protocol yn sefydlu unrhyw fecanwaith i bennu pwy sydd yn gyfrifol am ddatrys anghytundeb ynglŷn â'r egwyddor sylfaenol hon.

In the light of recent events, this seems to be an ideal opportunity to take the matter forward. In future, if an Assembly Member is of the opinion that an Assembly official has not acted in the best interests of the Assembly, that Member should first discuss the matter with the Presiding Officer. The Presiding Officer would inform the Permanent Secretary of the Member's concern. The Permanent Secretary and I—and I think that I can say that I have the Permanent Secretary's agreement to this way forward—would then seek to bring the issue, in consultation with the Member and the

Yng ngoleuni digwyddiadau diweddar, ymddengys bod hwn yn gyfle delfrydol i fynd â'r mater ymlaen. Yn y dyfodol, os bydd Aelod o'r Cynulliad o'r farn nad yw un o swyddogion y Cynulliad wedi gweithredu er budd y Cynulliad, dylai'r Aelod hwnnw drafod y mater gyda'r Llywydd gyntaf. Byddai'r Llywydd yn hysbysu'r Ysgrifennydd Parhaol o bryder yr Aelod. Yna byddai'r Ysgrifennydd Parhaol a minnau—a chredaf y gallaf ddweud fod yr Ysgrifennydd Parhaol yn cytuno â'r ffordd hon o barhau—yn datrys y mater, mewn ymgynghoriad â'r Aelod a'r swyddog. Gobeithiaf y byddai hyn

official, to a conclusion. I hope that this would enable us and Members to find a suitable method of resolving any misunderstandings. Although Members are responsible for what they say in public or within the Chamber, I hope that in future it will be possible for us to resolve these issues on the basis of a protocol and that the procedure that I have outlined will form part of the protocol for relationships between Assembly Members and Assembly staff. This will be subject to full consultation. With the Business Committee's agreement, the Assembly will have an opportunity to debate these changes to protocol before they are adopted.

yn fodd i'r Aelodau a ninnau ddod o hyd i ffordd briodol o ddatrys unrhyw gamddealltwriaeth. Er mai'r Aelodau sydd yn gyfrifol am yr hyn a ddywedant yn gyhoeddus neu yn y Siambr, hyderaf y bydd yn bosibl i ni ddatrys y materion hyn ar sail protocol yn y dyfodol ac y bydd y weithdrefn a nodwyd gennyf yn rhan o'r protocol ar y berthynas rhwng Aelodau o'r Cynulliad a staff y Cynulliad. Cynhelir ymgynghoriad llawn ar hyn. Gyda chaniatâd y Pwyllgor Busnes, caiff y Cynulliad gyfle i drafod y newidiadau hyn i'r protocol cyn eu mabwysiadu.

Nick Bourne: Point of order. You had advance notice of this matter. It relates to the protocol for flags, particularly the flying of the Merchant Navy Red Ensign on Merchant Navy day on 3 September. Representations were made to you by political parties and others on this matter. Many people in Wales and from all political parties feel strongly that this should be permitted. Are we in a position to put this right for 3 September next year, if necessary by adding another flagpole if it is essential that all the three usual flags fly? How can this matter be taken forward so that we can avoid the situation that we had this year, which was regrettable for members of the Merchant Navy and to all those who feel that they have given a lot to this country—this country meaning Wales and the United Kingdom?

Nick Bourne: Pwynt o drefn. Fe'ch rhybuddiwyd ymlaen llaw am y mater hwn. Mae'n ymwneud â'r protocol ar faneri, yn enwedig codi Lluman Coch y Llynges Fasnachol ar ddiwrnod y Llynges Fasnachol ar 3 Medi. Cyflwynodd y pleidiau gwleidyddol a phobl eraill sylwadau ichi ar y mater hwn. Mae llawer o bobl yng Nghymru ac o bob plaid wleidyddol yn teimlo'n gryf y dylid caniatáu hyn. A ydym mewn sefyllfa i unioni'r cam erbyn 3 Medi y flwyddyn nesaf, drwy godi polyn fflag arall os oes angen os yw'n hanfodol bod y tair baner arferol yn cyhwfan ar yr un pryd? Sut y gellir mynd â'r mater hwn ymlaen er mwyn inni allu osgoi'r sefyllfa a gawsom eleni, a oedd yn anffodus i aelodau'r Llynges Fasnachol ac i'r rhai sydd yn teimlo eu bod wedi cyfrannu llawer i'r wlad hon—hynny yw Cymru a'r Deyrnas Unedig

Alun Pugh: Further to that point of order, I agree with Nick Bourne. Several merchant seamen in my constituency have approached me about this matter.

Alun Pugh: Ymhellach i'r pwynt o drefn hwnnw, yr wyf yn cytuno â Nick Bourne. Mae sawl morwr masnachol yn fy etholaeth wedi dod i siarad â mi ynglŷn â'r mater hwn.

The Presiding Officer: I am grateful to Nick Bourne and Alun Pugh for raising this issue and for giving me advance notice. Since the National Assembly took its powers on 1 July 1999, we have flown three flags—the Welsh flag, the United Kingdom flag and the European Union flag—during Assembly working weeks. We have not flown any other flags. Following representations, the First Secretary informed me that he had decided to fly the Red Ensign over the Government of Wales building in Cathays Park. Therefore,

Y Llywydd: Yr wyf yn ddiolchgar i Nick Bourne ac Alun Pugh am godi'r mater hwn ac am fy rhybuddio ymlaen llaw. Ers i'r Cynulliad Cenedlaethol ymgymryd â'i bwerau ar 1 Gorffennaf 1999, yr ydym wedi codi tair baner—baner Cymru, baner y Deyrnas Unedig a baner yr Undeb Ewropeaidd—yn ystod wythnosau gwaith y Cynulliad. Nid ydym wedi codi unrhyw faneri eraill. Yn dilyn sylwadau, dywedodd y Prif Ysgrifennydd wrthyf ei fod wedi penderfynu codi'r Lluman Coch dros adeilad

the Government of Wales displayed the ensign, as did other Government departments within the UK. As a parliamentary building, the National Assembly has only flown flags which relate to legislative and constitutional activity.

Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays. Felly, arddangoswyd y lluman gan Lywodraeth Cymru, fel y gwnaeth adrannau eraill o'r Llywodraeth o fewn y DU. Fel adeilad seneddol, dim ond wedi codi'r baneri sydd yn ymwneud â gweithgaredd deddfwriaethol a chyfansoddiadol y mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i wneud.

I am conscious of the important relationship that we have with the Merchant Navy, and I believe that that relationship could be established around the Pierhead building. I have therefore arranged a meeting with the Merchant Navy Association (Wales) to discuss this matter in relation to the planning of our new building and our proposals for the Pierhead building. If we establish a new House Committee by Standing Orders next month, there will be an opportunity for that committee to discuss this matter fully.

Yr wyf yn ymwybodol o'r berthynas bwysig rhyngom â'r Llynges Fasnachol, a chredaf y gellid sefydlu'r berthynas honno yn seiliedig ar adeilad Pierhead. Felly yr wyf wedi trefnu cyfarfod gyda Chymdeithas y Llynges Fasnachol (Cymru) i drafod y mater hwn mewn perthynas â chynllunio ein hadeilad newydd a'n cynigion ar gyfer adeilad Pierhead. Os sefydlwn Bwyllgor Tŷ newydd drwy Reolau Sefydlog y mis nesaf, bydd cyfle i'r pwyllgor hwnnw drafod y mater hwn yn llawn.

Janet Ryder: Point of order. I seek clarification on the role of Subject Committees. I would like your guidance on one aspect of their role. The Local Government and Housing Committee is about to commence a review into the process for the transfer of council housing stock. However, its agenda for Wednesday includes a debate on draft guidelines for this process. If that is not pre-empting the Committee's review enough, I now understand that these draft guidelines have even pre-empted the Committee's debate on them and have been issued to interested groups as guidelines on the transfer of council housing stock. Can you clarify the role of the Subject Committee on this issue?

Janet Ryder: Pwynt o drefn. Hoffwn gael eglurhad ynglŷn â rôl y Pwyllgorau Pwnc. Hoffwn gael eich arweiniad ar un agwedd ar eu rôl. Mae'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar fin adolygu'r broses o drosglwyddo stoc tai cyngor. Fodd bynnag, ar ei agenda ddydd Mercher mae dadl ar ganllawiau drafft ar gyfer y broses hon. A hynny wedi achub y blaen ar arolwg y Pwyllgor, yr wyf ar ddeall bellach bod y canllawiau drafft hyn hyd yn oed wedi achub y blaen ar ddadl y Pwyllgor yn eu cylch, a'u bod wedi eu dosbarthu i grwpiau â diddordeb fel canllawiau ar drosglwyddo stoc tai cyngor. A allwch egluro rôl y Pwyllgor Pwnc ar y mater hwn?

The Presiding Officer: I am grateful to Janet for giving me advance notice of that point of order. I cannot clarify the role of Subject Committees today. I will note the point, and it has already been noted as a matter for the review of Assembly procedure. As far as this issue is concerned, I encourage Members to raise such matters in Committee meetings first, rather than in Plenary. The Executive under Peter Law is very effective in this matter, but I doubt whether even he would consider that a draft produced by him would pre-empt what the Committee might wish to decide. Generally, in their deliberations, committees can take advice from any area. I

Y Llywydd: Yr wyf yn ddiolchgar i Janet am fy rhybuddio ymlaen llaw am y pwynt o drefn hwnnw. Ni allaf egluro rôl y Pwyllgorau Pwnc heddiw. Nodaf y pwynt, ac mae eisoes wedi ei nodi fel mater ar gyfer adolygiad o weithdrefn y Cynulliad. O safbwynt y mater hwn, hoffwn annog Aelodau i godi materion o'r fath yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau yn gyntaf, yn hytrach nag yn y Cyfarfod Llawn. Mae'r Weithrediaeth o dan Peter Law yn effeithiol iawn yn hyn o beth, ond yr wyf yn amau a fyddai yntau hyd yn oed o'r farn y dylai drafft a luniwyd ganddo achub y blaen ar yr hyn y dymunai'r Pwyllgor ei benderfynu. Ar

expect that the Committee will consider the draft guidelines at its next meeting and that those guidelines will be open to debate and to contributions from Committee members and others.

y cyfan, gall y pwyllgorau yn eu trafodaethau gael cyngor o unrhyw ffynhonnell. Disgwyliaf y bydd y Pwyllgor yn ystyried y canllawiau drafft yn ei gyfarfod nesaf ac y bydd y canllawiau hynny yn agored i'w trafod ac i gyfraniadau gan aelodau'r Pwyllgor a phobl eraill.

The Secretary for Local Government and Housing (Peter Law): I am grateful to you for clarifying that matter. I would wish to take advantage of the benefit of hearing from the Committee and I will answer this in detail for Janet on Wednesday. It is a consultative exercise at present. The Committee will be fully consulted on that Government policy.

Yr Ysgrifennydd Llywodraeth Leol a Thai (Peter Law): Yr wyf yn ddiolchgar ichi am egluro'r mater hwnnw. Hoffwn achub y cyfle i wrando ar y Pwyllgor a byddaf yn rhoi ateb manwl i Janet ddydd Mercher. Ymarfer ymgynghorol ydyw ar hyn o bryd. Ymgynghorir â'r Pwyllgor yn llawn ar y polisi Llywodraeth hwnnw.

Gwenda Thomas: Further to that point of order, this matter is scheduled for the Local Government and Housing Committee meeting tomorrow. That is well known to Janet Ryder.

Gwenda Thomas: Ymhellach i'r pwynt hwnnw o drefn, mae'r mater hwn ar agenda cyfarfod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yfory. Mae hynny'n gwbl hysbys i Janet Ryder.

2:50 p.m.

Datganiad ar y Prinder Tanwydd
Statement on the Fuel Shortage

The Secretary for the Environment, Planning and Transport (Sue Essex): I make this statement this afternoon because of the serious situation that faces us in Wales as a result of the action taken to prevent the movement of fuel from oil refineries and depots. In a democracy, we all have a right to be heard but no individual or group of individuals has the right to abuse that by acting in ways that put the health and welfare of others at risk. I strongly echo the First Secretary's call for the blockades to stop now in the interests of public safety.

Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth (Sue Essex): Gwnaf y datganiad hwn y prynhawn yma oherwydd y sefyllfa ddifrifol sydd yn ein hwynebu yng Nghymru o ganlyniad i'r camau a gymerwyd i atal tanwydd rhag cael ei symud o burfeydd a depos olew. Mewn democratiaeth, mae gennym oll hawl i leisio barn ond nid oes hawl gan unigolyn na grŵp o unigolion gymryd mantais o hynny drwy weithredu mewn ffyrdd sydd yn peryglu iechyd a lles pobl eraill. Ategaf yn gryf alwad y Prif Ysgrifennydd i'r blocadau gael eu codi yn awr er mwyn diogelwch y cyhoedd.

The purpose of this statement is to provide public information. I hope that Ieuan accepts that in the current crisis I want to use this opportunity this afternoon to convey information to the public. I am happy to debate tax and fuel prices but that should not detract from the important information that I want to convey to the Assembly and the public. The purpose of this statement is to inform you and others about the current situation in Wales and the steps that we and

Diben y datganiad hwn yw rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd. Gobeithiaf y bydd Ieuan yn derbyn fy mod am achub ar y cyfle hwn y prynhawn yma oherwydd yr argyfwng presennol i roi gwybodaeth i'r cyhoedd. Yr wyf yn fodlon trafod treth a phris tanwydd ond ni ddylai hynny dynnu sylw oddi ar yr wybodaeth bwysig yr wyf am ei rhoi i'r Cynulliad a'r cyhoedd. Diben y datganiad hwn yw rhoi gwybod i chi a phobl eraill am y sefyllfa sydd ohoni yng Nghymru a'r camau

others are taking to deal with it. The action taken to prevent the movement of fuel from oil refineries and depots is already creating serious problems for essential and emergency services. If it continues much longer, major companies across Wales will come to a standstill. It has already created immense inconvenience and perhaps hardship for families who depend on the car for essential journeys, including travelling to work and obtaining indispensable commodities. It will soon affect public transport services. The impact on the public and businesses will be such that few will remain unaffected. I am pleased that passenger transport operators are co-operating well with each other and are seeking to provide a good level of service, while fuel supplies last, throughout Wales.

yr ydym ni ac eraill yn eu cymryd i fynd i'r afael â hi. Mae'r camau a gymerwyd i atal tanwydd rhag cael ei symud o burfeydd a depos olew eisoes yn achosi problemau difrifol i'r gwasanaethau hanfodol a'r gwasanethau brys. Os bydd yn parhau am lawer hwy, bydd cwmnïau mawr ledled Cymru yn segur. Mae eisoes wedi peri cryn anghyfleusdra a chaledi o bosibl i deuluoedd sydd yn dibynnu ar y car am deithiau hanfodol, gan gynnwys teithio i'r gwaith a phrynu nwyddau hanfodol. Bydd yn amharu ar wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus cyn bo hir. Bydd yr effaith ar y cyhoedd a busnesau mor fawr fel na fydd bron neb heb eu heffeithio. Mae'n dda gennyf bod cwmnïau cludiant teithwyr yn cydweithredu'n dda gyda'i gilydd ac yn gwneud ymdrech i roi lefel dda o wasanaeth, tra pery cyflenwadau tanwydd, ledled Cymru.

I will describe the current situation in detail. We have obtained this information from various agencies and other sources across Wales. Local authorities are particularly concerned about the impact on social services since key staff providing domiciliary services are unable to obtain fuel. In some areas it has been forecast that services such as meals on wheels will have to be discontinued shortly. On-call duty social workers, home care assistants and day care staff are affected. At least one authority, Anglesey, will be unable to collect refuse from today. School transport will be affected shortly and the fact that staff will be unable to travel to work in many cases will contribute to school closures. Councils are currently assessing the situation and formulating contingency plans. Most councils are instigating measures to minimise non-essential travel.

Disgrifiaf y sefyllfa sydd ohoni yn fanwl. Yr ydym wedi cael yr wybodaeth hon gan amryw asiantaethau a ffynonellau eraill ledled Cymru. Mae'r awdurdodau lleol yn arbennig yn pryderu am yr effaith ar y gwasanaethau cymdeithasol gan nad yw aelodau allweddol o'r staff sydd yn darparu gwasanaethau yn y cartref yn gallu cael tanwydd. Mewn rhai ardaloedd rhagwelir y bydd yn rhaid rhoi gorau i wasanaethau megis y gwasnaeth pryd ar glud cyn bo hir. Amherir ar weithwyr cymdeithasol ar ddyletswydd, cynorthwywyr gofal yn y cartref a staff gofal dydd. Bydd un awdurdod o leiaf, sef Ynys Môn, yn methu â chasglu sbwriel o heddiw ymlaen. Amherir ar gludiant i'r ysgol yn fuan a bydd y ffaith bod y staff yn methu â theithio i'r gwaith mewn rhai achosion yn cyfrannu tuag at gau ysgolion. Mae'r cynghorau'n asesu'r sefyllfa ar hyn o bryd ac yn llunio cynlluniau wrth gefn. Mae'r rhan fwyaf o'r cynghorau'n cyflwyno mesurau i leihau teithiau nad ydynt yn hanfodol.

The position in the NHS is similar and my colleague, Jane Hutt, is closely monitoring the situation. All services—ambulance, hospital, primary care, blood and community services—are under pressure and barely holding on. Some service restrictions have already been introduced. There are rapidly mounting difficulties in terms of staff getting to work. All services will suffer major

Mae sefyllfa debyg yn yr NHS ac mae fy nghyd-Aelod, Jane Hutt, yn monitro'r sefyllfa'n fanwl. Mae pob un o'r gwasanaethau—boed yn wasanaethau ambiwlans, ysbytai, gofal sylfaenol, gwaed a chymunedol—o dan bwysau a phrin y maent yn ymdopi. Mae rhai cyfyngiadau ar wasanaethau eisoes wedi eu cyflwyno. Mae anawsterau cynyddol o ran y staff yn

disruption within 24 to 48 hours unless fuel supplies are restored. At that time it will be difficult to maintain even emergency services. Community health services are a particular concern and vulnerable patients are being given priority. The immediate concern is the ability of ambulances and other essential health services to maintain their life-saving services if supplies of fuel are not maintained. I understand that arrangements have been made locally to maintain such emergency services with the agreement of protesters. Although this is helpful, it does not resolve matters, and many who require assistance will not get it.

cyrraedd y gwaith. Amherir ar bob un o'r gwasanaethau yn ddifrifol o fewn 24 i 48 awr oni fydd cyflenwadau olew yn cael eu hadfer. Erbyn hynny bydd yn anodd cynnal y gwasanaethau brys hyd yn oed. Mae'r gwasanaethau iechyd yn y gymuned yn achosi cryn bryder a rhoddir blaenoriaeth i gleifion diymgeledd. Y pryder ar hyn o bryd yw gallu'r gwasanaeth ambiwlans a gwasanaethau iechyd hanfodol eraill i gynnal eu gwasanaethau sydd yn achub bywydau os na chynhelir cyflenwadau tanwydd. Yr wyf ar ddeall i drefniadau gael eu gwneud yn lleol i gynnal gwasanaethau brys o'r fath gyda chytundeb y protestwyr. Er bod hyn yn ddefnyddiol, nid yw'n datrys pethau, a bydd llawer sydd angen cymorth yn methu â'i gael.

David Lloyd *rose—*

David Lloyd *a gododd—*

The Presiding Officer: Order. This is a statement. There will be an opportunity to ask questions at the end of the statement.

Y Llywydd: Trefn. Datganiad yw hwn. Bydd cyfle i ofyn cwestiynau ar ddiwedd y datganiad.

Sue Essex: The impact on businesses and on the economy will soon be felt. Businesses are already indicating that a shortage of fuel will affect their ability to continue to work. Increasingly, staff will find it difficult or impossible to get to work. Dŵr Cymru has announced that, as a precaution, its water business will focus on emergencies and repairs and that it will postpone operational work. Although there is no indication yet of imminent fuel shortages threatening that service, the company is keeping the situation under review.

Sue Essex: Bydd yr effaith i'w deimlo mewn busnesau a'r economi yn fuan iawn. Mae busnesau eisoes yn dweud y bydd prinder tanwydd yn amharu ar eu gallu i barhau i weithredu. Yn fwy fwy, bydd staff yn ei chael yn anodd neu'n amhosibl cyrraedd y gwaith. Mae Dŵr Cymru wedi cyhoeddi y bydd ei fusnes dŵr, fel rhagofal, yn canolbwyntio ar achosion brys a gwaith atgyweirio ac y bydd yn gohirio gwaith gweithredol. Er nad oes arwydd hyd yn hyn y bydd y prinder tanwydd ar hyn o bryd yn peryglu'r gwasanaeth hwnnw, mae'r cwmni'n cadw golwg ar y sefyllfa.

Fuel shortages will soon hit farmers. The impact will be felt first in the dairy sector. If dairy companies run out of fuel, they will not be able to collect milk from farms. Apart from disruption of the milk supply, a major potential pollution problem could arise as farmers are forced to dispose of their milk. If shortages persist, disruption of feed supplies could lead to animal welfare problems and disrupt livestock sales. It is worth pointing out that the current excise duty on red diesel, which is used for farm vehicles, is 2.82p per litre, compared with 44.9p per litre for diesel road fuel. It is important that we know that.

Bydd y prinder tanwydd yn bwrw'r ffermwyr cyn bo hir. Yn y sector cynnyrch llaeth y bydd yr ergyd gyntaf. Os bydd cwmnïau cynnyrch llaeth yn rhedeg allan o danwydd, ni fyddant yn gallu casglu llaeth o'r ffermydd. Yn ogystal ag amharu ar y cyflenwad llaeth, gallai problem ddifrifol godi o ran llygredd os caiff ffermwyr eu gorfodi i gael gwared o'r llaeth. Os bydd y prinder yn parhau, gallai'r amhariaeth i'r cyflenwadau porthiant arwain at broblemau o ran lles anifeiliaid ac amharu ar werthu gwartheg. Mae'n werth nodi mai 2.82c y litr yw'r doll gyfredol ar ddisel coch, a ddefnyddir ar gyfer cerbydau fferm, o'i chymharu â 44.9c y litr ar gyfer tanwydd

disel ffordd. Mae'n bwysig ein bod yn gwybod hynny.

It is too soon to assess the impact on the economy in general, but the situation will soon be critical in major companies. The situation has deteriorated so rapidly because of panic buying. There is little fuel left in our major cities and towns, as I am sure that many of us can testify. Texaco and Elf service stations do not have supplies.

Mae'n rhy fuan i asesu'r effaith ar yr economi yn gyffredinol, ond bydd y sefyllfa'n dyngedfennol i'r cwmnïau mawr cyn bo hir. Mae'r sefyllfa wedi gwaethygu mor gyflym oherwydd prynu brys. Ychydig danwydd sydd ar ôl yn ein prif ddinasoedd a threfi, fel y gall llawer ohonom ategu, mae'n siŵr. Nid oes gan orsafoedd Texaco ac Elf gyflenwadau.

To put this in context—and there are strong feelings on this—we have faced an unprecedented rise in fuel costs over the last 18 months. When the situation first became serious, I stated publicly that I considered it to be so and that, in response, I would collect information in partnership with the appropriate transport associations to describe and assess how the increase in transport costs was affecting business and society in Wales. I said clearly then that that was an important role for the Assembly.

I osod hyn mewn cyd-destun—ac mae teimladau cryf ar hyn—yr ydym wedi wynebu cynnydd nas gwelwyd o'r blaen mewn costau tanwydd dros y 18 mis diwethaf. Pan ddechreuodd y sefyllfa fynd yn un ddifrifol, dywedais yn gyhoeddus fy mod o'r farn ei bod yn ddifrifol ac y byddwn, mewn ymateb, yn casglu gwybodaeth mewn partneriaeth â'r cymdeithasau cludiant priodol er mwyn disgrifio ac asesu sut yr oedd y cynnydd yn y costau cludiant yn effeithio ar fusnes a'r gymdeithas yng Nghymru. Dywedais yn glir bryd hynny bod gan y Cynulliad rôl bwysig i'w chwarae.

To do that, I proposed to establish a sub-group of the transport forum, which is already in operation to consider the impact of fuel prices on businesses and people. The forum represents a range of transport interests and has a wide membership of consumer, public transport and road haulage interests. The sub-group's work will enable the Assembly to produce an assessment and a recommendation, which we can put to Government.

Er mwyn gwneud hynny, cynigiais sefydlu is-grŵp o'r fforwm trafnidiaeth, sydd eisoes yn bodoli i ystyried effaith prisiau tanwydd ar fusnesau a phobl. Mae'r fforwm yn cynrychioli ystod o ddiddordebau trafnidiaeth ac mae ganddo aelodaeth eang sydd yn cynnwys diddordebau'r defnyddwyr, cludiant gyhoeddus a chludiant nwyddau ar y ffordd. Bydd gwaith yr is-grŵp yn galluogi'r Cynulliad i baratoi asesiad ac argymhelliad, y gallwn ei gyflwyno gerbron y Llywodraeth.

In the longer term—I do not need to remind you about this because we have had many discussions on it—we all wish to develop an integrated transport policy, which reduces dependency on the car and road freight and therefore contributes to reducing demand, so that, in the future, people have the kind of choices that they do not have now. The last few days have brought that message home.

Yn y tymor hwy—nid oes angen imi eich atgoffa ynglŷn â hyn am ein bod wedi cael sawl trafodaeth yn ei gylch—yr ydym oll yn awyddus i ddatblygu polisi trafnidiaeth integredig sydd yn lleihau dibyniaeth ar y car a chludiant nwyddau ar y ffordd ac felly yn cyfrannu at leihau'r galw, fel y bydd gan bobl, yn y dyfodol, y math o ddewisiadau nad oes ganddynt yn awr. Yn ystod yr ychydig ddyddiau diwethaf yr ydym wedi gweld hynny'n glir.

To bring you up to date, the Government has been given exceptional powers by Order in the Privy Council under Section 3 of the

Yr wybodaeth ddiweddaraf yw bod y Llywodraeth wedi cael pwerau eithriadol drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan

Energy Act 1976 to control the supply of fuel. Those can be used to ensure that available supplies of petrol, diesel and heating oil are distributed so as to safeguard essential services. We are awaiting details on how this might operate and how the Assembly will be involved. I will attend a meeting of the Civil Contingencies Committee tomorrow morning in London to participate in those decisions.

Adran 3 o Ddeddf Ynni 1976 i reoli'r cyflenwad tanwydd. Gellir defnyddio'r rhain i sicrhau y caiff y cyflenwadau o betrol, disel ac olew gwresogi eu dosbarthu er mwyn diogelu'r gwasanaethau hanfodol. Yr ydym yn aros am fanylion ar sut y gallai hyn weithredu a beth fydd rôl y Cynulliad. Byddaf yn mynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Argyfyngau Sifil bore yfory yn Llundain er mwyn cymryd rhan yn y penderfyniadau hynny.

The police have a vital role in this. We do not have operational responsibility for the police, but we are in close contact with them and they are holding an emergency meeting this afternoon in Bridgend. We are, however, responsible for ensuring that the major services affected, including health and social services, education, transport and highways, water and environmental services, are maintained.

Mae gan yr heddlu rôl holl bwysig yn hyn. Nid oes gennym gyfrifoldeb gweithredol dros yr heddlu, ond yr ydym mewn cysylltiad agos â hwy ac maent yn cynnal cyfarfod brys y prynhawn yma ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Yr ydym, fodd bynnag, yn gyfrifol am sicrhau bod y prif wasanaethau yr effeithir arnynt, gan gynnwys iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, addysg, trafnidiaeth a'r priffyrdd, gwasanaethau dŵr a'r amgylchedd, yn parhau i weithredu.

Local authorities and the national health service have their own plans and we are obtaining reports on the situation from them. They have their own emergency systems and each local authority has an emergency planning officer. Those officers are linking closely with us.

Mae gan yr awdurdodau lleol a'r gwasanaeth iechyd gwladol eu cynlluniau eu hunain ac yr ydym yn cael adroddiadau ganddynt ar y sefyllfa. Mae ganddynt eu systemau brys eu hunain ac mae swyddog cynllunio brys ymhob awdurdod lleol. Mae'r swyddogion hynny'n cysylltu'n agos â ni.

It is important that I regularly update Members on the situation and I guarantee that I will do so. I will give you information from the meetings on emergency powers in London. At the end of this afternoon, I would be very happy to meet the transport spokespeople of all the parties to ensure that they are all informed about this issue.

Mae'n bwysig fy mod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y sefyllfa yn rheolaidd i'r Aelodau. Gwnaf hynny. Byddaf yn rhoi gwybodaeth am y cyfarfodydd ar y pwerau brys yn Llundain. Ar ddiwedd y prynhawn yma, byddwn yn hapus iawn i gwrdd â llefarwyr pob plaid ar drafnidiaeth er mwyn sicrhau y cânt wybodaeth am y mater hwn.

3:00 p.m.

In terms of the Assembly's response, we have established a communication centre in Cathays Park, composed of senior officials, which is gathering information on the effects of fuel shortage in Wales and the effectiveness of measures being taken to deal with it. The centre receives regular reports and is in close contact with local authorities, the police, transport operators and others dealing with the situation on the ground. The centre will ensure that the Assembly Cabinet has a full and up-to-date picture of the

O ran ymateb y Cynulliad, yr ydym wedi sefydlu canolfan gyfathrebu ym Mharc Cathays, yn cynnwys uwch swyddogion, sydd yn casglu gwybodaeth am effaith y prinder tanwydd yng Nghymru a pha mor effeithiol yw'r mesurau a gymerir i ymdrin ag ef. Mae'r ganolfan yn derbyn adroddiadau rheolaidd ac mae'n cysylltu'n agos â'r awdurdodau lleol, yr heddlu, y cwmnïau cludiant a phobl eraill sydd yn ymwneud â'r sefyllfa yn ymarferol. Bydd y ganolfan yn sicrhau bod Cabinet y Cynulliad yn cael y

situation in Wales and it is also feeding information to the UK co-ordinating authorities to ensure that they also receive that up-to-date picture.

darlun llawn, diweddaraf o'r sefyllfa yng Nghymru ac mae hefyd yn bwydo gwybodaeth i'r awdurdodau cydlynu yn y DU er mwyn sicrhau eu bod hwy hefyd yn derbyn y darlun diweddaraf hwnnw.

I have had discussions with Paul Murphy, David Hanson and the Home Office and will continue to make representations on behalf of Wales to make its concerns known to the UK Government. Assembly and Wales Office officials are working in Cardiff and London to keep abreast of the situation in Wales and to take account of central Government planning. I am sure that I speak on behalf of all Members in placing on record my gratitude for the efforts and the co-operation of an enormous number of people across Wales during the short space of time that we have had to deal with this situation. Those people are making considerable efforts to ensure that inconvenience and hardship is minimised. We seek an early resolution to this and a constructive way forward. I repeat my earlier point. I accept that everyone has a right to peaceful demonstration to bring attention to a particular case. However, this is a serious situation and emergency services are at risk. I hope that all Members would understand that and unite to say to the protesters that they have made their point and that the time has come for this blockade to end for the sake of the people of Wales.

Yr wyf wedi cael trafodaethau gyda Paul Murphy, David Hanson a'r Swyddfa Gartref a byddaf yn parhau i gyflwyno sylwadau ar ran Cymru er mwyn lleisio ei phryderon i Lywodraeth y DU. Mae swyddogion y Cynulliad a Swyddfa Cymru yn gweithio yng Nghaerdydd a Llundain i sicrhau eu bod yn cael y newyddion diweddaraf am y sefyllfa yng Nghymru ac i ystyried cynlluniau'r Llywodraeth yn ganolog. Yr wyf yn siŵr fy mod yn siarad ar ran pob Aelod wrth nodi fy niolch i nifer enfawr o bobl ar draws Cymru am eu hymdrechion a'u cydweithrediad yn ystod y cyfnod byr o amser fu gennym i ymdrin â'r sefyllfa hon. Mae'r bobl hynny yn gwneud cryn ymdrech i sicrhau eu bod yn lleihau unrhyw anghyfleustra a chaledi i'r eithaf. Yr ydym am ddatrys hyn yn fuan a cheisio cael ffordd adeiladol ymlaen. Aildadroddaf y pwynt a wneuthum yn gynharach. Yr wyf yn derbyn bod gan bawb yr hawl i brotestio'n heddychlon er mwyn rhoi sylw i achos penodol. Fodd bynnag, mae hon yn sefyllfa ddifrifol ac mae'r gwasanaethau brys mewn perygl. Gobeithiaf y byddai pob un o'r Aelodau'n deall hynny ac uno i ddweud wrth y protestwyr eu bod wedi cyflawni eu nod a'i bod yn amser i godi'r blocâd hwn er lles pobl Cymru.

Ieuan Wyn Jones: I thank Sue for that very detailed statement. However, I am deeply disappointed by the Government's failure and, particularly, the Liberal Democrats' failure to support our request for a full debate today. The people of Wales have been badly let down as a result of their attitude. [*Interruption.*]

Ieuan Wyn Jones: Diolchaf i Sue am y datganiad manwl iawn hwnnw. Fodd bynnag, yr wyf yn hynod o siomedig bod y Llywodraeth, ac yn enwedig, y Democratiaid Rhyddfrydol, wedi methu â chefnogi ein cais am ddadl lawn heddw. Mae pobl Cymru wedi cael eu siomi'n fawr iawn oherwydd eu hagwedd hwy. [*Torri ar draws.*]

The Presiding Officer: Order. This is a statement, not a debate. I would welcome questions on the statement. I understand party leaders' need to make political points, but this is an opportunity to ask questions on the statement.

Y Llywydd: Trefn. Datganiad ydyw, nid dadl. Croesawaf gwestiynau ar y datganiad. Deallaf angen arweinwyr y pleidiau i wneud pwyntiau gwleidyddol, ond cyfle i ofyn cwestiynau ar y datganiad yw hwn.

Ieuan Wyn Jones: Does Sue accept that there are two issues here? The first is the deep concern about the price of fuel, both

Ieuan Wyn Jones: A yw Sue yn derbyn bod dau fater o dan sylw yma? Y cyntaf yw'r pryder mawr ynglŷn â phris tanwydd, sef

diesel and petrol. Do you not think that, on the Assembly Cabinet's behalf, you have a responsibility to convey to the Government in London that in these exceptional circumstances, where we have the highest duty in Europe except for Sweden, and where the price of crude oil has risen to over $34 a barrel, the Treasury should consider a reduction in petrol duty? Do you accept that there is a clear case for that?

disel a phetrol. Onid ydych o'r farn, ar ran Cabinet y Cynulliad, fod cyfrifoldeb arnoch i ddweud wrth y Llywodraeth yn Llundain o dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, lle mai ni sydd yn talu'r dreth uchaf yn Ewrop heblaw Sweden, a lle mae pris olew crai wedi codi i fwy na $34 y baril, y dylai'r Trysorlys ystyried gostwng y dreth ar betrol? A dderbyniwch fod dadl gref dros hynny?

Secondly, I agree that it is vital that the Cabinet, the First Secretary and yourself take steps to provide diesel and petrol for essential services and the emergency services. We all understand that from telephone calls and letters from our constituents about the crisis. Sue mentioned my constituency, Anglesey, and the collection of refuse. There is also the inability of doctors, health visitors and other health workers to visit their patients and, in particular, of carers to visit elderly people. If you cannot explain it to us today—and I know that that may be difficult at this stage—would you make an early statement on the impact of the emergency powers adopted by the Government through the Privy Council yesterday and how they will operate in Wales? I am sure that you would agree that it is important for the people of Wales to understand what role the National Assembly will have in this crisis. Finally, do you agree that the impact of this crisis on businesses underlines the fragility of the economy in many parts of Wales? That is why it is urgent that the Government in London responds positively to the current crisis.

Yn ail, cytunaf ei bod yn holl bwysig bod y Cabinet, y Prif Ysgrifennydd a chithau yn cymryd camau i ddarparu disel a phetrol ar gyfer y gwasanaethau hanfodol a'r gwasanaethau brys. Yr ydym oll yn deall hynny o'r galwadau ffôn a'r llythyrau oddi wrth ein hetholwyr ynglŷn â'r argyfwng. Cyfeiriodd Sue at fy etholaeth, Ynys Môn, a chasgliadau sbwriel. Mae meddygon, ymwelwyr iechyd a gweithwyr iechyd eraill, hefyd yn methu ag ymweld â'u cleifion, ac, yn arbennig gofalwyr sydd yn ymweld â'r henoed. Os na allwch roi eglurhad i ni heddiw—a gwn ei bod yn anodd o bosibl ar hyn o bryd—a fyddech yn gwneud datganiad yn gynnar ar effaith y pwerau brys a fabwysiadwyd gan y Llywodraeth trwy'r Cyfrin Gyngor ddoe a sut y cânt eu gweithredu yng Nghymru? Yr wyf yn siŵr y cytunech ei bod yn bwysig i bobl Cymru ddeall pa rôl fydd gan y Cynulliad Cenedlaethol yn yr argyfwng hwn. Yn olaf, a gytunwch bod effaith yr argyfwng hwn ar fusnesau yn tanlinellau pa mor fregus yw'r economi mewn sawl rhan o Gymru? Dyna pam y dylai'r Llywodraeth yn Llundain ymateb yn gadarnahol i'r argyfwng presennol fel mater o frys.

Sue Essex: I hope that I made it clear at the beginning of my statement that I would welcome a debate on this issue but that it was important to convey this information to the Welsh public at this time. That is their main concern. They do not want to hear us debating; they want to see that we are getting to grips with the situation and can give reassurance.

Sue Essex: Gobeithiaf imi fod yn eglur ar ddechrau fy natganiad y byddwn yn croesawu dadl ar y mater hwn ond ei bod yn bwysig i gyfleu'r wybodaeth hon i'r cyhoedd yng Nghymru ar yr adeg hon. Hwnnw yw eu prif bryder. Nid ydynt am ein clywed yn cynnal dadl; maent am weld ein bod yn mynd i'r afael â'r sefyllfa a'n bod yn gallu rhoi sicrwydd.

I will respond to your points in chronological order. I share your concern about increasing petrol prices and the consequences of that. That is why I suggested this way forward. Working with a range of organisations,

Byddaf yn ymateb i'ch pwyntiau yn eu trefn gronolegol. Rhannaf eich pryder ynglŷn â phris cynyddol petrol a goblygiadau hynny. Dyna pam yr awgrymais y ffordd hon ymlaen. Drwy weithio gydag ystod o

including public transport providers, we can assess the impact of this in Wales and present our views to London.

However, we do not set our tax policies in accordance with the Organisation of Petroleum Exporting Countries price levels, as you suggest. No responsible government would do that because fuel duty could be increased one week and reduced the next. That is not how a government should respond to taxation. We must see taxation in the round. That is why it is dangerous to isolate this issue and suggest that you could raise or lower duty independently; the situation must be considered as a whole. It would be unreasonable to expect any government to isolate this issue.

On your constituency, I agree that there was disturbing news from Anglesey. It is probably the worst affected place at the moment. That is why the emergency co-ordination that is being put in place is important. The Government is currently debating what it will do within its emergency powers, and we will be able to inform you about that after this session. I will be at the discussion in London tomorrow morning to put my view across and ensure that Wales's needs are addressed.

From the National Assembly's point of view, this will depend on co-operation between various fuel suppliers, and between and across local authorities and other organisations. The bus companies have worked extremely well together. I have established a communication centre because it is important that the Assembly is assured that arrangements are being co-ordinated and are on the ground and that those operational aspects are being delivered. That is why we are in constant communication. I will be updated on the situation every two hours. I will try to keep Members informed as quickly as possible so that you can respond to the situation in your constituencies. I am sure that, like me, you want to know how the situation is affecting your constituents and how you can help them.

Nick Bourne: The Welsh Conservatives felt

sefydliadau, gan gynnwys darparwyr cludiant gyhoeddus, gallwn asesu effaith hyn yn Nghymru a chyflwyno ein barn i Lundain.

Fodd bynnag, nid ydym wedi pennu ein polisïau ar dreth yn unol â lefelau prisiau Sefydliad y Gwledydd sydd yn Allforio Petroliwm, fel yr awgrymwch. Ni fyddai unrhyw lywodraeth gyfrifol yn gwneud hynny oherwydd y gallai toll ar danwydd gynyddu un wythnos a gostwng yr wythnos wedyn. Nid dyna'r ffordd y dylai llywodraeth ymateb i dreth. Rhaid inni ystyried trethiant gyda phopeth arall. Dyna pam ei bod beryglus trafod y mater hwn ar wahân ac awgrymu y gallech gynyddu neu ostwng treth yn annibynnol; rhaid ystyried y sefyllfa yn ei chyfanrwydd. Byddai'n afresymol disgwyl i unrhyw lywodraeth drafod y mater hwn ar wahân.

O ran eich etholaeth, cytunaf fod y newyddion o Ynys Môn yn peri gofid. Hon yw'r ardal sydd yn dioddef fwyaf, mae'n debyg, ar hyn o bryd. Dyna pam bod y cydlynu brys sydd yn cael ei roi ar waith ar hyn o bryd yn bwysig. Mae'r Llywodraeth ar hyn o bryd yn ystyried beth a wna o fewn ei phwerau brys, a byddwn yn gallu rhoi gwybod ichi am hynny ar ôl y sesiwn hon. Byddaf yn mynychu'r drafodaeth yn Llundain yfory er mwyn lleisio fy marn a sicrhau yr eir i'r afael ag anghenion Cymru.

O safbwynt y Cynulliad Cenedlaethol, bydd hyn yn dibynnu ar gydweithrediad rhwng y gwahanol gyflenwyr tanwydd, a rhwng ac ar draws yr awdurdodau lleol a sefydliadau eraill. Mae'r cwmnïau bysiau wedi cydweithio'n arbennig o dda. Yr wyf wedi sefydlu canolfan gyfathrebu am ei bod yn bwysig i'r Cynulliad gael sicrwydd bod y trefniadau'n cael eu cydlynu a'u cyflawni'n lleol a bod yr agweddau gweithredol hynny yn cael eu cyflwyno. Dyna pam yr ydym yn cysylltu â'n gilydd yn barhaus. Caf yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bob dwy awr. Byddaf yn ceisio rhoi'r wybodaeth i'r Aelodau mor fuan â phosibl fel y gallwch ymateb i'r sefyllfa yn eich etholaethau. Yr wyf yn siŵr, fel minnau, eich bod am wybod sut y mae'r sefyllfa yn effeithio ar eich etholwyr a sut y gallwch eu helpu.

Nick Bourne: Yr oedd y Ceidwadwyr yng

that it was appropriate to have a full debate on this issue and, accordingly, backed Ieuan Wyn Jones's call for such a debate. It is regrettable that we will not have it. Similarly, I am extremely disappointed by the Liberal Democrats' position. I cannot understand why they oppose a full debate on an issue that is crucial to the whole of Wales. However—

Nghymru o'r farn ei bod yn briodol cynnal dadl lawn ar y mater hwn ac, yn unol â hyn, maent wedi cefnogi galwaf Ieuan Wyn Jones am ddadl o'r fath. Mae'n anffodus na chaiff ei chynnal. Yn yr un modd, yr wyf wedi fy siomi'n fawr iawn gan safbwynt y Democratiaid Rhyddfrydol. Ni allaf ddeall pam eu bod yn gwrthwynebu cynnal dadl lawn ar fater sydd yn hanfodol i Gymru gyfan. Fodd bynnag—

The Presiding Officer: Order. I do not want to celebrate our return by intervening on all party leaders, but this is not a debate on the Liberal Democrats; it is a statement by the Assembly Secretary.

Y Llywydd: Trefn. Nid wyf am ddathlu ein dychweliad drwy dorri ar draws pob un o arweinwyr y pleidiau, ond nid dadl ar y Democratiaid Rhyddfrydol yw hon; datganiad gan yr Ysgrifennydd Cynulliad ydyw.

Michael German: Point of order. Will you permit me the opportunity to reply to what people have said, or do you want me to keep quiet?

Michael German: Pwynt o drefn. A wnewch roi'r cyfle imi ymateb i'r hyn y mae pobl wedi ei ddweud, neu a ydych am imi gadw'n dawel?

Nick Bourne: He wants you to keep quiet.

Nick Bourne: Mae am ichi gadw'n dawel.

The Presiding Officer: Order. I will call the leader of the Welsh Liberal Democrats to ask a question immediately after the Secretary has answered this question.

Y Llywydd: Trefn. Galwaf ar arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghymru i ofyn cwestiwn cyn gynted ag y bydd yr Ysgrifennydd wedi ateb y cwestiwn hwn.

Nick Bourne: Moving swiftly on from the irrelevant—and this is not to decry Sue Essex's statement—we are disappointed that the First Secretary, as the leader of the Government of Wales, did not make this statement, because this issue cuts across all areas of life in Wales. We regret that and that is one reason why we supported the call for a full debate.

Nick Bourne: Gan symud yn gyflym ymlaen o faterion amherthnasol—ac nid difrïo datganiad Sue Essex yr wyf—yr ydym yn siomedig nad y Prif Ysgrifennydd, fel arweinydd Llywodraeth Cymru, a wnaeth y datganiad hwn, gan fod y mater hwn yn torri ar draws pob agwedd ar fywyd yng Nghymru. Yr ydym yn gresynu wrth hynny ac mae hwnnw'n un o'r rhesymau inni gefnogi'r alwad am ddadl lawn.

As this issue has a national dimension in terms of the UK as well as Wales, it would be appropriate for the First Secretary to press Tony Blair for a recall of Parliament. This is sufficiently important for that to happen. I do not know what the administration's position is on that—the Secretary for the Environment, Planning and Transport may need to consult the First Secretary.

Gan fod dimensiwn gwladol i'r mater hwn yn nhermau'r DU yn ogystal â Chymru, byddai'n briodol i'r Prif Ysgrifennydd bwyso ar Tony Blair i alw'r Senedd yn ôl. Mae'r mater hwn yn ddigon pwysig i hynny ddigwydd. Ni wn beth yw safbwynt y weinyddiaeth yn hyn o beth—efallai y bydd angen i Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ymgynghori â'r Prif Ysgrifennydd.

Like you, I pay tribute to the emergency services, which are struggling to cope in difficult circumstances. However, it is not

Fel chithau, talaf deyrnged i'r gwasanaethau brys, sydd yn cael anhawster wrth geisio ymdopi o dan amgylchiadau anodd. Fodd

only the ambulance service that is experiencing difficulties. General practitioners who have to make visits in rural areas are running out of petrol. That also applies to urban areas. GPs would have to be considered in any emergency provision that was made, as would the fire service and the police service. The heating of homes, and special services for the aged, as you have indicated, would also have to be considered. School bus services will end in all counties in my area—Ceredigion, Powys, Pembrokeshire and Carmarthenshire—by the end of the week unless measures are taken. That is also a concern. That is why I said that it cuts across all areas of the National Assembly's responsibilities. Can you comment on that?

bynnag, nid y gwasanaeth ambiwlans yn unig sydd yn profi anawsterau. Mae meddygon teulu y mae'n rhaid iddynt ymweld â chleifion mewn ardaloedd gwledig yn rhedeg allan o betrol. Mae hynny hefyd yn berthnasol i ardaloedd trefol. Byddai'n rhaid ystyried meddygon teulu fel rhan o unrhyw ddarpariaeth frys a wnaethpwyd, yn ogystal â'r gwasanaeth tân a'r heddlu. Fel y nodwyd gennych, byddai'n rhaid ystyried gwresogi cartrefi a gwasanaethau arbennig i'r henoed hefyd. Bydd y gwasanaethau bysiau ysgol yn dod i ben ymhob sir yn fy ardal—sef Ceredigion, Powys, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin—erbyn diwedd yr wythnos oni chaiff camau eu cymryd. Mae hynny'n achosi pryder hefyd. Dyna pam y dywedais ei fod yn torri ar draws pob maes o gyfrifoldebau'r Cynulliad Cenedlaethol. A wnewch roi sylwadau ar hynny?

3:10 p.m.

I know from constituents that supplies in supermarkets are running short. Already we are having reports of bread and milk rationing. This is sufficiently serious that the First Secretary should be at the lectern addressing these points. That is how serious it is. Could I— [*Interruption.*] I am sure that the Liberal Democrats will have their chance in a moment unless they just want to be associated with all that was said by the administration. Like you, I support the right of peaceful protest while it remains such. The First Secretary said early on that—

Gwn drwy'r etholwyr fod cyflenwadau yn yr archfarchnadoedd yn mynd yn brin. Eisoes yr ydym yn clywed bod bara a llaeth yn cael eu dogni. Mae hyn yn ddigon difrifol i'r Prif Ygrifennydd fod wrth y darllenfwrdd yn ymdrin â'r pwyntiau hyn. Dyna pa mor ddifrifol mae'r sefyllfa. A gaf—[*Torri ar draws.*] Yr wyf yn siŵr y bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn cael eu cyfle mewn eiliad oni fyddant ond am ategu'r cyfan a ddywedwyd gan y weinyddiaeth. Fel chithau, cefnogaf yr hawl i brotestio'n heddychlon tra pery felly. Dywedodd y Prif Ysgrifennydd yn gynharach fod—

Kirsty Williams: The Tories were not there for the miners.

Kirsty Williams: Nid oedd y Torïaid yn cefnogi'r glowyr.

Nick Bourne: We did stress the words: 'peaceful protest'. However, I am not sure whether Sue Essex has heard that Jeff Jones, the Labour leader of Bridgend County Borough Council, made outrageous comments on the radio this morning comparing the action of people picketing peacefully with that of those who elected Hitler to power. I hope that Sue will slap him down in the way that that comment deserved. I found it outrageous and obscene. We expect a full apology from him to the many people throughout Wales who remember those in this country who fought against Hitler, many

Nick Bourne: Pwysleisiwyd yr ymadrodd: 'protestio'n heddychlon' gennym. Fodd bynnag, nid wyf yn siŵr a yw Sue Essex wedi clywed bod Jeff Jones, arweinydd Llafur Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, wedi gwneud sylwadau gwarthus ar y radio y bore yma gan gymharu'r camau a gymerir gan bobl sydd yn picedu'n heddychlon â'r camau a gymerwyd gan y bobl hynny a etholodd Hitler yn arweinydd. Gobeithiaf y bydd Sue yn rhoi cerydd iddo fel y mae'r sylw hwnnw yn ei haeddu. Yr oedd yn warth ac yn anllad. Disgwyliwn ymddiheuriad llawn ganddo i'r llu o bobl

of whom are now disadvantaged by this Government's policies on fuel prices.

ledled Cymru sydd yn cofio am y bobl hynny yn y wlad hon a fu'n ymladd yn erbyn Hitler, llawer ohonynt bellach dan anfantais oherwydd polisïau'r Llywodraeth hon ar bris tanwydd.

The most important thing at present is not to look at the duty issue, although there is a strong case for doing that urgently. You indicated in your statement, Sue, that the integrated transport policy is not relevant for today. What we need is immediate, urgent action to tackle the growing crisis in Wales. Talk of an integrated transport policy misses the point. We need to know what you will do to protect emergency supplies and, more importantly, what the First Secretary will do. He should be the person answering questions today. I hope, in particular, that you will support the recalling of the UK Parliament so that we can examine this situation in the UK dimension.

Yr hyn sydd bwysicaf ar hyn o bryd yw peidio ag ystyried mater y dreth, er bod dadl gref dros wneud hynny fel mater o frys. Dywedasoch yn eich datganiad, Sue nad yw'r polisi trafnidiaeth integredig yn berthnasol ar gyfer heddiw. Yr hyn sydd ei eisiau arnom yw camau brys, ar unwaith, i fynd i'r afael â'r argyfwng cynyddol yng Nghymru. Mae sôn am bolisi trafnidiaeth integredig yn amherthnasol. Mae angen inni wybod beth fyddwch chi'n ei wneud i ddiogelu cyflenwadau brys ac, yn bwysicaf oll, beth bydd y Prif Ysgrifennydd yn ei wneud. Ef a ddylai fod yn ateb y cwestiynau heddiw. Gobeithiaf, yn benodol, y byddwch yn cefnogi'r cais i alw Senedd y DU yn ôl fel y gallwn ystyried y sefyllfa hon ar lefel y DU.

Sue Essex: I will try to take those points in order. I make it clear—I have said this twice and I will say it again—that I look forward to a full debate on this, but timing is important. What the public want to know is that people are paying attention to this crisis and reacting to it, especially in relation to the NHS. It is important that we do not spend our time slagging off one another if we want credibility as an Assembly. We must explain what we are doing about this crisis and link in with the Government and our other partners and colleagues who are dealing with this. It is our responsibility and I take that very seriously. I am in constant dialogue with Rhodri Morgan as First Secretary, with Jane Hutt, Rosemary Butler and others, as well as with Paul Murphy and David Hanson in London. This is very much a team effort. We are part of the Labour team that is working together to try to cover all angles. That is important to remember.

Sue Essex: Gwnaf ymgais i drafod y pwyntiau hynny yn eu trefn. Fe'i gwnaf yn eglur—yr wyf wedi dweud hyn ddwywaith ac fe'i dywedaf eto—fy mod yn edrych ymlaen at ddadl lawn ar hyn, ond mae'r amseiad yn bwysig. Yr hyn y mae'r cyhoedd am ei wybod yw bod pobl yn rhoi sylw i'r argyfwng hwn ac yn ymateb iddo, yn enwedig mewn perthynas â'r NHS. Mae'n bwysig nad ydym yn treulio ein hamser yn dilorni ein gilydd os ydym eisiau hygrededd fel Cynulliad. Rhaid inni egluro'r hyn yr ydym yn ei wneud ynglŷn â'r argyfwng hwn a chysylltu â'r Llywodraeth a'n partneriaid a'n cyd-Aelodau eraill sydd yn ymdrin ag ef. Ein cyfrifoldeb ni ydyw ac yr wyf yn cymryd hynny o ddifrif. Yr wyf mewn trafodaethau parhaus gyda Rhodri Morgan fel y Prif Ysgrifennydd, gyda Jane Hutt, Rosemary Butler a phobl eraill yn ogystal â Paul Murphy a David Hanson yn Llundain. Gwaith tîm ydyw. Yr ydym yn rhan o dîm Llafur sydd yn cydweithio i geisio ymdrin â phob agwedd. Mae'n bwysig cofio hynny.

You raised the important issue of GPs and other services and I agree with you on that. This is a question of how we define emergency fuel. Protesters have made the point that they are letting through emergency fuels. However, many people fall within the

Codasoch fater pwysig ynglŷn â meddygon teulu a gwasanaethau eraill ac yr wyf yn cyd-fynd â chi yn hynny o beth. Y cwestiwn yma yw sut yr ydym yn diffinio tanwydd brys. Mae'r protestwyr wedi nodi eu bod yn caniatáu tanwyddau brys i gael ei symud.

emergency category. This is not only about fuel for ambulances, for example. For hospitals to run, hospital staff, from doctors to nurses to ancillary staff and cleaners, have to be there. There is also the issue about trying to return people to their homes and ensuring that visitors and carers come in. It is an extremely complex situation. As you rightly say, it is difficult to define what emergency categories are because you could argue that in such circumstances, a whole tranche of workers in the population qualify. We will be working to ensure that there are priorities.

Fodd bynnag, mae llawer o bobl yn y categori brys. Nid tanwydd ar gyfer ambiwlansys yn unig yw hyn, er enghraifft. Er mwyn i'r ysbytai weithredu, rhaid i staff ysbytai, o'r meddygon i'r nyrsys i'r staff cynorthwyol a'r glanhawyr, fod yno. Mae mater hefyd ynglŷn â cheisio sicrhau bod pobl yn dychwelyd i'w cartrefi a bod ymwelwyr a gofalwyr yn dod i mewn. Mae'r sefyllfa'n un hynod o gymhleth. Fel y dywedwch yn gywir, mae'n anodd diffino'r categorïau brys gan y gallwch ddadlau bod llwyth o weithwyr yn y boblogaeth yn gymwys o dan amgylchiadau o'r fath. Byddwn yn gwneud ymdrech i sicrhau bod blaenoriaethau.

In terms of responsibility, I have been on many demonstrations and peaceful protests in my time. I say this quite honestly. I strongly defend the right to protest. However, I say sincerely to those people who are impeding the flow of fuel, that although they see it as defending their rights—and I understand that; the defending of rights is important to everyone—the situation is very serious. I ask you to acknowledge that you have made your point and have made it strongly. Please take notice of the dangerous situation we are in and come away from those depots so that we can restore some degree of normality, because even if the blockade finishes now, it will take several days to return to normality.

O ran cyfrifoldebau, yr wyf wedi cymryd rhan mewn nifer o ardystiadau a phrotestiadau heddychlon dros y blynyddoedd. Dywedaf hyn yn gwbl ddiffuant. Yr wyf yn gryf o blaid yr hawl i brotestio. Fodd bynnag, dywedaf, a hynny'n ddidwyll, wrth y bobl hynny sydd yn atal llif tanwydd er y credant eu bod yn amddiffyn eu hawliau—a deallaf hynny; mae amddiffyn hawliau yn bwysig i bawb—mae'r sefyllfa hon yn un ddifrifol iawn. Gofynnaf ichi gydnabod eich bod wedi cyflawni'ch nod a hynny'n gadarn. A wnewch ystyried y sefyllfa beryglus sydd gennym a symud o'r depos hynny fel y gallwn ddychwelyd at gyflwr lled normal, oherwydd bydd yn cymryd sawl diwrnod i ddychwelyd at gyflwr o normalrwydd hyd yn oed os bydd y blocâd yn cael ei godi yn awr.

I guarantee that I will listen. As I said, I intend to establish a small group of people who can consider the impact of fuel prices and how it is acting differentially. I understand. There are different retail prices at petrol pumps across Wales. A range of impacts are affecting communities across Wales. Let us try to look at that. Let us assess that by talking to businesses and others, then we can argue a rational case for whatever changes the Government might be considering. However, let us not have a knee-jerk reaction. Let us not carry on in this way. As sure as eggs are eggs, there will be a sad ending to this, which neither I nor anybody here wants to see. I think that I can include every Assembly Member in that.

Yr wyf yn addo y byddaf yn gwrando. Fel y dywedais, fy mwriad yw sefydlu grŵp bach o bobl a all ystyried effaith prisiau tanwydd a sut y mae'n gwahanredu. Yr wyf yn deall. Mae'r prisiau manwerthu yn y gorsafoedd petrol yn amrywio ledled Cymru. Mae nifer o ffactorau'n effeithio ar gymunedau ledled Cymru. Gadewch inni geisio ystyried hynny. Gadewch inni asesu hynny drwy siarad â busnesau a phobl eraill, yna gallwn roi dadl synhwyrol gerbron am ba newidiadau bynnag y byddai'r Llywodraeth o bosibl yn eu hystyried. Fodd bynnag, gadewch inni gymryd pwyll. Rhaid inni beidio â mynd ymlaen fel hyn. Cyn sicred â dim, bydd diweddglo truenus i hyn, na fyddwn i na neb yma am ei weld. Credaf y gallaf gynnwys pob Aelod o'r Cynulliad yn hyn o beth.

Michael German: Am I allowed to respond to the points made by Members?

Michael German: A gaf ymateb i'r pwyntiau a wnaethpwyd gan yr Aelodau?

The Presiding Officer: No. I am sure that your knowledge of procedure is such that you will find means of responding, if not today, at some other time. I emphasise that this is a statement and I do not want statements turning into debates. There was an opportunity to have a debate. The Assembly voted against that opportunity and yet we are now having a debate.

Y Llywydd: Na chewch. Yr wyf yn siŵr eich bod yn hyddysg ddigon am faterion trefniannol fel y byddwch yn dod o hyd i ffordd o ymateb, ryw bryd neu'i gilydd, os nad heddiw. Pwysleisiaf mai datganiad yw hwn ac nid wyf am i ddatganiadau droi'n ddadl. Yr oedd cyfle i gynnal dadl. Pleidleisiodd y Cynulliad yn erbyn y cyfle hwnnw ac eto yr ydym yn awr yn cynnal dadl.

Michael German: With due respect, you have allowed people to make comments about myself and my position and the position of my party, to which I must respond.

Michael German: Gyda phob parch, yr ydych wedi caniatáu i bobl wneud sylwadau amdanaf fi a'm safle a safle fy mhlaid, a rhaid imi ymateb iddynt.

The Presiding Officer: Order. I sought to prevent Members from making such comments, and I called them to order twice when they did that.

Y Llywydd: Trefn. Gwneuthum ymgais i atal yr Aelodau rhag gwneud sylwadau o'r fath, a gelwais hwy i drefn ar ddau achlysur pan wnaethant hynny.

Michael German: I welcome the statement because it lays out all the issues that concern this Assembly in relation to the crisis and how we manage to deal with the problems of the health service and other services in Wales for which we are responsible. Do you agree and are you prepared to make further statements? During constituency weeks, will you keep us informed daily, if necessary, on how the situation is progressing? There is much concern among people who use public services in Wales and they will value that information.

Michael German: Croesawaf y datganiad am ei fod yn nodi'r holl faterion sydd yn achosi pryder i'r Cynulliad hwn o ran yr argyfwng a sut yr ydym yn mynd ati i ymdrin â phroblemau'r gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau eraill yng Nghymru yr ydym yn gyfrifol amdanynt. A gytunwch ac a ydych yn barod i wneud datganiadau pellach? Yn ystod yr wythnosau etholaeth, a fyddwch yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni bob dydd, os bydd angen, ar sut y mae'r sefyllfa'n mynd rhagddi? Mae pobl sydd yn defnyddio'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn pryderu'n fawr iawn a byddant yn gwerthfawrogi'r wybodaeth honno.

Do you also agree that simplistic fiscal measures are not always the best way of reacting to major issues and problems? Do you agree that there is an issue concerning the increase in fuel prices, but that there are more appropriate ways of using fiscal policy to ease the problem of fuel prices and the problems of those who have to use fuel? In that context, do you agree that lowering vehicle excise duty, which would have an effect on those who have to use vehicles, would be a much more appropriate way of dealing with this crisis? Do you also agree that we should cap and peg the amount of

A gytunwch hefyd nad cyflwyno mesurau ariannol gor-syml yw'r ffordd orau bob amser o ymateb i faterion o bwys a phroblemau mawr? A gytunwch fod mater ynglŷn â'r cynnydd ym mhrisiau tanwydd, ond bod dulliau mwy priodol o ddefnyddio polisi ariannol i leddfu problem y prisiau tanwydd a phroblemau'r rhai sydd yn gorfod defnyddio tanwydd? Yn y cyd-destun hwnnw, a gytunwch y byddai gostwng treth ar gerbydau, a fyddai'n effeithio ar y rheini sydd yn gorfod defnyddio cerbydau, yn ffordd llawer mwy priodol o ymdrin â'r argyfwng hwn? A gytunwch hefyd y dylem

fuel duty that is being raised because of the increased fuel prices and convert it into a means of dealing with those who are in most difficulty with these matters? There are other ways of dealing with it fiscally which would not require such simplistic knee-jerk action.

gapio swm y doll ar danwydd sydd yn cael ei chodi oherwydd bod prisiau tanwydd yn cynyddu a'i droi'n fodd i ymdrin â'r rheini sydd yn cael yr anawsterau mwyaf o ran y materion hyn? Mae dulliau ariannol eraill o ymdrin ag ef na fyddai'n golygu camau byrbwyll, gor-syml.

Do you also agree that, while we recognise that something needs to be done about fuel, the people of Wales want to see a responsible National Assembly dealing with the issues that it can affect and making suggestions about the people of Wales's undoubted concerns about fuel matters? That requires a different approach to economics. We have had a substantial statement from you this afternoon and our job is about averting the crisis. Perhaps we could reflect on the matter. We need to ensure that we protect the people whose services are within our competence and responsibility. While we may seek an early solution—and that is not in our hands but in the hands of central Government to make the changes that are possible—I would be interested to learn whether you think that the simplistic approach to fiscal economics that we have heard this afternoon is the appropriate approach. Perhaps we could arrange for an appropriate debate at some appropriate time to discuss the fiscal measures. We would then be able to expose as simplistic the argument that simply lowering fuel duty would have the effect on the rural economy of Wales that the people of Wales want. If that simplistic, knee-jerk reaction were followed, the Assembly would be called into disrepute in the coming months.

Er yn cydnabod bod angen gwneud rhywbeth ynglŷn â mater tanwydd, a gytunwch hefyd bod pobl Cymru am weld y Cynulliad Cenedlaethol yn ymdrin â materion y gall effeithio arnynt mewn modd cyfrifol a gwneud awgrymiadau i gwrdd â phryderon gwirioneddol pobl Cymru ynglŷn â materion sydd yn ymwneud â thanwydd? Mae hynny'n gofyn am ymagwedd wahanol tuag at economeg. Cawsom ddatganiad sylweddol gennych y prynhawn yma a'n tasg yw atal yr argyfwng. Efallai y gallwn ystyried y mater. Mae angen inni sicrhau ein bod yn diogelu'r bobl yr ydym yn gyfrifol am eu gwasanaethau. Er y byddwn am geisio ateb cynnar o bosibl—ond yn nwylo Llywodraeth ganolog ac nid yn ein dwylo ni mae'r cyfrifoldeb dros wneud y newidiadau—byddai'n dda gennyf glywed a ydych o'r farn mai ymagwedd briodol yw'r ymagwedd or-syml tuag at economeg gyllidebol a glywsom y prynhawn yma. Efallai y gallem drefnu dadl briodol ar adeg briodol i drafod y mesurau cyllidebol. Yna byddem yn gallu dangos bod y ddadl y gellid effeithio ar yr economi wledig yng Nghymru yn y modd y dymuna pobl Cymru dim ond drwy ostwng y doll ar danwydd yn un or-syml. Pe cymerid y camau byrbwyll gor-syml hynny, byddai'n dwyn anfri ar y Cynulliad yn ystod y misoedd i ddod.

3:20 p.m.

Sue Essex: With regard to statements, I will do what Members want to keep them informed. I hope that this dispute will not continue into the constituency weeks and that it will be resolved in the next few days. However, I will keep Members informed daily, or whenever there is a major piece of news. In terms of fuel pricing and concerns about that, we know that the increase over the last 18 months has hurt many people, particularly those on fixed incomes and those in rural areas who face higher prices anyway. We could consider a variety of ways of

Sue Essex: O ran y datganiadau, yr wyf yn fodlon gwneud yr hyn y dymuna'r Aelodau er mwyn cael yr wybodaeth ddiweddaraf. Gobeithiaf na fydd yr anghydfod hwn yn parhau yn ystod yr wythnosau etholaeth ac y caiff ei ddatrys yn yr ychydig ddyddiau nesaf. Fodd bynnag, byddaf yn rhoi gwybodaeth lawn i'r Aelodau bob dydd, neu pryd bynnag y bydd newydd o bwys. O ran pris tanwydd a'r pryderon ynglŷn â hynny, gwyddom fod y cynnydd yn ystod y 18 mis diwethaf wedi amharu ar lawer o bobl, yn enwedig y rheini ar incwm sefydlog a'r rheini yn yr ardaloedd

tackling that, and the sub-group could also consider solutions. A knee-jerk reaction of having prices and duty fluctuating up and down is not a sensible way forward, as you say. That is not a sensible way to deal with tax. Gordon Brown will make the decisions on taxation. However, it is right that, as an Assembly, we ensure that Gordon Brown knows our views. It is important that the Assembly's prime motivation is to protect the public and to ensure as far as possible that business continues to operate, that people can carry out their jobs and that essential public services are maintained. We need to concentrate our efforts on that.

gwledig sydd yn wynebu prisiau uwch beth bynnag. Gallem ystyried amryw o ffyrdd o fynd i'r afael â hynny, a gallai'r is-grŵp hefyd ystyried atebion. Nid yw camau byrbwyll megis cynyddu a gostwng prisiau byth a beunydd yn ffordd synhwyrol ymlaen, fel y dywedasach. Nid yw honno'n ffordd synhwyrol o ymdrin â threth. Gordon Brown fydd yn gwneud y penderfyniadau ar drethiant. Fodd bynng, dylem ni, fel Cynulliad, sicrhau bod Gordon Brown yn ymwybodol o'n safbwyntiau. Mae'n bwysig mai prif gymhelliad y Cynulliad yw diogelu'r cyhoedd a sicrhau cyn gynted ag y bo'n bosibl fod busnesau'n parhau i weithredu, bod pobl yn cyflawni eu swyddi a bod y gwasanaethau cyhoeddus hanfodol yn cael eu cynnal. Mae angen inni ganolbwyntio ein hymdrechion ar hynny.

The Presiding Officer: Before I call any more Members, I point out that 10 Members so far have indicated to me that they would like to ask a question on this statement. I therefore ask Members to be concise. We have already allowed a substantial amount of time for the main party spokespeople and the Assembly Secretary to speak on this.

Y Llywydd: Cyn imi alw ar ragor o'r Aelodau, a gaf nodi bod 10 o'r Aelodau mor belled wedi'm hysbysu eu bod am ofyn cwestiwn ar y datganiad hwn. Felly gofynnaf i'r Aelodau fod yn gryno. Yr ydym eisoes wedi rhoi cryn dipyn o amser i brif lefarwyr y pleidiau a'r Ysgrifennydd Cynulliad siarad am hyn.

Alun Pugh: Sue, do you accept that this dispute is not about a particularly noble purpose? It is all about pressure to extract money being exerted by three groups that are blocking fuel supplies. It will inevitably end in people in Wales dying. The first group is the road haulage lobby, which has a history of driving through any picketline if the price is right. The second group is farmers. We all know about the problems of the farming industry, but it is worth pointing out that farmers, uniquely, drive vehicles that are fuelled on red diesel and thus pay 3p a litre in tax, while everybody else in Wales pays 48p a litre. The third group is Tory Assembly Members, such as Peter Rogers, who do not care that schools are being disrupted in my constituency, that operations will be disrupted and cancelled in our hospitals from tomorrow. Are you surprised that those calling for a cut in fuel duty are the same people who call for an increase in public expenditure week after week in the Assembly? I do not doubt their sincerity but I worry about their arithmetic. Finally, would you join in inviting the groups that are

Alun Pugh: Sue, a dderbyniwch nad nod tra dyrchafedig sydd wrth wraidd yr anghydfod hwn? Mae'n ymwneud â phwysau i gael arian gan y tri grŵp sydd yn rhwystro cyflenwadau tanwydd. Yn anochel, bydd yn arwain at bobl yng Nghymru yn marw. Y grŵp cyntaf yw lobi'r cludwyr nwyddau ar y ffordd, sydd â hanes o yrru drwy unrhyw linell bicedu am y pris cywir. Yr ail grŵp yw'r ffermwyr. Gwyddom oll am broblemau'r diwydiant ffermio, ond mae'n werth nodi bod y ffermwyr, a hwy'n unig, yn gyrru cerbydau sydd yn defnyddio disel coch ac felly'n talu treth o 3c y litr arno, tra bod pawb arall yng Nghymru yn talu 48c y litr. Y trydydd grŵp yw Aelodau Torïaidd o'r Cynulliad, fel Peter Rogers, nad ydynt yn poeni dim am y ffaith yr amherir ar ysgolion yn fy etholaeth, yr amherir ar lawdriniaethau ac y cânt eu canslo yn ein hysbytai o yfory ymlaen. Onid yw'n fater o syndod i chi mai'r rheini sydd yn galw am gynnydd mewn gwariant cyhoeddus wythnos ar ôl wythnos yn y Cynulliad yw'r un bobl sydd yn galw am ostwng y doll ar danwydd? Nid wyf yn amau eu diffuantrwydd ond yr wyf yn

blockading the depots to get their heavy boots off the windpipe of Welsh society?

pryderu ynglŷn â'u rhifyddeg. Yn olaf, a fyddech cystal ag ymuno i wahodd y grwpiau sydd yn rhoi blocâd ar y depos i symud eu hesgidiau trymion oddi ar gorn gwddf pobl Cymru?

Sue Essex: The last point, which you made in more flowery language than I did, is the important one. It is important to remember that not every haulage association is part of the blockade. The Freight Transport Association has stated publicly that it does not support the blockade. We must realise that there are responsible and sensible voices out there. Although they may be extremely concerned about petrol prices, they are nevertheless against the blockade, because they understand its possible implications. I want to make a further point. It is quite hard for politicians to say this, because we have all raised our voice loudly against certain issues and have been on demonstrations. However, we all have a responsibility, and I mean all of us. Although I am the one standing in front of you, the people of Wales consider the Assembly as a whole to be responsible for how it implements its policies and how statements are made. I hope that we are united in condemning the current situation, however strongly people feel. This must stop. I hope that we can unite to say that this must stop for the public's sake.

Sue Essex: Mae'r pwynt olaf, a fynegwyd gennych yn llawer mwy blodeuog nag y gwneuthum i yn un pwysig. Mae'n bwysig cofio nad yw pob cymdeithas cludiant newyddau yn rhan o'r blocâd. Mae'r Gymdeithas Trafnidiaeth Cludo Nwyddau wedi cyhoeddi nad yw'n cefnogi'r blocâd. Rhaid inni sylweddoli bod lleisiau cyfrifol a synhwyrol yn llefaru. Er eu bod yn pryderu'n ddybryd ynglŷn â phrisiau petrol, serch hynny maent yn gwrthwynebu'r blocâd, am eu bod yn deall y goblygiadau posibl iddo. Hoffwn wneud pwynt arall. Mae'n eithaf anodd i wleidyddion ddweud hyn, am ein bod oll wedi codi ein llais yn uchel yn erbyn materion penodol ac wedi bod yn rhan o brostestiadau. Fodd bynnag, mae cyfrifoldeb arnom oll, ac yr wyf yn cyfeirio at bob un ohonom. Er mai fi sydd yn sefyll ger eich bron, mae pobl Cymru o'r farn bod y Cynulliad cyfan yn gyfrifol am y modd y mae'n gweithredu ei bolisïau a sut y gwneir datganiadau. Gobeithiaf ein bod yn gytûn wrth gondemnio'r sefyllfa bresennol, pa mor gryf bynnag y mae pobl yn teimlo yn ei chylch. Rhaid i hyn ddod i ben. Gobeithiaf y gallwn uno i ddweud bod yn rhaid iddi ddod i ben er lles y cyhoedd.

Peter Rogers *rose—*

Peter Rogers *a gododd—*

The Presiding Officer: I will call you, Peter. If you wish to raise a point of order I will take it at the end of questions, but I will call you.

Y Llywydd: Galwaf arnoch, Peter. Os hoffech godi pwynt o drefn derbyniaf ef ar ddiwedd y cwestiynau, ond gwnaf alw arnoch.

Helen Mary Jones: Does the Assembly Secretary agree that the current situation highlights the need for much more long-term, effective planning to deal with fuel crises when they arise? Will she undertake that the Government of Wales will co-operate with government at all levels, including local government, to ensure that, if we face a similar situation again, we are better equipped to cope with it? Does she further agree that this crisis is proof positive—as if more were needed—of the long-term dangers of our society's overdependence on fossil

Helen Mary Jones: A yw'r Ysgrifennydd Cynulliad yn cytuno bod y sefyllfa bresennol yn nodi bod angen llawer mwy o gynllunio effeithiol tymor hir i ymdrin ag argyfyngau tanwydd pan fyddant yn digwydd? A fydd yn rhoi ymrwymiad y bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithredu â'r llywodraeth ar bob lefel, gan gynnwys llywodraeth leol, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu ymdopi'n well os byddwn mewn sefyllfa debyg yn y dyfodol? Yn ogystal, a yw'n cytuno bod yr argyfwng hwn yn arwydd sicr—er nad oes angen rhagor—o'r peryglon tymor hir o or-

fuels, and that we need more investment at all levels, in Europe, the UK and in Wales, in developing renewable energy resources. You have already made the point about the transport strategy, but this is not about just that, but about renewable energy overall.

ddibyniaeth ein cymdeithas ar danwyddau ffosil, a bod angen inni fuddsoddi mwy ar bob lefel, yn Ewrop, yn y DU ac yng Nghymru, wrth ddatblygu adnoddau ynni adnewyddol. Yr ydych eisoes wedi cyfeirio at y strategaeth drafnidiaeth, ond nid yw hyn yn ymwneud â hynny yn unig, ond ag ynni adnewyddol yn gyffredinol.

Finally, for clarification, because—although I am grateful for Sue's statement and for what we have heard so far—I am still not clear on one point: is the Government of Wales in direct negotiation with the protesters to enable fuel to be made available for vital services? We know, and the protesters have said so again and again, that they want to make that fuel available. Are you in direct negotiation with them, or would you like to see something serious go wrong, so that the current public support for the protesters will disappear?

Yn olaf, er mwyn eglurdeb, gan nad wyf—er fy mod yn ddiolchgar i Sue am ei datganiad ac am yr hyn yr ydym wedi ei glywed hyd yn hyn—yn sicr ar un pwynt: a yw Llywodraeth Cymru mewn negodiadau uniongyrchol gyda'r protestwyr er mwyn sicrhau bod tanwydd ar gael i'r gwasanaethau hanfodol? Gwyddom, ac mae'r protestwyr wedi dweud hyn dro ar ôl tro, eu bod am i'r tanwydd hwnnw fod ar gael. A ydych yn negodi'n uniongyrchol gyda hwy, neu a hoffech weld rhywbeth o ddifrif yn mynd o'i le, fel y bydd y gefnogaeth gyhoeddus a roddir i'r protestwyr ar hyn o bryd yn diflannu?

Sue Essex: Helen, I agree with you on so much that I find that last remark very offensive. I cannot believe that anyone could say that. Nothing could be further from what I want. I have made that clear and I hope that you will retract that remark because it is not in the spirit of how you normally operate. I am sure that, in a quiet moment, you will reflect and wish that you had not said it. I am extremely disappointed that you could have said that here.

Sue Essex: Helen, gan fy mod yn cytuno â chi ar gymaint o bwyntiau ystyriaf fod eich sylw olaf yn un sarhaus iawn. Ni allaf gredu y gall unrhyw un ddweud hynny. Dyma'r peth olaf yr hoffwn ei weld. Yr wyf wedi mynegi hynny'n eglur a gobeithiaf y tynnwch y sylw hwnnw yn ôl am nad yw'n gydnaws â'r modd yr ydych yn ymddwyn fel arfer. Yr wyf yn siŵr y byddwch wrth ei ystyried yn dawel o'r farn na ddylech fod wedi dweud hynny. Yr wyf yn hynod siomedig ichi allu dweud y fath beth yma.

In terms of the protesters, it is the police's responsibility to operate on the ground. We are not in negotiation. It is important that the police are present; they must ensure that public order is maintained. The police understand the seriousness of the situation and we will see what the outcome of their meeting is today.

O ran y protestwyr, cyfrifoldeb yr heddlu ydyw i weithredu'n ymarferol. Nid ydym mewn negodiadau. Mae'n bwysig bod yr heddlu'n bresennol; rhaid iddynt gynnal y drefn gyhoeddus. Mae'r heddlu'n deall pa mor ddifrifol yw'r sefyllfa a chawn weld beth yw canlyniad eu cyfarfod heddiw.

To respond to the sensible things that you said: yes, I do agree with you about the importance of long-term effective planning. We are coping; there is no question that the Government and the various organisations are not coping with this difficult situation. People are coping. However, and I stress this point, in the long term we all want to move to a more sustainable transport system, which

Gan ymateb i'r pethau synhwyrol a ddywedasoch: ydwyf, yr wyf yn cytuno â chi ynglŷn â phwysigrwydd cynllunio tymor hir effeithiol. Yr ydym yn ymdopi; nid oes unrhyw amheuaeth nad yw'r Llywodraeth a'r sefydliadau amrywiol yn ymdopi â'r sefyllfa anodd hon. Mae pobl yn ymdopi. Fodd bynnag, a phwysleisiaf y pwynt hwn, yn y tymor hir yr ydym oll am symud at system

makes better use of energy. Petrol is a fossil fuel and God will not make more of it; once it has gone, it has gone.

drafnidiaeth sydd yn fwy cynhaliol, sydd yn defnyddio ynni'n well. Tanwydd ffosil yw petrol a ni fydd Duw yn gwneud rhagor ohono; unwaith y bydd ar ben, bydd ar ben.

We must realise, given how the situation is biting now, that people cannot change their habits overnight. They cannot suddenly change where they live, their childcare arrangements, or their general practitioner. That is the difficulty and that is why my sympathy is with the public at the moment. People are responding, but their lifestyles are dependent upon fuel being available. We say, rightly, that we must reduce that dependence in the long-term and provide people with other choices. That requires financing and funding. In fairness to the public at the moment, and the people to whom I have spoken, they are doing their best to accommodate the situation, and to make other arrangements. However, many of them have very restricted choices. That is why we must respond to this situation.

Mae'n rhaid inni sylweddoli, gan gofio pa mor ddyrys yw'r sefyllfa bellach, na all pobl newid eu harferion dros nos. Ni allant newid yn sydyn lle maent yn byw, eu trefniadau gofal plant, eu meddyg teulu. Dyna'r anhawster a dyna pam fy mod yn cydymdeimlo â'r cyhoedd ar hyn o bryd. Mae pobl yn ymateb, ond mae eu ffordd o fyw yn dibynnu ar argaeledd tanwydd. Dywedwn, a hynny'n gwbl gyfiawn, fod yn rhaid inni leihau'r ddibyniaeth honno yn y tymor hir a rhoi dewisiadau eraill i bobl. Mae hynny'n gofyn am arian a chyllid. Chwarae teg i'r cyhoedd ar hyn o bryd, ac i'r bobl yr wyf wedi siarad â hwy, maent yn gwneud eu gorau glas i ymgodymu â'r sefyllfa, a gwneud trefniadau eraill. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddewis sydd gan lawer ohonynt. Dyna pam bod yn rhaid inni ymateb i'r sefyllfa hon.

3:30 p.m.

Peter Rogers: I am disturbed at how Alun Pugh spoke about me. If you look at the press reports in the papers recently, you will realise that many of them are from two-and-a-half years ago. I was not involved in many of those things. I have been at the picket lines; I have listened for three weeks to many constituents' problems. The only way in which I could support those people was to go to the picket lines.

Peter Rogers: Yr wyf yn poeni'n fawr am y ffordd y siaradodd Alun Pugh amdanaf. Os edrychwch ar adroddiadau'r wasg yn y papurau yn ddiweddar, byddwch yn sylweddoli i lawer ohonynt gael eu cyflwyno dwy flynedd a hanner yn ôl. Nid oeddwn wedi cymryd rhan mewn llawer o'r pethau hynny. Yr wyf wedi bod ar linellau'r picedwyr; yr wyf wedi gwrando ar broblemau llawer o'm hetholwyr am dair wythnos. Yr unig ffordd y gallwn gefnogi'r bobl hynny oedd mynd i linellau'r picedwyr.

I ask Sue, in what she says today, to be careful in the statements that she makes. Yours is a delicate situation. I appreciate the experience that I had when I stayed with the protesters on Sunday evening. I understand the feelings of the people of Wales—a large proportion of people from many different walks of life. We are in a crisis.

Gofynnaf i Sue, o ran yr hyn a ddywed heddiw, i fod yn ofalus wrth wneud ei datganiadau. Mae eich sefyllfa yn fregus. Yr wyf yn gwerthfawrogi'r profiad a gefais pan arhosais gyda'r protestwyr nos Sul. Yr wyf yn deall teimladau pobl Cymru— cyfran fawr o bobl o wahanol gefndiroedd. Yr ydym yn wynebu argyfwng.

I am disappointed that nobody supported Ieuan Wyn in his call for a full debate here today so that we know exactly what the problems are. There must be action. A press release was issued yesterday about the level

Yr wyf yn siomedig na chefnogwyd Ieuan Wyn pan alwodd am ddadl lawn yma heddiw er mwyn inni wybod yn union beth yw'r problemau. Rhaid gweithredu. Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg heddiw ynglŷn â lefel

of fuel prices. You must admit that, since your Government came into power, the price of fuel has gone up from 59p to 85p, and three quarters of that is in tax. That is the real problem. The message that the Assembly must convey is that the Parliament must be reconvened in London. We face one of the biggest crises that we have faced and we must ensure that everybody understands exactly what is happening. It will not last much longer, because this country will come down in three or four days, unless action is taken which will allow the oil to be released into this country. Please be very careful.

prisiau tanwydd. Rhaid i chi gyfaddef, ers i'ch Llywodraeth ddod i rym, fod pris tanwydd wedi codi o 59c i 85c, ac mae tri chwarter hynny yn dreth. Dyna'r broblem wirioneddol. Y neges y mae'n rhaid i'r Cynulliad ei chyfleu yw bod yn rhaid ailymgynnull y Senedd yn Llundain. Yr ydym yn wynebu un o'r argyfyngau mwyaf yr ydym wedi'i wynebu erioed a rhaid inni sicrhau bod pawb yn deall yn union beth sydd yn digwydd. Ni fydd yn parhau fawr yn hwy, gan y bydd anhrefn yn y wlad hon ymhen tri neu bedwar diwrnod, oni chymerir camau a fydd yn galluogi i'r olew gael ei ryddhau i'r wlad hon. Byddwch yn ofalus iawn.

Sue Essex: Had you listened carefully to what I said today and on Friday, you would know that I used a measured response in everything I said. I said that I know that people go on protests because they sincerely believe in issues. However, I say strongly to those people today—and the First Secretary said this yesterday—that they have made their point. There comes a time when all of us who protest must say that we have made our point. There are wider considerations. That is all I ask of those people: not that they abandon what they care about passionately, but that they pursue other ways of making those points, whether it be through dialogue with us, with the Government, through discussion in the forum or through other means.

Sue Essex: Petaech wedi gwrando'n ofalus ar yr hyn a ddywedais heddiw a dydd Gwener, byddech yn gwybod fy mod wedi defnyddio ymateb cytbwys ym mhopeth a ddywedais. Dywedais fy mod yn gwybod bod pobl yn protestio gan eu bod yn wirioneddol gredu yn yr achos. Fodd bynnag, dywedaf wrth y bobl hynny heddiw—a dywedodd y Prif Ysgrifennydd hyn ddoe—eu bod wedi gwneud eu pwynt. Daw amser pan fydd yn rhaid i bob un ohonom sydd yn protestio ddweud ein bod wedi gwneud ein pwynt. Mae ystyriaethau ehangach. Dyna'r cyfan a ofynnaf wrth y bobl hynny: nid eu bod yn rhoi'r gorau i'r hyn y maent yn teimlo'n gryf drosto, ond eu bod yn dewis ffyrdd eraill o wneud y pwyntiau hynny, pa un ai drwy ddeialog gyda ni, gyda'r Llywodraeth, drwy drafodaeth yn y fforwm neu drwy ddulliau eraill.

In a democracy, there are good ways for dialogue. Indeed, through the Assembly, we have an open Government in Wales. The Assembly has provided an excellent opportunity for people to come and make their points to us. People have taken advantage of that. I am prepared to listen, as are Rhodri and others. I say to the protesters, 'Please abandon your course of action now. There is no condemnation, but it has gone far enough'.

Mewn democratiaeth, mae ffyrdd da o gael deialog. Yn wir, drwy'r Cynulliad, mae gennym Lywodraeth agored yng Nghymru. Mae'r Cynulliad wedi rhoi cyfle gwych i bobl ddod i wneud eu pwynt. Mae pobl wedi manteisio ar hynny. Yr wyf yn barod i wrando, fel y mae Rhodri ac eraill. Dywedaf wrth y protestwyr, 'Rhowch y gorau i'ch gweithredu yn awr, os gwelwch yn dda. Nid oes unrhyw gondemnio, ond mae wedi mynd yn ddigon pell'.

I repeat that the situation with petrol prices is essentially out of the Government's control. These are world prices. This has happened in the past. Indeed, the Government responded this time in the budget. The fuel duty escalator was introduced by Norman Lamont,

Pwysleisiaf eto fod y sefyllfa o ran prisiau petrol allan o reolaeth y Llywodraeth fwy neu lai. Prisiau'r byd yw'r rhain. Mae hyn wedi digwydd yn y gorffennol. Yn wir, mae'r Llywodraeth wedi ymateb y tro hwn yn y gyllideb. Cyflwynwyd yr esgynnydd toll

if you remember him, the man of the Black Wednesday crisis that cost this country millions if not billions. This has been a one-sided finger pointing at us—

tanwydd gan Norman Lamont, os cofiwch ef, dyn argyfwng y dydd Mercher Du a gostiodd filiynau os nad biliynau i'r wlad hon. Mae hyn wedi bod yn ddadl unochrog o bwyntio bys atom ni—

Glyn Davies: That is complete spin.

Glyn Davies: Spin yw hynny'n gyfan gwbl.

Peter Rogers: You go too far.

Peter Rogers: Yr ydych yn mynd yn rhy bell.

The Presiding Officer: Order. You had an opportunity to ask a question. I allowed you to make comments that related to a previous comment about yourself. I have been more than generous.

Y Llywydd: Trefn. Cawsoch gyfle i holi cwestiwn. Rhoddais ganiatâd ichi wneud sylwadau a oedd yn gysylltiedig â sylw blaenorol amdanoch. Yr wyf wedi bod yn fwy na hael.

Sue Essex: The point is that there is a volatile world pricing market. In this budget, the Chancellor agreed to set aside the fuel duty escalator this year—which I agree was brought in for environmental reasons—because of the way that prices had increased. Therefore, there has been a step forward. Indeed, the percentage of duty that is taken out of a gallon of petrol is lower than it was under the previous Government. You must be fair. Facts are not spin, Glyn. Despite that, I am still cognisant of the fact that these increased prices are biting in Wales and are hurting people. The public know that. However, we must sit down and talk about ways through. This form of direct action that could hurt people will alienate many people who have a degree of sympathy. There comes a time when we say that enough is enough. Let us talk rather than stand on picket lines or set up blockades.

Sue Essex: Y pwynt yw bod marchnad brisio byd eang fregus. Yn y gyllideb hon, cytunodd y Canghellor i neilltuo'r esgynnydd toll tanwydd eleni—a gafodd ei gyflwyno am resymau amgylcheddol, cytunaf—oherwydd y ffordd y cynyddodd y prisiau. Felly, cafwyd cam ymlaen. Yn wir, mae canran y doll a gymerir allan o alwyn o betrol yn is nag yr oedd o dan y Llywodraeth flaenorol. Rhaid ichi fod yn deg. Nid spin yw ffeithiau, Glyn. Er gwaethaf hynny, yr wyf yn parhau i fod yn ymwybodol o'r ffaith bod y prisiau uwch hyn yn brathu yng Nghymru ac yn achosi loes i bobl. Mae'r cyhoedd yn gwybod hynny. Fodd bynnag, rhaid inni eistedd i lawr a siarad am ffyrdd o ddod drwy hyn. Bydd y math hwn o weithredu uniongyrchol a allai achosi loes i bobl yn dieithrio llawer o bobl sydd â rhywfaint o gydymdeimlad. Daw amser pan fyddwn yn dweud digon yw digon. Gadewch inni siarad yn hytrach na sefyll ar linellau piced neu drefnu blocâd.

David Lloyd: Mae gennyf gwestiwn penodol. Yr wyf yn datgan fy niddordeb arferol fel meddyg teulu ac un a fydd ar alwad fore dydd Gwener. Dyna pam yr wyf yn cadw fy mhetrol ar hyn o bryd. Pan fo meddygon teulu a nyrsys yn y gymuned—sydd yn edrych yn union yr un fath ag aelodau eraill o'r cyhoedd—yn mynd i fodurdy ac yn methu â chael tanwydd ychwaith, pa fesurau ymarferol sydd yn mynd i alluogi meddygon teulu fel fi i gael tanwydd fel y gallwn wneud ein gwaith o alw heibio i gleifion?

David Lloyd: I have a specific question. I declare my usual interest as a general practioner and one who will be on call on Friday morning. That is why I am currently conserving my petrol. When GPs and nurses in the community—who look exactly the same as other members of the public—go to a garage and cannot get petrol either, what practical measures will enable GPs such as myself to obtain fuel so that we can carry out our work of visiting patients?

Sue Essex: I hope that perhaps at the end of

Sue Essex: Gobeithiaf efallai erbyn diwedd y

this session, when we have some decisions or proposals from London as to the way forward, we can see what emergency powers have been put in place. Jane Hutt will take a much more hands-on approach in monitoring and co-ordinating. Although I cannot tell you now how you can be personally identified at the weekend, Dai, I hope that we will shortly be able to sort that out for you and other GPs.

sesiwn hon, pan fyddwn wedi cael rhai penderfyniadau neu gynigion o Lundain ynglŷn â'r ffordd ymlaen, y gallwn weld pa bwerau brys sydd wedi eu sefydlu. Bydd Jane Hutt yn cymryd ymagwedd lawer mwy ymarferol wrth fonitro a chydlynu. Er na allaf ddweud wrthych sut y gallwch chi yn bersonol gael eich adnabod dros y penwythnos, Dai, gobeithiaf y byddwn yn gallu datrys hynny i chi a meddygon teulu eraill yn fuan.

Jane Davidson: The ambulance control centre for south Wales is located in my constituency. I was pleased to hear the reassurance in your statement in terms of the emergency services. The ambulance services are adamant, and gave out press releases to say so at lunchtime today, that they will meet any 999 call in Wales. Can you ensure that we have similar agreements in terms of the police and the fire services? It is important that the Assembly reassures the people of Wales that, if they need services, they will be available and that there has been engagement between the appropriate responsible authorities and the protesters to ensure that that is the case.

Jane Davidson: Mae canolfan rheoli ambiwlansys de Cymru yn fy etholaeth. Yr oeddwn yn falch o glywed y sicrwydd yn eich datganiad yn nhermau'r gwasanaethau brys. Mae'r gwasanaethau ambiwlans yn hollol sicr, a chyhoeddwyd datganiadau i'r wasg i ddweud hynny amser cinio heddiw, y byddant yn ateb i unrhyw alwad 999 yng Nghymru. A allwch chi sicrhau bod gennym drefniadau tebyg ar gyfer yr heddlu a'r gwasanaeth tân? Mae'n bwysig bod y Cynulliad yn sicrhau pobl Cymru, os bydd angen gwasanaethau arnynt, y byddant ar gael ac y bu cyswllt rhwng yr awdurdodau cyfrifol priodol a'r protestwyr i sicrhau mai dyna yw'r sefyllfa.

Sue Essex: The Welsh Ambulance Services Trust met yesterday to discuss the fuel crisis throughout Wales. It is the intention of the Government at Westminster and here that the emergency services are kept and given priority. Following this debate, I will listen to what has emerged from the police meeting this afternoon to ensure that those arrangements are in place. You are right: the public needs to have confidence that any 999 emergency call will be answered.

Sue Essex: Cyfarfu Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ddoe i drafod yr argyfwng tanwydd ledled Cymru. Mae'n fwriad gan y Llywodraeth yn San Steffan ac yma i gynnal y gwasanaethau brys a rhoi blaenoriaeth iddynt. Yn dilyn y ddadl hon, byddaf yn gwrando ar yr hyn a ddaeth i'r amlwg o gyfarfod yr heddlu y prynhawn yma i sicrhau bod y trefniadau hynny yn eu lle. Yr ydych yn iawn i ddweud bod angen i'r cyhoedd gael hyder y bydd unrhyw alwad frys 999 yn cael ei hateb.

Elin Jones: Clywsom Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth yn sôn am yr ymatebion i'r argyfwng. Yr wyf fi eisiau holi am yr hyn a arweiniodd at yr argyfwng a'r blocâd. Rhaid i'r Llywodraeth nid yn unig ymateb i'r argyfwng, ond i'r rhesymau y tu ôl iddo. Rhaid iddi wneud hynny mewn modd sydd yn caniatáu i'r ardaloedd gwledig weithredu a masnachu'n deg. Mae economi gorllewin Cymru wedi dibynnu ers canrifoedd ar y gallu i fasnachu y tu allan i'r ardal ac ar system drafnidiaeth sydd yn caniatáu i hynny ddigwydd. Pan nad

Elin Jones: We have heard the Secretary for the Environment, Planning and Transport talk about the responses to the crisis. I want to ask about what led to the crisis and the blockade. The Government must respond not only to the crisis, but to the reasons behind it. It must do so in a way that enables rural areas to operate and trade fairly. The west Wales economy has depended for centuries on the ability to trade outside the area and on a transport system that permits that to happen. When that system is inequitable, there is a tradition of protest in the West. We are all

yw'r system honno'n deg, mae traddodiad o brotest yn y Gorllewin. Yr ydym i gyd yn gyfarwydd â hanes Merched Beca. Clywsom y Prif Ysgrifennydd yn brolio ei fod yn falch ei fod yn ddisgynnydd uniongyrchol i un o arweinwyr Beca.

familiar with the tale of the Daughters of Rebecca. We have heard the First Secretary boast that he is proud to be a direct descendant of one of the Rebecca leaders.

Y Llywydd: Er fy mod yn mwynhau hyn, hoffwn gael cwestiwn.

The Presiding Officer: Although I am enjoying this, I would like to have a question.

Elin Jones: Mae Merched Beca yn disgwyl arweiniad oddi wrthych, Mr Morgan, ble bynnag yr ydych, ac oddi wrth y Llywodraeth yr ydych yn ei harwain a'ch ffrindiau yn y Democratiaid Rhyddfrydol. A ydych i gyd yn barod i ymateb i'r her honno?

Elin Jones: The Daughters of Rebecca expect leadership from you, Mr Morgan, wherever you are, and from the Government that you lead and your friends in the Liberal Democrats. Are you all prepared to respond to that challenge?

Sue Essex: I agree that people take this kind of action as a result of feeling desperate or anxious about their situation. You are right that once this emergency is resolved—and I hope that it is resolved quickly—we must carefully look at the reasons behind it and at the causes and worries that exist throughout Wales. Elin said that, economically, we are in a disadvantaged position in terms of transportation costs. For the transport firms, I intend to introduce economic advisers and other people to supplement that where necessary. However, it would help if we could articulate the concerns of those people who feel worried about their disadvantaged situation. It would help to convey their concerns in a more structured and reasonable way than the one we see at the moment.

Sue Essex: Cytunaf fod pobl yn cymryd y mathau hyn o gamau oherwydd eu bod yn teimlo'n argyfyngus neu'n bryderus ynghylch eu sefyllfa. Yr ydych yn iawn i ddweud unwaith y bydd yr argyfwng hwn wedi'i ddatrys—a gobeithiaf y caiff ei ddatrys yn gyflym—bod yn rhaid inni edrych yn ofalus ar y rhesymau y tu ôl iddo ac ar yr achosion a'r pryderon sydd yn bodoli ledled Cymru. Dywedodd Elin ein bod, yn economaidd, mewn sefyllfa o anfantais yn nhermau costau cludiant. I'r cwmnïau cludo, yr wyf yn bwriadu cyflwyno ymgynghorwyr economaidd a phobl eraill i ategu hynny lle bo angen. Fodd bynnag, byddai'n helpu pe gallem fynegi pryderon y bobl hynny sydd yn teimlo'n bryderus am eu sefyllfa ddifreintiedig. Byddai'n helpu i gyfleu eu pryderon mewn ffordd fwy strwythuredig a rhesymol na'r hyn a welwn ar hyn o bryd.

John Griffiths: I share your respect for direct action and the need for measured and reasonable responses wherever possible. However, you have emphasised that the consequences of the action that we have seen are already serious. It is not only a matter of ambulances, fire engines and police cars; it is a matter, for example, of supplies and NHS staff. We are almost certain to see serious cases in the next two days as a result of this action if something is not done to end the current situation. In those circumstances, I—and many others, I am sure—think about the miners' strike, when there was strong political direction and the police force ensured that coal lorries could leave the depots. No amount of direct action was

John Griffiths: Yr wyf yn rhannu eich parch tuag at weithredu uniongyrchol a'r angen am ymatebion cytbwys a rhesymol lle bynnag y bo'n bosibl. Fodd bynnag, yr ydych wedi pwysleisio bod canlyniadau'r gweithredu yr ydym wedi'i weld eisoes yn ddifrifol. Nid dim ond mater o ambiwlansys, injans tân a cheir yr heddlu ydyw; mae'n fater, er enghraifft, o gyflenwadau a staff yr NHS. Yr ydym bron yn sicr o weld achosion difrifol yn ystod y ddeuddydd nesaf o ganlyniad i'r gweithredu hwn os na wneir rhywbeth i ddod â'r sefyllfa bresennol i ben. Yn yr amgylchiadau hynny, yr wyf fi—a llawer o bobl eraill, mae'n siŵr—yn meddwl am streic y glowyr, pan gafwyd cyfarwyddyd gwleidyddol cryf a sicrhaodd yr heddlu y

allowed to interfere with that. People compare that with this situation. I feel strongly that there must be that political direction and the police must act effectively to ensure that these people are not allowed to continue this blockade, given the serious consequences that are sure to follow in the next day or two. Do you agree that, although we want to be as reasonable and measured as possible in our responses, we must ensure that tomorrow, if not today, the blockade is not allowed to continue?

gallai lorïau glo adael y depos. Ni chaniatawyd i unrhyw weithredu uniongyrchol amharu ar hynny. Mae pobl yn cymharu hynny â'r sefyllfa hon. Teimlaf yn gryf bod yn rhaid cael y cyfarwyddyd gwleidyddol hwnnw a bod yn rhaid i'r heddlu weithredu'n effeithiol i sicrhau na chaniateir i'r bobl hyn barhau â'r blocâd hwn, o gofio'r canlyniadau difrifol sydd yn sicr o ddilyn yn ystod y diwrnod neu ddau nesaf. A gytunwch, er ein bod am fod mor rhesymol a chytbwys â phosibl yn ein hymatebion, bod yn rhaid inni sicrhau yfory, os nad heddiw, na chaniateir i'r blocâd barhau?

3:40 p.m.

Sue Essex: You are right to contrast this situation with what happened during the miners' strikes. Some of us remember it only too well. However, the responsibility for the police lies with the Home Office, and operational matters are the responsibility of the Chief Constables. It is not for me to direct anybody. I want the protesters and anyone who can influence them to accept that enough is enough. It would be in everybody's interests, including their own, if they could walk or drive away from this. The police are having a meeting today. They understand the seriousness of the situation and how further delay or blockade could escalate in terms of the hardship and dangers presented to people. I am sure that they will consider that when drawing up their operational plans.

Sue Essex: Yr ydych yn iawn i wrthgyferbynnu'r sefyllfa hon gyda'r hyn a ddigwyddodd yn ystod streic y glowyr. Mae rhai ohonom yn cofio hynny'n dda iawn. Fodd bynnag, y Swyddfa Gartref sydd yn gyfrifol am yr heddlu, a'r Prif Gwnstabliaid sydd yn gyfrifol am faterion gweithredol. Nid fy lle i yw rhoi cyfarwyddyd i unrhyw un. Yr wyf am i'r protestwyr ac unrhyw un a all ddylanwadu arnynt dderbyn mai digon yw digon. Pe baent yn gallu cerdded neu yrru oddi wrth hyn, byddai hynny o fudd i bawb, yn cynnwys hwy eu hunain. Mae'r heddlu'n cyfarfod heddiw. Maent yn deall difrifoldeb y sefyllfa a sut y gallai oedi neu flocâd pellach waethygu'r sefyllfa yn nhermau'r caledi a'r peryglon a fydd yn wynebu pobl. Yr wyf yn siŵr y byddant yn ystyried hynny pan fyddant yn llunio eu cynlluniau gweithredol.

Glyn Davies: There is no doubt that you are right when you describe this situation as a grave one and a serious crisis. I cannot understand why you do not agree that there was never a more appropriate occasion for the Assembly to hold a proper, full debate.

Glyn Davies: Nid oes amheuaeth eich bod yn iawn wrth ddisgrifio'r sefyllfa hon fel un ddwys ac yn argyfwng difrifol. Ni allaf ddeall pam nad ydych yn cytuno na fu erioed achlysur mwy priodol i'r Cynulliad gynnal dadl gywir a llawn.

Do you accept that the frustration that has caused hauliers, taxi drivers, farmers and many others to protest has been borne out of the hugely increased tax burden levied by the Labour Government since 1997 through means such as occupational pensions, council tax and, most importantly, the increase in fuel tax? Throughout the period of the last Government—to which you have already referred—there was an escalator in place, which was heavily criticised. However, when

A ydych yn derbyn bod y rhwystredigaeth sydd wedi achosi i'r cludwyr, gyrwyr tacsi, ffermwyr a nifer o bobl eraill i brotestio yn deillio o'r baich treth sydd wedi cynyddu'n aruthrol ac sydd wedi'i bennu gan y Llywodraeth Lafur ers 1997 drwy ddulliau fel pensiynau galwedigaethau, treth gyngor ac, yn bwysicaf oll, y cynnydd mewn treth ar danwydd? Drwy gydol cyfnod y Llywodraeth ddiwethaf—yr ydych eisoes wedi cyfeirio ato—yr oedd esgynnydd yn ei le, a

the new Government came in, not only did it speed up the escalator by increasing the percentage above inflation, it also had three budgets in two years. That is what created this massive problem.

feirniadwyd yn hallt. Fodd bynnag, pan ddaeth y Llywodraeth newydd i rym, gwnaeth nid yn unig gyflymu'r esgynnydd, drwy gynyddu'r ganran uwchlaw chwyddiant, ond cafodd hefyd dair cyllideb mewn dwy flynedd. Dyna'r hyn a greodd y broblem enfawr hon.

I have listened carefully to what you have said and I accept that you realise that this is an important crisis, but do you accept that this crisis was made in 11 Downing Street and that it is the Labour Government's responsibility to fix it?

Yr wyf wedi gwrando'n astud ar yr hyn a ddywedasoch ac yr wyf yn derbyn eich bod yn sylweddoli bod hwn yn argyfwng pwysig, ond a ydych yn derbyn bod yr argyfwng wedi ei greu yn 11 Downing Street ac mai cyfrifoldeb y Llywodraeth Lafur yw ei ddatrys?

Sue Essex: I do not agree. The crisis has been brought about by people who took action on the ground. There is no doubt that the immediate responsibility for the crisis lies with them. As I have said, I recognise that there is frustration and that the public is concerned about what has happened to fuel prices across the world. There are demonstrations in Europe and elsewhere, so this is not a phenomenon that is limited to the UK. There are difficulties across the world. When there is such a dramatic rise in world prices as the one that we have seen, people find it hard to adjust their business and style of living. That is why it is important that we try to put some flesh on what this means to businesses, people and communities in Wales. That can only be done by being rational and putting together the information. That is very important. That is how democratic societies work. That is how I see the situation being resolved.

Sue Essex: Nid wyf yn cytuno. Crëwyd yr argyfwng gan y bobl sydd wedi gweithredu ar lawr gwlad. Nid oes amheuaeth mai hwy sydd yn uniongyrchol gyfrifol am yr argyfwng. Fel y dywedais, yr wyf yn cydnabod bod teimlad o rwystredigaeth a bod y cyhoedd yn pryderu am yr hyn sydd wedi digwydd i brisiau tanwydd ar draws y byd. Mae gwrthdystiadau yn Ewrop ac mewn mannau eraill, felly nid yw'n ffenomenon sydd yn gyfyngedig i'r DU. Mae anawsterau ar draws y byd. Pan fydd cynnydd mor ddramatig â'r un yr ydym wedi'i weld ym mhrisiau'r byd, mae pobl yn ei chael hi'n anodd addasu eu busnesau a'u ffordd o fyw. Dyna pam ei bod yn bwysig ein bod yn ceisio rhoi tipyn o gnawd ar yr hyn y mae'n ei olygu i fusnesau, pobl a chymunedau yng Nghymru. Dim ond drwy fod yn rhesymegol a chasglu'r wybodaeth ynghyd y gallwn wneud hynny. Mae hynny'n bwysig iawn. Dyna sut mae cymdeithasau democrataidd yn gweithio. Dyna sut y gwelaf y sefyllfa yn cael ei datrys.

Pauline Jarman: I wondered why Sue was making a statement on behalf of the Government of Wales. This matter is not only about the environment, transport and planning. I declare an interest as the leader of Rhondda Cynon Taff County Borough Council. The effect on social services, education and local government services in general is serious.

Pauline Jarman: Yr oeddwn yn meddwl tybed pam mai Sue yn gwneud y datganiad ar ran Llywodraeth Cymru. Nid mater yn ymwneud â'r amgylchedd, trafnidiaeth a chynllunio yn unig mo hwn. Yr wyf yn datgan diddordeb fel arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'r effaith ar y gwasanaethau cymdeithasol, addysg a gwasanaethau llywodraeth leol yn gyffredinol yn ddifrifol.

On behalf of your colleagues, Sue, I would like you to answer some questions that I would have asked the relevant Assembly Secretaries had there been a full debate. We

Ar ran eich cydweithwyr, Sue, hoffwn i chi ateb rhai cwestiynau y byddwn wedi'u gofyn i'r Ysgrifenyddion Cynulliad perthnasol pe baem wedi cael dadl lawn. Bydd yn rhaid i ni

in Rhondda Cynon Taff will have to close our schools at 3 p.m. tomorrow. We are conscious of the time in school that children will miss as a result of that. There are 192 statutory days in the school year and that will be affected by the shortage. Will the Secretary for Education and Children issue guidance to all local authorities in Wales about how this lost time should be managed in the event of the fuel shortage continuing? If we are unable to offer care in the community, I ask the Secretary for Health and Social Services whether there will be additional money for local government if we have to admit people into residential care. I also ask the Secretary for Local Government and Housing whether any of these additional costs will be met out of contingency funds that he may have at his disposal at a time of crisis. My last question, Sue, is whether we can expect to see a Liberal Democrat Member in the Cabinet tomorrow.

yn Rhondda Cynon Taf gau ein hysgolion am 3 p.m. yfory. Yr ydym yn ymwybodol o'r amser y bydd y plant yn ei golli o'r ysgol o ganlyniad i hynny. Mae 192 o ddiwrnodau statudol yn y flwyddyn ysgol a bydd y prinder yn effeithio ar hynny. A fydd yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant yn cyhoeddi arweiniad i bob awdurdod lleol yng Nghymru ynglŷn â'r ffordd y dylid ymdrin â'r amser hwn a gollir os bydd y prinder tanwydd yn parhau? Os na allwn gynnig gofal yn y gymuned, gofynnaf i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a fydd arian ychwanegol ar gyfer llywodraeth leol os bydd yn rhaid inni roi pobl mewn gofal preswyl. Gofynnaf hefyd i'r Ysgrifennydd Llywodraeth Leol a Thai a gaiff unrhyw rai o'r costau ychwanegol hyn eu talu o gronfeydd wrth gefn y gall fod ganddo i'w defnyddio mewn adeg o argyfwng. Fy nghwestiwn olaf, Sue, yw a allwn ddisgwyl gweld Aelod o'r Democratiaid Rhyddfrydol yn y Cabinet yfory.

The Presiding Officer: Order. You may answer every question except for the last one.

Y Llywydd: Trefn. Gallwch ateb pob cwestiwn ar wahân i'r un olaf.

Sue Essex: You are spoiling their fun, Llywydd. Why not divert attention from the serious issues?

Sue Essex: Yr ydych yn difetha eu hwyl, Lywydd. Pam na allwn dynnu sylw oddi wrth y materion difrifol?

You made your point, Pauline, in a way that you were not expecting. There is no one Cabinet Secretary who could stand here and respond to all of those matters. [ASSEMBLY MEMBERS: 'The First Secretary'.] No. In fairness, I have taken the lead on transport and that is how it works. We work as a team of individuals who take responsibility for separate issues. That is important. This is a major transport issue and it is quite right—if you can bear it—that I answer the questions.

Gwnaethoch eich pwynt, Pauline, mewn ffordd nad oeddech yn disgwyl. Nid oes un Ysgrifennydd Cabinet a allai sefyll yma ac ymateb i bob un o'r materion hynny. [AELODAU O'R CYNULLIAD: 'Y Prif Ysgrifennydd'.] Na. A bod yn deg, yr wyf wedi cymryd yr arweiniad ar drafnidiaeth a dyna sut mae pethau'n gweithio. Yr ydym yn gweithio fel tîm o unigolion sydd yn cymryd cyfrifoldeb dros faterion gwahanol. Mae hynny'n bwysig. Mae hwn yn fater trafnidiaeth pwysig ac mae'n eithaf priodol—os gallwch ddioddef hynny—mai fi sydd yn ateb y cwestiynau.

I want to emphasise local government's co-operation, because its emergency planning services are crucial to delivering on the ground. If you must close your schools—these are the decisions being made by individual local authorities depending on the circumstances—I very much regret that because it is an enormous disturbance to children, parents, grandparents and so on. I

Hoffwn bwysleisio cydweithrediad llywodraeth leol, oherwydd bod ei gwasanaethau cynllunio brys yn hanfodol er mwyn cyflenwi ar lawr gwlad. Os oes rhaid i chi gal eich ysgolion—penderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol unigol yw'r rhain yn dibynnu ar yr amgylchiadau—mae'n ddrwg iawn gennyf am hynny gan ei fod yn amharu'n fawr iawn ar blant, rhieni, neiniau a

have spoken to Rosemary Butler about the guidance that you mentioned. The loss of school days is being considered. Discussions are being held today and advice to local authorities will be issued.

theidiau ac ati. Yr wyf wedi siarad â Rosemary Butler ynglŷn â'r arweiniad a grybwyllwyd gennych. Mae colli diwrnodau ysgol yn cael ei ystyried. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal heddiw a chyhoeddir cyngor i awdurdodau lleol.

In terms of the extra cost burden, I cannot guarantee additional resources. However, we will assess that in light of the outcome of the whole proceedings. It would have to be judged by the Finance Secretary and the Secretary for Local Government and Housing. We will have to wait and see what bids are made by local government.

O ran baich y costau ychwanegol, ni allaf warantu adnoddau ychwanegol. Fodd bynnag, byddwn yn asesu hynny yng ngoleuni canlyniad yr achos cyfan. Byddai'n rhaid i'r Ysgrifennydd Cyllid a'r Ysgrifennydd Llywodraeth Leol a Thai benderfynu ar hynny. Bydd yn rhaid inni aros i weld pa gynigion a wneir gan lywodraeth leol.

On Glyn Davies's point about the fuel duty escalator, you were right to comment on when it was introduced. We stuck with it for a while. It is part of our policy on the environment. Although we have not stressed that this afternoon, many of those taxes exist for a reason. We must change, but not immediately. We should not put people at great risk and cause them problems. There are environmental factors to consider. We must accept that we are in the business of trying to change the way that people live their lives in the long term and of supporting people to have choice in the way that they travel and look at different ways of producing energy. I want us to be in a sustainable situation and not the one we are in today, having to react quickly, whichever party is in Government, to those changes. That is why, returning to Helen Mary's point, long-term, effective planning is important. We are dealing with a difficult situation, but that does not remove our responsibility to work towards a much more sustainable long-term situation in Wales.

Ynglŷn â phwynt Glyn Davies am yr esgynnydd toll tanwydd, yr oeddech yn iawn i wneud sylw ar pryd y cafodd ei gyflwyno. Daliasom ati am ychydig. Mae'n rhan o'n polisi ar yr amgylchedd. Er nad ydym wedi pwysleisio hynny y prynhawn yma, mae rheswm dros fodolaeth llawer o'r trethi hynny. Rhaid inni newid, ond nid ar unwaith. Ni ddylem osod pobl mewn perygl mawr ac achosi problemau iddynt. Mae ffactorau amgylcheddol i'w hystyried. Rhaid inni dderbyn ein bod yn y busnes o geisio newid y ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau yn y tymor hir a chefnogi pobl i gael dewis y ffordd y maent yn teithio ac edrych ar wahanol ffyrdd o gynhyrchu ynni. Yr wyf am inni fod mewn sefyllfa gynaliadwy ac nid yr un yr ydym ynddi heddiw, yn gorfod ymateb yn gyflym, pa blaid bynnag sydd yn llywodraethu, i'r newidiadau hynny. Dyna pam, gan ddychwelyd at bwynt Helen Mary, bod cynllunio effeithiol tymor hir yn bwysig. Yr ydym yn ymdrin â sefyllfa anodd, ond nid yw hynny'n cael gwared ar ein cyfrifoldeb i weithio tuag at sefyllfa dymor hir lawer mwy cynaliadwy yng Nghymru.

3:50 p.m.

David Davies: Do you agree that one of the reasons why we are in this situation is the lack of understanding shown by politicians such as Alun Pugh and John Griffiths? One of the reasons why the shortages have hit us so quickly is that many hauliers, who used to store large quantities of fuel on their premises, ceased to do so because fuel price increases made it difficult in terms of cash flow. That is one reason why we are running short so quickly.

David Davies: A ydych yn cytuno mai un o'r rhesymau pam ein bod yn y sefyllfa hon yw'r diffyg dealltwriaeth a ddangosir gan wleidyddion fel Alun Pugh a John Griffiths? Un o'r rhesymau pam bod y prinder wedi cael effaith arnom mor gyflym yw bod nifer o gludwyr, a oedd yn arfer storio symiau mawr o danwydd yn eu heiddo, wedi rhoi'r gorau i wneud hynny gan fod cynnydd mewn prisiau tanwydd wedi ei gwneud yn anodd o ran llif arian. Dyna un rheswm pam bod tanwydd yn

prinhau mor gyflym.

Do you realise how serious the situation is, even if the barricades were removed immediately? This morning, I spoke to people in the port of Felixstowe. They told me that imports, most of which come into this country in 20-foot and 40-foot containers through ports such as Felixstowe—and there are only a few ports that will take them—are going nowhere. They are stacking up on the side of the quay. The problem that that will cause is augmented by the fact that most businesses, shops and industries have got rid of their warehouses and are reliant on 'just-in-time' systems. That means that companies usually keep only a day's worth, or maybe only a few hours' worth, of stock. We are facing an absolute crisis.

A ydych yn sylweddoli pa mor ddifrifol yw'r sefyllfa hon, hyd yn oed pe ceid gwared ar y rhwystrau ar unwaith? Y bore yma, siaradais â phobl ym mhorthladd Felixstowe. Dywedasant wrthyf nad yw mewnforion, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyrraedd y wlad hon mewn cynwysyddion 20 troedfedd a 40 troedfedd drwy borthladdoedd fel Felixstowe—a dim ond ychydig o borthladdoedd sydd yn barod i'w cymryd—yn mynd i unman. Maent yn cronni ar ochr y cei. Gwaethygir y broblem y bydd hynny yn ei hachosi gan y ffaith bod y rhan fwyaf o fusnesau, siopau a diwydiannau wedi cael gwared ar eu warysau ac yn dibynnu ar systemau 'union mewn pryd'. Mae hynny'n golygu bod cwmnïau fel arfer dim ond yn cadw gwerth diwrnod, neu efallai dim ond gwerth ychydig oriau, o stoc. Yr ydym yn wynebu argyfwng enfawr.

I do not think that the Government realises how serious this situation is, although it has arisen from its actions. You mentioned environmental reasons. The tax on fuel was added for environmental reasons, but since 1997—and let us not get too political, because perhaps the previous Government could have done more for public transport—this Government has added much more tax than the previous Government and has not done anything to increase public transport provision. That is one reason why this problem exists. You have applied the tax as a revenue-raising measure. It is going into Gordon Brown's Treasury, when there are already huge surpluses and when he has so much money that he is paying off the national debt. This is nothing more than a tax that is being randomly applied to people who live in rural areas—

Nid wyf yn credu bod y Llywodraeth yn sylweddoli pa mor ddifrifol yw'r sefyllfa hon, er ei bod wedi deillio o'i gweithredoedd. Soniasoch am resymau amgylcheddol. Ychwanegwyd y dreth ar danwydd am resymau amgylcheddol, ond ers 1997—a gadewch inni beidio â mynd yn rhy wleidyddol, oherwydd efallai y gallai'r Llywodraeth flaenorol fod wedi gwneud mwy dros drafnidiaeth gyhoeddus—mae'r Llywodraeth hon wedi ychwanegu llawer mwy o dreth na'r Llywodraeth flaenorol ond heb wneud dim i gynyddu'r ddarpariaeth o drafnidiaeth gyhoeddus. Dyna un rheswm pam bod y broblem hon yn bodoli. Yr ydych wedi gosod y dreth fel modd o godi refeniw. Mae'n mynd i Drysorlys Gordon Brown, pan fo gwargedion enfawr yno eisoes a phan fo ganddo gymaint o arian fel ei fod yn ad-dalu'r ddyled genedlaethol. Nid yw hyn yn ddim mwy na threth sydd yn chael ei chodi ar hap ar bobl sydd yn byw mewn ardaloedd gwledig—

The Presiding Officer: Order. Could I have a question please?

Y Llywydd: Trefn. A allaf gael cwestiwn os gwelwch yn dda?

David Davies: Does the Secretary for the Environment, Planning and Transport agree that this is a tax that is being randomly applied to people? You might just as well increase the income tax for people with

David Davies: A yw Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth yn cytuno bod hon yn dreth sydd yn cael ei chodi ar bobl ar hap? Waeth i chi gynyddu treth incwm i bobl â gwallt coch ddim.

ginger hair. That would be just as fair. It is high time that the Government recognised that it caused this problem and that it will have to talk to the protesters. Saying that it will not do so is no good. The Government has been happy to talk to members of the IRA and Sinn Fein—people who support terrorism. Are you saying that you will not talk to a few hauliers and farmers who face bankruptcy? For God's sake, get your heads out of the sand and talk to those people and find out why they are doing this.

Byddai hynny yr un mor deg. Mae'n hen bryd i'r Llywodraeth sylweddoli mai hi sydd wedi achosi'r broblem hon ac y bydd yn rhaid iddi siarad â'r protestwyr. Nid yw dweud na fydd yn gwneud hynny yn werth dim. Mae'r Llywodraeth wedi bod yn ddigon parod i siarad ag aelodau o'r IRA a Sinn Fein—pobl sydd yn cefnogi terfysgaeth. A ydych yn dweud nad ydych yn fodlon siarad ag ychydig o gludwyr a ffermwyr sydd yn wynebu mynd yn fethdalwyr? Er mwyn Duw, tynnwch eich pennau allan o'r tywod a siaradwch â'r bobl hynny a darganfyddwch pam eu bod yn gwneud hyn.

Sue Essex: I will try to extract the sensible point that you made, David. That was about the nature of distribution modes and patterns. You highlighted the fact that part of the reason for the crisis is that distribution and storage methods mean that we do not have the capacity to withstand the crisis. That will have a knock-on effect at the refineries, even when the blockade is removed.

Sue Essex: Ceisiaf dynnu'r pwynt synhwyrol a wnaethoch, David. Yr oedd hwnnw'n ymwneud â natur dulliau a phatrymau dosbarthu. Amlygasoch y ffaith mai rhan o'r rheswm dros yr argyfwng yw bod dulliau dosbarthu a storio yn golygu nad oes gennym y gallu i wrthsefyll yr argyfwng. Caiff hynny sgîl-effaith ar y purfeydd, hyd yn oed pan fydd y blocâd wedi ei chwalu.

Many considerations will arise from this week's events, including distribution methods. However, I cannot stand by when you say that we have done nothing for public transport, when in Wales we have increased the rural bus subsidy and put money into public transport. We have done much work on integrated packages to support public transport. We are trying to turn the situation around. You have heard me say many times that supporting public transport is a priority to give people choice. That is part of a long-term solution. We must make money available to ensure that public transport can deliver safe and environmentally-sensitive options. However, at the moment, the public do not have those options and are being affected. That must be the priority.

Bydd llawer o ystyriaethau yn deillio o ddigwyddiadau'r wythnos hon, gan gynnwys dulliau dosbarthu. Fodd bynnag, ni allaf gytuno â chi pan ddywedwch nad ydym wedi gwneud dim dros drafnidiaeth gyhoeddus, pan ein bod wedi cynyddu'r cymhorthdal i fysus gwledig yng Nghymru ac wedi rhoi arian i drafnidiaeth gyhoeddus. Yr ydym wedi gwneud llawer o waith ar becynnau integredig i gynnal trafnidiaeth gyhoeddus. Yr ydym yn ceisio gwyrdroi'r sefyllfa. Fe'm clywsoch yn dweud sawl tro bod cynnal trafnidiaeth gyhoeddus yn flaenoriaeth er mwyn rhoi dewis i bobl. Mae hynny'n rhan o ateb tymor hir. Rhaid inni ryddhau arian er mwyn sicrhau y gall trafnidiaeth gyhoeddus gyflwyno opsiynau diogel sydd yn sensitif i'r amgylchedd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes gan y cyhoedd yr opsiynau hynny ac maent yn cael eu heffeithio. Rhaid i hynny fod yn flaenoriaeth.

Cynog Dafis: Diolchaf i Sue Essex am y ffordd gytbwys a deallus y mae hi wedi trafod y sesiwn hon. Fodd bynnag, gofynnaf iddi ailystyried ei safbwynt ynglŷn â phriodoldeb lleihau treth pan fo pris petroliwm ar farchnad y byd yn uchel. Mae hynny'n briodol. Cyflwynodd y Torïaid yr esgynnydd pan oedd petroliwm ar lefel isel ar

Cynog Dafis: I thank Sue Essex for the balanced and intelligent way in which she has conducted this session. However, I ask her to reconsider her viewpoint on the propriety of reducing duty when the price of petroleum on the world market is high. That is appropriate. The Tories introduced the escalator when petroleum was at a low level on the

y farchnad gydwladol. Dylid atgoffa'r Torïaid hefyd o'r 20 y cant, neu'r 20c ychwanegol o doll ar litr o betrol. Codwyd 14c o'r doll honno o dan y Llywodraeth Dorïaidd a dim ond 6c o dan y Llywodraeth bresennol. Felly cyfrifoldeb y Torïaid yw'r rhan fwyaf o'r cynnydd yn yr esgynnydd ar betrol. Ar adeg pan fo pris petroliwm wedi codi'n ddirfawr, ymddengys yn rhesymol i ostwng y doll, yn enwedig gan fod derbyniadau'r Canghellor ar werthiant wedi cynyddu drwy dreth ar werth. Am bob ceiniog ychwanegol ar bris petrol, derbynia'r Canghellor 17 y cant, sydd yn creu derbyniadau sylweddol. A fyddai Sue Essex yn cytuno â'r hyn y galwodd Richard Livsey amdano heddiw yn *The Western Mail*, sef ar i'r Llywodraeth ostwng y doll ar danwydd a dweud bod ardaloedd yn y Gymru wledig yn ddibynnol ar danwydd a thrafnidiaeth breifat?

international market. The Tories should also be reminded of the 20 per cent, or the additional 20p of duty on a litre of petrol. Fourteen pence of that duty was raised under the Tory Government and only 6p under the present Government. Therefore, the majority of the increase in the petrol escalator is the Tories' responsibility. At a time when the price of petroleum has increased immensely, it seems reasonable to lower the duty, especially as the Chancellor's receipts on sales have increased through value added tax. For every penny increase on the price of petrol, the Chancellor receives 17 per cent, which creates substantial receipts. Would Sue Essex agree with what Richard Livsey called for in *The Western Mail* today, namely for the Government to reduce the duty on fuel and say that areas of rural Wales are dependent on fuel and private transport?

Sue Essex: It is difficult for any Government to implement a tax system that fluctuates duty. You have acknowledged that. The mechanisms are not easy to manage and there is a danger that the public will become more frustrated in seeing that happen. There are differential impacts. I have travelled throughout Wales during the summer and I understand some of the problems of people in rural areas. They are often in low-paid jobs and must pay high travelling costs to and from those jobs. I understand the impact of this. We must collate that information and look at the range of options available to help the situation.

Sue Essex: Mae'n anodd i unrhyw Lywodraeth weithredu system dreth sydd yn amrywio'r doll. Yr ydych wedi cydnabod hynny. Nid yw'r dulliau yn hawdd i'w rheoli ac mae perygl y bydd y cyhoedd yn dod yn fwy rhwystredig wrth weld hynny'n digwydd. Mae effeithiau gwahaniaethol. Yr wyf wedi teithio ar hyd a lled Cymru yn ystod yr haf ac yr wyf yn deall rhai o broblemau pobl mewn ardaloedd gwledig. Maent yn aml mewn swyddi â chyflogau isel ac yn gorfod talu costau teithio uchel i gyrraedd y swyddi hynny. Yr wyf yn deall effaith hyn. Rhaid inni gasglu'r wybodaeth honno ac edrych ar yr ystod o opsiynau sydd ar gael i helpu'r sefyllfa.

Overall, I believe that people would like stability. It is hard for business and household budgets to manage when people do not know how much things will cost from one week to the next. This is particularly true of people on low incomes, and it is hard. This situation may result in the Government realising what the long-term picture will be. I understand that in Scotland, Shell and other companies are investing in off-sea exploration and are, therefore, probably thinking that there will be a long-term rise in oil prices. We need to look at this in a sustainable context.

Yn gyffredinol, credaf fod pobl am gael sefydlogrwydd. Mae'n anodd rheoli busnes a chyllideb tŷ pan nad yw pobl yn gwybod beth fydd cost pethau o un wythnos i'r llall. Mae hyn yn arbennig o wir i bobl ar incwm isel, ac mae'n anodd. Efallai y bydd y sefyllfa hon yn gwneud i'r Llywodraeth sylweddoli beth fydd y darlun tymor hir. Deallaf fod Shell a chwmnïau eraill yn yr Alban yn buddsoddi mewn archwilio oddi ar y môr ac felly mae'n debyg eu bod yn meddwl y bydd pris olew'n cynyddu yn y tymor hir. Mae angen inni ystyried hyn mewn cyd-destun cynaliadwy.

Lynne Neagle: I was concerned to hear Pauline Jarman say that schools in Rhondda

Lynne Neagle: Yr oeddwn yn pryderu wrth glywed gan Pauline Jarman y bydd yr

Cynon Taff will be closed at 3 p.m. tomorrow. As far as I know, Rhondda Cynon Taff is the first local authority threatening to take such drastic action so soon. Can you shed any light on why that is the case?

ysgolion yn Rhondda Cynon Taf yn cau am 3 p.m. yfory. Hyd y gwn, Rhondda Cynon Taf yw'r awdurdod lleol cyntaf i fygwth cymryd camau mor ddifrifol mor fuan. A allwch daflu unrhyw oleuni ar y rheswm dros hynny?

Do you also agree that it is rich to hear David Davies and other Conservatives talk about a crisis in Wales when the Tories, here and in Westminster, have refused to condemn the action of the protesters? One Conservative AM is even taking part in protests in one part of Wales. [CONSERVATIVE ASSEMBLY MEMBERS: 'Peaceful protests'.] Nevertheless, the protests are disrupting Wales considerably and are disrupting the people whom he is meant to represent.

A gytunwch hefyd mai peth hynod yw clywed David Davies a'r Ceidwadwyr eraill yn siarad am yr argyfwng yng Nghymru, pan fo'r Toriaid, yma ac yn San Steffan, wedi gwrthod condemnio'r camau y mae'r protestwyr yn eu cymryd? Mae un o Aelodau Ceidwadol y Cynulliad hyd yn oed yn cymryd rhan yn y protestiadau mewn un rhan o Gymru. [AELODAU CEIDWADOL O'R CYNULLIAD: 'Protestiadau heddychlon'.] Eto i gyd, mae'r protestiadau'n amharu ar Gymru'n ddirfawr ac yn amharu ar y bobl y mae i fod i'w cynrychioli.

The Presiding Officer: Order. I will take points of order following this statement. This is still a statement and not a debate.

Y Llywydd: Trefn. Byddaf yn cymryd pwyntiau o drefn ar ôl y datganiad hwn. Datganiad ydyw o hyd ac nid dadl.

Sue Essex: I return to the issue of school closures. I was surprised to hear Pauline say that schools will be closed tomorrow. I do not have any information that states that that will happen anywhere else. However, this is a fluid situation which changes continuously. When I leave this afternoon I will be updated on the situation and will try to let people know what is happening. The decision about school closures is primarily for local government and it is important that it is made in relation to the circumstances within each authority. It depends on the amount of school transport and on whether teachers can travel to and from the schools. I emphasise the issue of responsibility and ask everyone to unite in asking for peaceful demonstrations, picketing, or whatever you want to call it. We will not discuss the legal niceties at present. It is important that we come together and say that enough is enough and that it must stop. I believe that that was your point.

Sue Essex: Dychwelaf at fater cau ysgolion. Yr oeddwn yn synnu wrth glywed Pauline yn dweud y caiff ysgolion eu cau yfory. Nid oes gennyf unrhyw wybodaeth sydd yn datgan y bydd hynny'n digwydd mewn unrhyw fan arall. Fodd bynnag, mae hon yn sefyllfa gyfnewidiol sydd yn newid yn barhaus. Pan adawaf y prynhawn yma, caf y diweddaraf ar y sefyllfa a byddaf yn ceisio rhoi gwybod i bobl am yr hyn sydd yn digwydd. Llywodraeth leol sydd yn gyfrifol am wneud y penderfyniad i gau'r ysgolion yn y bôn ac mae'n bwysig y caiff ei wneud mewn perthynas â'r amgylchiadau o fewn pob awdurdod. Mae'n dibynnu ar faint o drafnidiaeth sydd i'r ysgol, ac a yw athrawon yn gallu teithio i'r ysgolion ac o'r ysgolion. Pwysleisiaf fater cyfrifoldeb a gofynnaf i bawb ymuno i ofyn am ardystiadau heddychlon, picedu, neu beth bynnag y mynnwch ei alw. Ni thrafodwn y gwahaniaethau cyfreithiol yn awr. Mae'n bwysig ein bod yn dod ynghyd a dweud mai digon yw digon a bod yn rhaid rhoi'r gorau iddo. Credaf mai hwnnw oedd eich pwynt.

Mick Bates: First, I would like to dispel an accusation made earlier by Alun Pugh who said that all farmers use red diesel to drive around. That is nonsense. Her Majesty's Customs and Excise test so many vehicles

Mick Bates: Yn gyntaf, hoffwn ymateb i'r cyhuddiad a wnaethpwyd yn gynharach gan Alun Pugh a ddywedodd fod pob ffermwr yn defnyddio disel coch wrth yrru o amgylch. Mae hynny'n wirion. Mae Tollau Tramor a

that that hardly ever happens.

Chartref Ei Mawrhydi'n profi cymaint o gerbydau fel mai o'r braidd y mae hynny'n digwydd.

I have always approached this issue responsibly and reasonably, I hope. I welcome your reassurances that the services provided throughout Wales will continue and that nobody will suffer as a result of these peaceful demonstrations. However, I find one massive black hole in this Government's strategy and in your statement. Until now we have used the word 'inclusive' on almost every occasion. I find the action of these farmers, taxi drivers and road hauliers to be totally understandable. They have spoken to the Government, with great reason, and have been told that it would listen. I have been in many rooms to hear the debate. I have heard the pleas of many people in an industry to which I belong, and in which people have taken their lives and thousands have had their lives destroyed by this Government's actions. The Government said it will listen but it has never acted. I have seen rural garages close. In your words, in my attempt to seek—

Yr wyf bob amser wedi trafod y mater hwn mewn modd cyfrifol a synhwyrol, gobeithio. Croesawaf eich sicrwydd y bydd y gwasanaethau a ddarperir ledled Cymru yn parhau ac na fydd unrhyw un yn dioddef o ganlyniad i'r ardystiadau heddychlon hyn. Fodd bynnag, canfyddaf fwlch enfawr yn strategaeth y Llywodraeth hon ac yn eich datganiad chithau. Hyd yn hyn yr ydym wedi defnyddio'r gair 'cynhwysol' ar bob achlysur bron. Yr wyf yn llwyr ddeall camau'r ffermwyr, y gyrwyr tacsis a'r cludwyr nwyddau ar y ffordd hyn. Maent wedi siarad â'r Llywodraeth, yn hollol resymol, a dywedwyd wrthynt y byddai'n gwrando. Yr wyf wedi bod mewn llawer o ystafelloedd i wrando ar y ddadl. Yr wyf wedi clywed erfyniadau llawer o bobl yn y diwydiant yr wyf yn aelod ohono, sef diwydiant lle mae llawer wedi lladd eu hunain a lle mae'r Llywodraeth wedi dinistrio miloedd o fywydau drwy'r camau y mae wedi eu cymryd. Dywedodd y Llywodraeth y bydd yn gwrando ond ni weithredodd fyth. Yr wyf wedi gweld garejis yng nghefn gwlad yn cau. Yn eich geiriau chi, wrth geisio—

The Presiding Officer: Order. I need a question. You could have voted for a debate. You did not, so I ask you for a question.

Y Llywydd: Trefn. Mae angen cwestiwn arnaf. Gallech fod wedi pleidleisio dros gynnal dadl. Ni wnaethoch hynny, felly gofynnwch gwestiwn.

Mick Bates: I take exception to that remark and wish you to withdraw it. [*Interruption.*] I was invited to take part in a television programme—

Mick Bates: Yr wyf yn digio wrth y sylw hwnnw a gofynnaf ichi ei dynnu'n ôl. [*Torri ar draws.*] Gofynnwyd imi gymryd rhan mewn rhaglen deledu—

The Presiding Officer: Order. You do not take exception to my remarks in the Chamber when I maintain order. I indicated quite clearly that you were to ask a question.

Y Llywydd: Trefn. Nid ydych yn digio wrth fy sylwadau yn y Siambr pan fyddaf yn cadw trefn. Nodais yn gwbl eglur fod angen ichi ofyn cwestiwn.

Mick Bates: I missed the vote because I was taking part in a television programme. Sue, since you have said that you are seeking solutions, are you prepared, against this backdrop of chaos, to meet with the people, discuss solutions with them and ensure that their needs are eventually answered?

Mick Bates: Collais y bleidlais am fy mod yn cymryd rhan mewn rhaglen deledu. Sue, gan eich bod wedi dweud eich bod yn ceisio atebion, a ydych yn barod, o gofio cefndir y cyfyngder hwn, i gwrdd â phobl, trafod atebion gyda hwy a sicrhau y caiff eu hanghenion eu diwallu yn y pen draw?

Sue Essex: I cannot remember your exact

Sue Essex: Ni allaf gofio'ch geiriau'n union

words but you said that I had given assurances that there would not be any outfalls or problems resulting from this. I cannot give those assurances. I was referring to emergency cover. I said clearly that if the protest continues, I fear that there will be problems. When dealing with this issue, I would like to take it away from emotive discussion where people are polarized. I understand, Mick, that you are talking in good faith here, because you represent farmers and others in your constituency. However, meeting face to face to discuss the current situation is not the right way forward. We must take this out of an emotive situation. We must include the freight haulage association, which is against the blockade. Many people feel strongly about petrol price rises but are not part of this blockade. That is the way forward—talking rationally around the table with local authorities and other key players. That is the avenue that I want us to go down as an Assembly.

ond dywedasoch fy mod wedi rhoi sicrwydd na fyddai unrhyw ganlyniadau neu broblemau'n codi yn sgîl hyn. Ni allaf roi sicrwydd o'r fath. Cyfeirio yr oeddwn at ddarpariaeth frys. Dywedais yn eglur fy mod yn ofni y byddai problemau pe bai'r brotest yn parhau. Wrth drafod y mater hwn, hoffwn ei symud oddi wrth drafodaeth emosiynol lle mae pobl wedi eu rhannu'n garfanau. Deallaf, Mick, eich bod yn siarad yma yn ddiffuant, am eich bod yn cynrychioli ffermwyr a phobl yn eich etholaeth. Fodd bynnag, nid cyfarfodydd wyneb yn wyneb i drafod y sefyllfa bresennol yw'r ffordd gywir ymlaen. Rhaid inni symud hyn o sefyllfa emosiynol. Rhaid inni gynnwys y gymdeithas cludo nwyddau ar y ffordd, sydd yn gwrthwynebu'r blocâd. Mae llawer o bobl yn teimlo'n gryf ynglŷn â'r cynnydd ym mhris petrol ond nid ydynt yn cymryd rhan y blocâd hwn. Dyna'r ffordd ymlaen—trafod yn synhwyrol o amgylch y bwrdd gyda'r awdurdodau lleol a phobl allweddol eraill. Dyna'r llwybr yr wyf am inni fel Cynulliad ei ddilyn.

Rhodri Glyn Thomas: It has been a strange experience this afternoon to listen to Labour Party Members condemning peaceful protest and Conservative Members supporting peaceful protest. Many comparisons have been made to the miners' strike. Some of us not only remember the miners' strike; we remember on which side we were. We had our doubts about some people at that time as well.

Rhodri Glyn Thomas: Bu'n brofiad rhyfedd y prynhawn yma i wrando ar Aelodau o'r Blaid Lafur yn condemnio protestio'n heddychlon ac Aelodau Ceidwadol yn cefnogi prostestio'n heddychlon. Tynnwyd nifer o gymariaethau gyda streic y glowyr. Mae rhai ohonom nid yn unig yn cofio streic y glowyr ond yn cofio ym mha garfan yr oeddem. Yr oedd amheuon gennym am rai pobl bryd hynny yn ogystal.

Strong leadership has been mentioned, referring to the miners' strike and how the Thatcher Government dealt with it. Labour Party Members say that we must have strong Government to deal with the blockade. Does Sue agree that what is needed, and what the people of Wales are looking for at the moment, is strong leadership from the Government of Wales? They want it, not to deal with the consequences of a crisis, but to deal with the symptoms of a crisis. When it does that, then perhaps the people of Wales will respond positively to its actions.

Crybwyllwyd arweinyddiaeth gryf, gan gyfeirio at streic y glowyr a sut yr oedd Llywodraeth Thatcher wedi ymdrin â hi. Mae Aelodau o'r Blaid Lafur yn dweud bod yn rhaid inni gael Llywodraeth gryf i ymdrin â'r blocâd. A yw Sue'n cytuno mai'r hyn sydd ei angen, a'r hyn y mae pobl Cymru am ei gael ar hyn o bryd, yw arweinyddiaeth gryf gan Lywodraeth Cymru? Nid ydynt am iddi ymdrin â chanlyniadau argyfwng ond ymdrin â symptomau argyfwng. Pan fydd yn gwneud hynny, yna efallai y bydd pobl Cymru yn ymateb yn gadarnhaol i'r camau y mae'n eu cymryd.

Sue Essex: I saw what happened in the miners' strike and I do not ever want Margaret Thatcher to become a symbol of strong leadership. Her leadership was

Sue Essex: Gwelais yr hyn a ddigwyddodd yn ystod streic y glowyr ac nid wyf am i Margaret Thatcher fyth ddod yn symbol o arweinyddiaeth gryf. Yr oedd ei

abhorrent to me, as I am sure it was to most people. You must be careful how you interpret the word 'leadership'. Leadership is often working with and listening to others.

harweinyddiaeth yn wrthun i mi, fel yr oedd i drwch y boblogaeth mae'n siŵr. Rhaid ichi fod yn ofalus wrth ddehongli'r gair 'arweinyddiaeth'. Mae arweinyddiaeth yn aml yn golygu gweithio gyda phobl eraill a gwrando arnynt.

I have stated carefully this afternoon what I feel is the way forward. It is important, in terms of the Welsh public as a whole and for everyone who is suffering inconvenience, perhaps hardship and perhaps considerable worry and fear, that we are seen today to be addressing the operational aspects of dealing with this crisis. We do not have the luxury at the moment of having a long-term debate about many issues that we cannot control. That is why I made this statement and why I am establishing the communication centre set up. It is working to deal with the situation. I hope that that is the message that will reach the people who are preventing the great change and move forward from happening on the ground. That is the most important message that I have to convey.

Yr wyf wedi datgan yn eglur y prynhawn yma beth yw'r ffordd ymlaen, yn fy marn i. Mae'n bwysig, o ran y cyhoedd yng Nghymru yn gyffredinol ac i bawb sydd wedi cael anhawster, efallai caledi ac efallai wedi teimlo cryn bryder a gofid, y gwelir ein bod yn mynd i'r afael â'r agweddau gweithredol ar ymdrin â'r argyfwng hwn heddiw. Nid ydym mor ffodus ar hyn o bryd â chael dadl dymor hir ynglŷn â'r materion lu na allwn eu rheoli. Dyna'r rheswm pam y gwneuthum y datganiad hwn a pham yr wyf wedi sefydlu canolfan gyfathrebu. Mae wrthi'n ymdrin â'r sefyllfa. Gobeithiaf mai hon yw'r neges a fydd yn cyrraedd y bobl sydd yn atal y newid mawr a'r symudiad ymlaen rhag digwydd ar lawr gwlad. Hon yw'r neges bwysicaf sydd gennyf i'w chyfleu.

Alun Cairns: Thank you for your statement, and for the gravitas with which you answered the earlier questions.

Alun Cairns: Diolch am eich datganiad, a'ch urddas wrth ateb y cwestiynau cynharach.

What communications and discussions have you had with the First Secretary on this cross-cutting matter? What leadership has the First Secretary shown—we talked about leadership earlier—or has he chosen to bury his head in the sand, given that he has been absent for the vast majority of this discussion?

Pa gysylltiadau a thrafodaethau a gawsoch gyda'r Prif Ysgrifennydd ar y mater trawsbynciol hwn? Pa arweinyddiaeth y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi ei dangos—yr oeddem yn trafod arweinyddiaeth yn gynharach—neu a yw wedi dewis claddu ei ben yn y tywod, o ystyried nad yw wedi bod yn bresennol am y rhan fwyaf o'r ddadl hon?

The First Secretary: What?

Y Prif Ysgrifennydd: Beth?

Alun Cairns: Oh, you are back.

Alun Cairns: O, yr ydych wedi dod yn ôl.

Furthermore, would you agree, Sue, that combating poverty and social exclusion is a key priority of the National Assembly, and the impact that this crisis is having on the economy is critical in alleviating those conditions? [*Interruption.*]

At hynny, a fyddech yn cytuno, Sue, mai un o flaenoriaethau allweddol y Cynulliad Cenedlaethol yw mynd i'r afael â thlodi ac eithrio cymdeithasol, a bod yr effaith y mae'r argyfwng hwn yn ei gael ar yr economi yn holl bwysig wrth liniaru'r amodau hynny? [*Torri ar draws.*]

Point of order, Llywydd. [*Interruption.*]

Pwynt o drefn, Lywydd. [*Torri ar draws.*]

The Presiding Officer: Order. I will take any points of order at the end of the

Y Llywydd: Trefn. Byddaf yn cymryd unrhyw bwyntiau o drefn ar ddiwedd y

statement. Please continue your question, Alun. Could we have a little more quiet for the reply?

datganiad. Parhewch â'ch cwestiwn, os gwelwch yn dda, Alun. A gawn ychydig mwy o dawelwch ar gyfer yr ateb?

Alun Cairns: Do you accept that there is a distinct difference between the peaceful protests on this occasion compared with the violent pickets evident during the miners' strike some years ago? Finally, I will repeat a question that you failed to answer earlier: do you, the First Secretary, and the Cabinet disassociate yourselves from the comments made by Jeff Jones, the leader of Bridgend County Borough Council, when he likened the peaceful protesters this morning to the fascists who voted for Hitler prior to the Second World War?

Alun Cairns: A ydych yn derbyn bod gwahaniaeth pendant rhwng protestiadau heddychlon ar yr achlysur hwn o'u cymharu â'r picedu treisgar a oedd yn amlwg yn ystod streic y glowyr ychydig flynyddoedd yn ôl? Yn olaf, ailadroddaf gwestiwn y methasoch â'i ateb yn gynharach: a ydych chi, y Prif Ysgrifennydd, a'r Cabinet yn ymddatgysylltu o sylwadau Jeff Jones, arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, pan dynnodd gymhariaeth y bore yma rhwng y protestwyr heddychlon a'r ffasgiaid a bleidleisiodd dros Hitler cyn yr Ail Ryfel Byd?

Sue Essex: I am not sure whether 'gravitas' is meant as a compliment or as an insult. I will take it as a compliment. I am sure that is what you meant. Gravitas is appropriate in the circumstances. As for Rhodri burying his head in the sand, I would have thought that that was physically impossible.

Sue Essex: Nid wyf yn siŵr ai canmoliaeth neu watwar sydd ynghlwm wrth y gair 'urddas'. Fe'i derbyniaf fel canmoliaeth. Yr wyf yn siŵr mai hynny yr oeddech yn ei feddwl. Mae urddas yn addas o dan yr amgylchiadau. Yr oeddech yn sôn am Rhodri yn claddu ei ben yn y tywod, credaf y byddai hynny'n amhosibl iddo ei wneud yn gorfforol.

I stress again that we work as a team here. A range of interests are involved in this issue. I stressed the issue of economy; nobody wants to see businesses not working. This is serious for Wales, for people's jobs and the success of small and medium-sized enterprises. We have had endless debates about creating SMEs. We do not want to put the ones that we have at risk nor do we want to see people on low wages and in a difficult situation as regards poverty, at risk. That is the thrust of this afternoon's statement. We want this action to stop as it is in danger of promoting and escalating what we do not want to happen.

Pwysleisiaf unwaith eto mai gweithio fel tîm yr ydym yma. Mae nifer o ddiddordebau ynghlwm wrth y mater hwn. Pwysleisiais pa mor bwyisg oedd yr economi; nid oes neb am weld busnesau'n segur. Mae hyn o bwys i Gymru, i swyddi pobl ac i lwyddiant mentrau bach a chanolig eu maint. Yr ydym wedi cael dadleuon dirif ynglŷn â chreu mentrau bach a chanolig eu maint. Nid ydym am beryglu'r rhai sydd gennym na pheryglu pobl ar gyflogau isel ac sydd mewn sefyllfa anodd o ran cyni. Dyna fyrdwn y datganiad y prynhawn yma. Yr ydym am i'r camau hyn stopio gan eu bod mewn perygl o hyrwyddo a gwaethygu'r hyn nad ydym am iddo ddigwydd.

I will not comment on Jeff Jones, as I do not know what he said, and I will not respond on the basis of what you said. However, comments have been made about the miners' strike and about farmers. We represent the whole of Wales. The Assembly is for all Welsh people. I have listened to many people talk about the rural versus the urban. That is not how I want us to progress. We want to

Ni chynigiaf sylwadau ar Jeff Jones, gan nad wyf yn gwybod beth a ddywedodd, ac nid ymatebaf ar sail yr hyn a ddywedasoch. Fodd bynnag, gwnaethpwyd sylwadau ynglŷn â streic y glowyr ac ynglŷn â ffermwyr. Yr ydym yn cynrychioli Cymru gyfan. Cynulliad i holl bobl Cymru ydyw. Yr wyf wedi gwrando ar lawer o bobl yn siarad am y wlad yn erbyn y dref. Nid felly yr wyf am inni

improve the conditions for everyone in Wales, regardless of where they live or their background. That must be the thrust of our policy. By being united we will win through. However, if we are divided, and keep referring to divisions, we will have problems. We must emphasise that we are here to look after everyone and to ensure that no-one in urgent need suffers during this current emergency.

symud ymlaen. Yr ydym am wella amodau i bawb yng Nghymru, waeth beth fo'u cefndir neu ble bynnag y maent yn byw. Mae'n rhaid mai hwnnw yw byrdwn ein polisi. Drwy undod y byddwn yn llwyddo. Fodd bynnag, os ydym yn rhanedig ac yn parhau i gyfeirio at holltiadau, bydd gennym broblemau. Rhaid inni bwysleisio ein bod yma i ofalu am bawb a sicrhau na fydd neb mewn angen brys yn dioddef yn ystod yr argyfwng presennol.

Richard Edwards: Will you comment on the irony of the fact that the representatives of the party that outlawed secondary picketing are now actively engaged in it?

Richards Edwards: A wnewch roi sylwadau ar ba mor eironig ydyw bod cynrychiolwyr o'r blaid a oedd wedi gwahardd picedu eilaidd bellach yn ei arddel eu hunain?

Sue Essex: Many commentators have alluded to that. People can draw their own conclusions. I have heard this afternoon our Conservative colleagues' concerns about the fact that people felt frustrated and that they had to make a point. That extends to a whole range of others who, in their time, have felt disenfranchised and unable to make their points heard. We have an Assembly, and one of its great advantages is that it gives us the ability to make these democratic points which we were unable to make in the past.

Sue Essex: Mae llawer o sylwebwyr wedi cyfeirio at hynny. Caiff pobl ddod i'w casgliadau eu hunain. Yr wyf wedi clywed y prynhawn yma bod ein cyd-Aelodau Ceidwadol yn pryderu ynghylch y ffaith bod pobl yn teimlo rhwystredigaeth a bod yn rhaid iddynt ddangos hynny. Mae hynny'n ymestyn i ystod eang o bobl eraill sydd, o bryd i'w gilydd, wedi teimlo'n ddifreintiedig ac yn methu â chael neb i wrando arnynt. Mae gennym Gynulliad, ac un o'i brif fanteision yw ei fod yn ein galluogi i wneud y pwyntiau democrataidd hyn lle nad oeddem yn gallu gwneud hynny yn y gorffennol.

4:10 p.m.

Pwyntiau o Drefn
Points of Order

Nick Bourne: My point of order relates to a comment made by Lynne Neagle. Is it not out of order to criticise an Assembly Member for acting legally and peacefully on a picket line, particularly when he has stressed that he will only ever act legally and peacefully and has been calming others on that picket line? Her comment only inflames the situation.

Nick Bourne: Mae fy mhwynt o drefn yn ymwneud â sylw a wnaethpwyd gan Lynne Neagle. Onid yw allan o drefn i feirniadu Aelod o'r Cynulliad am weithredu'n gyfreithlon ac yn heddychlon ar linell biced, yn arbennig ar ôl iddo bwysleisio mai dim ond yn gyfreithlon ac yn heddychlon y bydd yn gweithredu a'i fod wedi bod yn tawelu eraill ar y llinell biced honno? Dim ond gwaethygu'r sefyllfa a wna ei sylw.

Is it not in order also for Lynne Neagle to get her line straight with her leader, Rhodri Morgan—although he has not taken the lead today—who stressed the right of people to democratic protest repeatedly on Saturday and said that it is right? Perhaps Lynne Neagle would like to refer to her leader for a lead on that. However, is it not out of order to

Oni ddylai Lynne Neagle hefyd lynu at yr un farn â'i harweinydd, Rhodri Morgan—er nad yw wedi cymryd yr awennau heddiw—a bwysleisiodd hawl pobl i brotest ddemocrataidd dro ar ôl tro ddydd Sadwrn gan nodi ei fod yn cytuno? Efallai yr hoffai Lynne Neagle gyfeirio at ei harweinydd i gael arweiniad yn hyn o beth. Fodd bynnag,

name Assembly Members when they have always stressed that people should act legally in this form of protest?

onid yw allan o drefn i enwi Aelodau o'r Cynulliad ar ôl iddynt bwysleisio'n gyson y dylai pobl weithredu'n gyfreithlon yn y math hwn o brotest?

Alun Pugh: Further to that point of order, Lynne Neagle was correct. The reason why bins have not been emptied, that schools are closing and that operations are being cancelled, is because people like Peter Rogers are laying siege to the refineries.

Alun Pugh: Ymhellach i'r pwynt hwnnw o drefn, yr oedd Lynne Neagle yn iawn. Y rheswm pam nad yw biniau sbwriel wedi'u gwagio, bod ysgolion yn cau a bod llawdriniaethau yn cael eu canslo, yw am fod pobl fel Peter Rogers yn gosod blocâd ar y purfeydd.

The Presiding Officer: You will know from our previous discussions that I am anxious to ensure that criticism and debate in this Chamber is within the rules of order and courtesy. My understanding of what was said was that it was a criticism and not an accusation against a Member. I allowed Peter Rogers to respond, which he did robustly.

Y Llywydd: Fe wyddoch o'n trafodaethau blaenorol fy mod yn awyddus i sicrhau bod unrhyw feirniadaeth a thrafodaeth o fewn y Siambr hon o fewn rheolau trefn a chwrteisi. Fy nealltwriaeth o'r hyn a ddywedwyd yw mai beirniadaeth ydoedd yn hytrach na chyhuddiad yn erbyn Aelod. Rhoddais ganiatâd i Peter Rogers ymateb, a gwnaeth hynny'n gadarn.

Nick Bourne: The comment was made after Peter Rogers's response.

Nick Bourne: Gwnaethpwyd y sylw ar ôl ymateb Peter Rogers.

The Presiding Officer: In which case, if Peter Rogers wishes to comment further on this point of order, I invite him to do so now.

Y Llywydd: Os felly, pe hoffai Peter Rogers gyflwyno sylwadau pellach ar y pwynt hwn o drefn, gwahoddaf ef i wneud hynny yn awr.

Peter Rogers: Alun Pugh keeps shouting my name in the background and I think that that is discourteous. I have been to the pickets and have spoken to protesters, and I understand the problems. I am proud that I have been there to speak to them, but I will certainly not act illegally.

Peter Rogers: Mae Alan Pugh yn gweiddi fy enw yn y cefndir yn gyson a chredaf fod hynny yn anghwrtais. Yr wyf wedi bod i'r llinellau piced ac wedi siarad â'r protestwyr, ac yr wyf yn deall y problemau. Yr wyf yn falch fy mod wedi bod yno i siarad â hwy, ond yn bendant ni fyddaf yn gweithredu'n anghyfreithlon.

Alun Cairns: Point of order. I raise this under the Standing Order that relates to conduct in the Chamber. Will you give a ruling on the language used by the First Secretary during my questions to Sue Essex?

Alun Cairns: Pwynt o drefn. Yr wyf yn codi hyn o dan y Rheol Sefydlog sydd yn ymwneud ag ymddygiad yn y Siambr. A fyddech cystal â rhoi dyfarniad ar yr iaith a ddefnyddiwyd gan y Prif Ysgrifennydd yn ystod fy nghwestiynau i Sue Essex?

The Presiding Officer: The First Secretary made no statement and no intervention at that point. I heard mutterings, but I heard no more from the direction of the First Secretary than from other directions in the Chamber. Anything said in this Chamber must be in the form of an intervention or a statement to be on the record. Otherwise statements are not considered to have been made. We have

Y Llywydd: Ni wnaeth y Prif Ysgrifennydd unrhyw ddatganiad nag ymyriad bryd hynny. Clywais fwmian, ond dim mwy o gyfeiriad y Prif Ysgrifennydd nag o gyfeiriadau eraill yn y Siambr. Rhaid i unrhyw beth a gaiff ei ddweud yn y Siambr hon fod ar ffurf ymyriad neu ddatganiad i'w gofnodi. Fel arall nid ystyrir i ddatganiad gael ei wneud. Mae gennym gyfarpar soffistigedig ar gyfer

sophisticated equipment for recording, broadcasting and translating. If Members mutter from a sedentary position, as they used to say in Westminster—they may still do so—those kinds of remarks are not recorded, and anything that is said which is not recorded cannot be in order. I did not hear any remarks that were out of order and the First Secretary does not seem to wish to respond to this point of order, therefore, presumably he did not say anything.

The First Secretary: Further to that point of order, the difficulty is that when somebody makes a non-factual report because they are unable to count but want to make a personal accusation, for example, that I was not present for the majority of this afternoon's discussion on fuel emergency when I was, they believe that by putting it on record during a question they can then say that the accusation was not challenged and thus proves the First Secretary was not present for the majority of the discussion. Given the Member's difficulty with numeracy, he thinks that he can get away with it. Unfortunately, he cannot get away with it because he must learn to count before he makes accusations of that kind. When he learns to count, there will be no sedentary mutterings from me or—I am sure—from any other member of the Cabinet.

Alun Cairns: Further to that point of order, if I mislead the Assembly earlier, I correct myself and say that the First Secretary was missing for a substantial time.

Jenny Randerson: Point of order. It might be helpful if you were to remind certain Members that they should declare interests before making speeches that relate to other roles that they have outside this Chamber.

The Presiding Officer: It is a serious matter if an interest is not declared. Is this a reference to any particular Member?

recordio, darlledu a chyfieithu. Os bydd Aelodau yn mwmian pan fyddant ar eu heistedd, fel yr arferent ei ddweud yn San Steffan—efallai eu bod yn gwneud hynny o hyd—ni chofnodir y mathau hynny o sylwadau, ac ni all unrhyw beth nas cofnodir fod mewn trefn. Ni chlywais unrhyw sylwadau a oedd allan o drefn ac nid ymddengys fod y Prif Ysgrifennydd am ymateb i'r pwynt hwn o drefn, felly, tybiaf na ddywedodd unrhyw beth.

Y Prif Ysgrifennydd: Ymhellach i'r pwynt hwnnw o drefn, yr anhawster yw pan fydd rhywun yn cyflwyno adroddiad anffeithiol am na allant gyfrif ond eu bod am wneud cyhuddiad personol, er enghraifft, nad oeddwn i'n bresennol am fwyafrif trafodaeth y prynhawn yma ar yr argyfwng tanwydd pan oeddwn yn bresennol, maent o'r farn drwy ei roi ar gofnod yn ystod cwestiwn y gallant wedyn ddweud na heriwyd y cyhuddiad a thrwy hynny brofi nad oedd y Prif Ysgrifennydd yn bresennol ar gyfer mwyafrif y drafodaeth. O gofio anhawster yr Aelod gyda rhifedd, mae'n credu y rhoddir rhwydd hynt iddo wneud hyn. Yn anffodus, ni all wneud hyn gan fod yn rhaid iddo ddysgu cyfrif cyn gwneud cyhuddiadau o'r fath. Ar ôl iddo ddysgu cyfrif, ni cheir unrhyw fwmian o'm heistedd gennyf i nac—mae'n siŵr gennyf—gan unrhyw aelod arall o'r Cabinet.

Alun Cairns: Ymhellach i'r pwynt hwnnw o drefn, os cafodd y Cynulliad ei gamarwain gennyf yn gynharach, hoffwn gywiro fy hun a nodi y bu'r Prif Ysgrifennydd yn absennol am gyfnod sylweddol o amser.

Jenny Randerson: Pwynt o drefn. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi atgoffa ambell Aelod y dylent ddatgan diddordebau cyn gwneud areithiau sydd yn ymwneud â swyddogaethau eraill sydd ganddynt y tu allan i'r Siambr hon.

Y Llywydd: Mae'n fater difrifol os na chaiff diddordeb ei ddatgan. A ydych yn cyfeirio at unrhyw Aelod yn benodol?

Jenny Randerson: There were several people in this debate who talked about aspects of life in which they clearly have an interest other than—

Jenny Randerson: Bu sawl person yn y drafodaeth hon yn sôn am agweddau ar fywyd y mae'n amlwg bod ganddynt ddiddordeb ynddynt ar wahân i—

The Presiding Officer: I assume that all interests were declared. If not, I now give an opportunity for any Member who did not declare an interest to do so.

Y Llywydd: Tybiaf y datganwyd yr holl ddiddordebau. Os na wnaethpwyd, rhoddaf gyfle yn awr i unrhyw Aelod na ddatganodd ddiddordeb i wneud hynny.

Peter Rogers: I declare an interest. I am a farmer and a member of Farmers for Action.

Peter Rogers: Hoffwn ddatgan diddordeb. Yr wyf yn ffermwr ac yn aelod o Ffermwyr dros Weithredu.

Alun Cairns: I assume we are all car drivers. Should we not all declare an interest?

Alun Cairns: Tybiaf ein bod oll yn gyrru ceir. Oni ddylem oll ddatgan diddordeb?

The Presiding Officer: Order. Interest relates specifically to the raising of issues relevant to a debate, not a general interest. It is, as you well know, an interest relating to the register of Members' interests and to activity relating to a particular debate.

Y Llywydd: Trefn. Mae diddordeb yn ymwneud yn benodol â chodi materion sydd yn berthnasol i drafodaeth, nid diddordeb cyffredinol. Fel y gwyddoch, yr ydym yn sôn am ddiddordeb sydd yn ymwneud â chofrestr diddordebau'r Aelodau ac â gweithgaredd sydd yn ymwneud â thrafodaeth benodol.

Jocelyn Davies: Are Members expected to declare an interest when they are only asking a question on a statement? I remind you that no one made a speech this afternoon. They only asked questions in response to a statement. There was no debate.

Jocelyn Davies: A oes disgwyl i'r Aelodau ddatgan diddordeb pan fyddant ond yn gofyn cwestiwn ar ddatganiad? Hoffwn eich atgoffa na wnaeth unrhyw un araith y prynhawn yma. Dim ond gofyn cwestiynau mewn ymateb i ddatganiad a wnaethpwyd. Ni chafwyd trafodaeth.

The Presiding Officer: It is appropriate to declare an interest when asking a question if that question is directly relevant to a registration that the Member has made. The clerk is checking this and I will take advice accordingly and respond.

Y Llywydd: Mae'n briodol datgan diddordeb wrth ofyn cwestiwn os yw'r cwestiwn hwnnw yn uniongyrchol berthnasol i gofrestriad a wnaethpwyd gan yr Aelod. Mae'r clerc yn ymchwilio i hyn a byddaf yn cymryd cyngor yn unol â hyn ac yn ymateb.

David Davies: Am I correct in thinking that I have no need to declare an interest if I do not receive money from a family business? I declare that they run a transport company, but I do not receive a salary from it.

David Davies: A wyf yn iawn wrth feddwl nad oes angen i mi ddatgan diddordeb os nad wyf yn derbyn arian o fusnes teuluol? Yr wyf yn datgan eu bod yn rhedeg cwmni cludiant, ond nid wyf yn derbyn cyflog o'r cwmni hwnnw.

The Presiding Officer: If you have registered an interest in the register of Members' interests, which is relevant to the debate, then a declaration of interest should be made.

Y Llywydd: Os ydych wedi cofrestru diddordeb yn y gofrestr o ddiddordebau'r Aelodau, sydd yn berthnasol i'r drafodaeth, yna dylid datgan diddordeb.

Datganiad Busnes
Business Statement

The Business Secretary (Andrew Davies): This is the business statement for the next three weeks. Business on Tuesday 10 October will include a motion to approve the changes to Standing Orders to reflect the position or independence of the Presiding Officer and his office and a debate on budgetary adjustments. On Thursday 12 October business will include a debate on library policy in Wales. On Tuesday 17 October there will be an opposition day, with a debate nominated by Plaid Cymru and a debate nominated by the Liberal Democrats. Business on Thursday 19 October will include a debate on the local government spending assessment formula and a motion to approve the local government commencement Order. On October 24 there will be a debate proposed by the Conservative Party and a debate on the Care Standards Act 2000. This debate offers Members the opportunity to discuss new primary legislation, which will give the National Assembly new statutory duties to regulate social and health care in Wales. On Wednesday 26 October business will include a motion to approve the Home Energy Efficiency Scheme (Wales) Regulations 2000, a motion to note the draft budget and a debate on the annual report of the Welsh administration ombudsman. I will arrange for this statement to be available on the intranet and internet today.

Y Trefnydd (Andrew Davies): Cyflwynaf y datganiad busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf. Bydd busnes ddydd Mawrth 10 Hydref yn cynnwys cynnig i gymeradwyo'r newidiadau i'r Rheolau Sefydlog i adlewyrchu sefyllfa neu annibyniaeth y Llywydd a'i swyddfa a dadl ar addasiadau cyllidebol. Bydd busnes ddydd Iau 12 Hydref yn cynnwys dadl ar bolisi llyfrgelloedd yng Nghymru. Ddydd Mawrth 17 Hydref cynhelir diwrnod i'r gwrthbleidiau, gyda thrafodaeth wedi'i henwebu gan Blaid Cymru a dadl wedi'i henwebu gan y Democratiaid Rhyddfrydol. Bydd busnes ddydd Iau 19 Hydref yn cynnwys dadl ar fformwla asesu gwariant llywodraeth leol a chynnig i gymeradwyo Gorchymyn dechrau llywodraeth leol. Ar Hydref 24 cynhelir dadl a gynigiwyd gan y Blaid Geidwadol a dadl ar Ddeddf Safonau Gofal 2000. Bydd y ddadl hon yn cynnig cyfle i Aelodau drafod deddfwriaeth sylfaenol newydd a fydd yn rhoi dyletswyddau statudol newydd i'r Cynulliad Cenedlaethol i reoleiddio gofal cymdeithasol ac iechyd yng Nghymru. Ddydd Mercher 26 Hydref bydd busnes yn cynnwys cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref yn y (Cymru) 2000, cynnig i nodi'r gyllideb ddrafft a dadl ar adroddiad blynyddol ombwdsmon gweinyddiaeth Cymru. Byddaf yn trefnu i'r datganiad hwn fod ar gael ar y fewnrwyd a'r rhyngrwyd heddiw.

Derbyniwyd y datganiad busnes.
Business statement adopted.

4:20 p.m.

Cynnig Trefniadol
Procedural Motion

The Presiding Officer: I now call the Business Secretary to propose a procedural motion.

Y Llywydd: Galwaf yn awr ar y Trefnydd i gyflwyno cynnig trefniadol.

The Business Secretary (Andrew Davies): I propose that

Y Trefnydd (Andrew Davies): Cynigiaf fod

the Assembly allows me to propose the

y Cynulliad yn caniatáu i mi gyflwyno

motions on the establishment of a Children's Commissioner Appointment Advisory Committee and the election of members to the Children's Commissioner Appointment Advisory Committee as laid out on the agenda.

cynigion ar sefydlu Pwyllgor Ymgynghorol Penodi Comisiynydd Plant ac ethol aelodau i'r Pwyllgor Ymgynghorol Penodi Comisiynydd Plant fel y nodir ar yr agenda.

The supporting paper referred to in the first motion has been re-tabled and therefore falls outside the five-day rule. A new motion was tabled today on the membership of the Children's Commissioner Appointment Advisory Committee. I therefore seek the Assembly's approval to proceed with this business.

Mae'r papur ategol y cyfeirir ato yn y cynnig cyntaf wedi'i ailgyflwyno ac felly mae'n syrthio y tu allan i'r rheol pum diwrnod. Cyflwynwyd cynnig newydd heddiw ar aelodaeth y Pwyllgor Ymgynghorol Penodi Comisiynydd Plant. Felly gofynnaf am gymeradwyaeth y Cynulliad i fwrw ymlaen â'r busnes hwn.

Cynnig: O blaid 53, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion: For 53, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Black, Peter
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
Feld, Val
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Middlehurst, Tom
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri

Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty
Williams, Phil

Derbyniwyd y cynnig.
Motion adopted.

Sefydlu Pwyllgor Ymgynghorol Penodi Comisiynydd Plant
Establishment of Children's Commissioner Appointment Advisory Committee

The Business Secretary (Andrew Davies): I propose that

the National Assembly establish a committee under Standing Order No. 8.1 to advise the Assembly on the appointment of the Children's Commissioner for Wales. The title of the committee shall be the Children's Commissioner Appointment Advisory Committee. Membership of the committee shall comprise five Assembly Members one each from the Labour Party, Plaid Cymru, the Conservative Party and the Liberal Democrats Party. Jane Hutt, the Assembly Secretary for Health and Social Services will chair the Committee.

Details of the terms of reference for the committee were laid in the Table Office on 5 September 2000. A corrected version was laid on 12 September.

Y Trefnydd (Andrew Davies): Cynigiaf fod

y Cynulliad Cenedlaethol yn sefydlu pwyllgor yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 8.1 i gynghori'r Cynulliad ar benodi Comisiynydd Plant i Gymru. Enw'r pwyllgor fydd Pwyllgor Ymgynghorol Penodi Comisiynydd Plant. Bydd pump o Aelodau'r Cynulliad yn aelodau o'r pwyllgor, un o'r Blaid Lafur, un o Blaid Cymru, un o'r Blaid Geidwadol ac un o blaid y Democratiaid Rhyddfrydol. Jane Hutt, Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cynulliad fydd Cadeirydd y Pwyllgor.

Gosodwyd manylion ynghylch cylch gorchwyl y Pwyllgor yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Medi 2000. Gosodwyd fersiwn gywir ar 12 Medi.

Cynnig: O blaid 54, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion: For 54, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Black, Peter
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Dafis, Cynog
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Janet

Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
Feld, Val
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Middlehurst, Tom
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty
Williams, Phil

Derbyniwyd y cynnig.
Motion adopted.

Ethol Aelodau i'r Pwyllgor Ymgynghorol Penodi Comisiynydd Plant
Election of Members to the Children's Commissioner Appointment Advisory Committee

The Business Secretary (Andrew Davies): I propose that

the National Assembly under Standing Order No. 8.4 elects the following Assembly Members to the Children's Commissioner Appointment Advisory Committee:

Lorraine Barrett, Helen Mary Jones, David Melding, Kirsty Williams and Jane Hutt, the Assembly Secretary for Health and Social Services, who will chair the Committee.

Y Trefnydd (Andrew Davies): Cynigiaf fod

y Cynulliad Cenedlaethol o dan Reol Sefydlog Rhif 8.4 yn ethol Aelodau canlynol y Cynulliad ar y Pwyllgor Ymgynghorol Penodi Comisiynydd Plant:

Lorraine Barrett, Helen Mary Jones, David Melding, Kirsty Williams a Jane Hutt, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a fydd yn cadeirio'r Pwyllgor.

Cynnig: O blaid 54, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion: For 54, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Black, Peter
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Dafis, Cynog
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
Feld, Val
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Middlehurst, Tom
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty
Williams, Phil

Derbyniwyd y cynnig.
Motion adopted.

Dirprwyo Swyddogaethau
Delegation of Functions

The Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Mike German.

Y Llywydd: Yr wyf wedi dewis gwelliant 1 yn enw Mike German.

The Business Secretary (Andrew Davies): I propose that

Y Trefnydd (Andrew Davies): Cynigiaf fod

the National Assembly, acting under section 62(1)(b) of the Government of Wales Act 1998, resolves to delegate all the functions of the National Assembly contained in the Care Standards Act 2000; the Carers and Disabled Children Act 2000; the Government Resources and Accounts Act 2000; the Learning and Skills Act 2000; the Local Government Act 2000; and the Electronic Communications Act 2000; to the Assembly First Secretary, save those which by law cannot be so delegated.

y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol ag adran 62(1)(b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo holl weithrediadau'r Cynulliad Cenedlaethol sydd wedi eu cynnwys yn Neddf Safonau Gofal 2000; Deddf Cynhalwyr a Phlant Anabl 2000; Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000; Deddf Dysgu a Sgiliau 2000; Deddf Llywodraeth Leol 2000 a Deddf Cyfathrebu Electronig 2000; i Brif Ysgrifennydd y Cynulliad, ac eithrio'r rheini na ellir eu dirprwyo yn ôl y gyfraith.

The purpose of this motion is to seek your agreement to the functions contained in the Care Standards Act 2000, the Carers and Disabled Children Act 2000, the Government Resources and Accounts Act 2000, the Learning and Skills Act 2000, the Local Government Act 2000, and the Electronic Communications Act 2000 being delegated to the First Secretary. This delegation will be made in the knowledge that those functions will be further delegated to the appropriate Assembly Secretaries and, where appropriate, to staff and officials.

Pwrpas y cynnig hwn yw cael eich cytundeb i'r swyddogaethau a gynhwysir yn Neddf Safonau Gofal 2000, Deddf Cynhalwyr a Phlant Anabl 2000, Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, Deddf Llywodraeth Leol 2000, a Deddf Cyfathrebu Electronig 2000 sydd yn cael eu dirprwyo i'r Prif Ysgrifennydd. Gwneir y ddirprwyaeth hon gan wybod y caiff y swyddogaethau hynny eu dirprwyo ymhellach i'r Ysgrifenyddion Cynulliad priodol a lle y bo'n briodol, i staff a swyddogion.

Mike German's amendment 1 seeks to restate the pre-eminence of the authority of the full Assembly and the Committee's roles. My colleagues and I recognise the pre-eminence of the full Assembly and the key roles of the Committees in the development of the Assembly's policies. However, these are enshrined in Section 65 (8) of the Government of Wales Act 1998 and Standing Order No. 9.7, therefore I am content to support the amendment.

Mae gwelliant Mike German yn ceisio ailddtagan goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn a rôl y Pwyllgorau. Yr wyf fi a'm cydweithwyr yn cydnabod goruchafiaeth y Cynulliad llawn a rolau allweddol y Pwyllgorau o ran datblygu polisïau'r Cynulliad. Fodd bynnag, ymgorfforir y rhain yn Adran 65 (8) Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog Rhif 9.7, felly yr wyf yn fodlon cefnogi'r gwelliant.

Michael German: I propose amendment 1. Add at the end of the motion:

Michael German: Cynigiaf welliant 1. Ychwaneger ar ddiwedd y cynnig:

Nothing in this resolution will have the effect of either reducing the pre-eminence of the authority of the full Assembly, or reducing the role of Assembly Committees in reviewing

Ni fydd unrhyw ran o'r penderfyniad hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn, nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth adolygu effeithiolrwydd

the effectiveness of policies and in developing new policies, as described in Standing Order No. 9.7(i), in contributing to the development of the Assembly's policies.

polisïau a datblygu polisïau newydd, yn unol â'r disgrifiad a geir yn Rheol Sefydlog Rhif 9.7(i), wrth gyfrannu at ddatblygiad polisïau'r Cynulliad.

The Liberal Democrats have tabled this amendment twice before and it was accepted, but even after its acceptance, the Assembly has encountered problems relating to genetically-modified crops and homelessness. The amendment on homelessness was tabled by Peter Black and was a necessary safeguard for the Assembly as a whole. I commend it to the Assembly and suggest that its reaffirmation is an important step in the Assembly's democracy.

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi cyflwyno'r gwelliant hwn ddwywaith o'r blaen ac fe'i derbyniwyd, ond hyd yn oed ar ôl iddo gael ei dderbyn, mae'r Cynulliad wedi dod ar draws problemau yn ymwneud â chnydau wedi'u haddasu'n enetig a digartrefedd. Cyflwynwyd y gwelliant ar ddigartrefedd gan Peter Black ac yr oedd yn gam diogelwch angenrheidiol i'r Cynulliad cyfan. Yr wyf yn ei gymeradwyo i'r Cynulliad ac yn awgrymu bod ei gadarnhad yn gam pwysig yn nemocratiaeth y Cynulliad.

Jocelyn Davies: The motions that delegate functions to the First Secretary under the new Acts of Parliament tend to be passed on a nod, but I will make some observations on this important process. These functions must be delegated to the First Secretary so that he can further delegate them to his Cabinet. Without that mechanism, or if the Assembly withheld these functions, the Cabinet system could not operate. Therefore, these motions are important.

Jocelyn Davies: Mae'r cynigion sydd yn dirprwyo swyddogaethau i'r Prif Ysgrifennydd o dan y Deddfau Seneddol newydd yn tueddu i gael eu pasio heb drafodaeth, ond hoffwn wneud rhai sylwadau ar y broses bwysig hon. Rhaid i'r swyddogaethau hyn gael eu dirprwyo i'r Prif Ysgrifennydd fel y gall eu dirprwyo ymhellach i'w Gabinet. Heb y ddyfais honno, neu petai'r Cynulliad yn diddymu'r swyddogaethau hyn, ni allai'r system Cabinet weithredu. Felly, mae'r cynigion hyn yn bwysig.

They also show how well the Cabinet and the Assembly were able to influence new Acts of the UK Parliament. Until Wales has its own, proper Parliament, we have a vested interest in those Acts. The Acts mentioned relate to significant policy areas and the Executive would have been wiser to inform us of the nature of those functions before asking us to delegate them. Trying to spot which functions come to the Assembly by looking at the Acts is a complex task and is more fitted for those who are trained in such matters. That may not seem important to all of you, but given that the Assembly does not have general powers in most subject areas and given that decisions taken by us outside our legal competence can be struck down by the courts, we must have some kind of technical guide on the functions of new Acts provided to us.

Maent hefyd yn dangos pa mor dda yr oedd y Cabinet a'r Cynulliad yn gallu dylanwadu ar Ddeddfau newydd Senedd y DU. Hyd nes y caiff Cymru ei Senedd briodol ei hun, mae gennym fudd personol yn y Deddfau hynny. Mae'r Deddfau a grybwyllwyd yn ymwneud â meysydd polisi arwyddocaol a byddai'r Weithrediaeth wedi bod yn ddoethach i'n hysbysu o natur y swyddogaethau hynny cyn gofyn inni eu dirprwyo. Mae ceisio canfod pa swyddogaethau fydd yn dod i'r Cynulliad drwy edrych ar y Deddfau yn dasg gymhleth ac yn fwy addas ar gyfer y rheini sydd wedi'u hyfforddi mewn materion o'r fath. Efallai nad yw hynny'n ymddangos yn bwysig i bawb ohonoch, ond o gofio nad oes gan y Cynulliad bwerau cyffredinol yn y rhan fwyaf o feysydd pwnc ac o gofio y gall y llysoedd ddiddymu'r penderfyniadau a wneir gennym y tu allan i'n gallu cyfreithiol, rhaid inni gael rhyw fath o arweiniad technegol ar swyddogaethau Deddfau newydd.

That observation does not apply to the Learning and Skills Act 2000, which includes an entire section on Wales, outlining clearly our powers and responsibilities. That section reflects the deliberations of the Post-16 Education and Training Committee, of which I am a member, on the restructuring of post-16 education and training in Wales. As we rely on the Cabinet to relay our requirements on the policy content of new Acts of the UK Parliament to the Secretary of State and then on to Westminster, I congratulate Tom Middlehurst on getting the Committee's recommendations adopted by the Assembly and incorporated into that Act. Sadly, that is not always the case. We have been ignored in some new legislation. If performance-related pay were ever applied to the Cabinet, I fear that one or two would be getting pay cuts.

Nid yw'r sylw hwn yn berthnasol i Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, sydd yn cynnwys rhan gyfan ar Gymru, sydd yn amlinellu yn glir ein pwerau a'n cyfrifoldebau. Mae'r adran honno yn adlewyrchu trafodaethau'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16, yr wyf yn aelod ohono, ar ailstrwythuro addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru. Gan ein bod yn dibynnu ar y Cabinet i gyfleu ein gofynion ar gynnwys polisi Deddfau newydd Senedd y DU i'r Ysgrifennydd Gwladol ac yna ymlaen i San Steffan, hoffwn longyfarch Tom Middlehurst ar lwyddo i sicrhau bod argymhellion y Pwyllgor yn cael eu mabwysiadu gan y Cynulliad a'u hymgorffori yn y Ddeddf honno. Yn anffodus, nid dyma'r achos bob tro. Yr ydym wedi cael ein hanwybyddu mewn peth deddfwriaeth newydd. Petai tâl yn seiliedig ar berfformiad byth yn cael ei gymhwyso i'r Cabinet, yr wyf yn ofni y byddai un neu ddau yn cael toriadau yn eu cyflogau.

Last year, the Pollution Prevention and Control Act 1999 did not mention the Assembly. It now falls to the UK Minister to make decisions for Wales on some waste management issues that the Assembly used to make. We have lost those powers because the Cabinet failed to get the Assembly mentioned in the new Act of Parliament. There are other examples. I am not convinced that the Cabinet has a systematic approach to this problem. If it does not develop one, the Assembly's powers will, over time, be eroded in some areas. Of course, those areas will depend on the Government departments involved. That is disturbing. It is a simple fact that as new Acts repeal old ones, our policy must be included in the new Acts or we must ensure that the new Acts of Parliament give us some flexibility so that we can implement our own policies. We passed a motion to that effect in February and I would like the Secretary who responds to this debate to outline the Cabinet's actions to influence new Acts.

Y llynedd, ni chrybwyllwyd y Cynulliad yn Neddf Atal a Rheoli Llygredd 1999. Bellach cyfrifoldeb Gweinidog y DU yw gwneud penderfyniadau ar ran Cymru ar rai materion rheoli gwastraff yr arferwyd eu gwneud gan y Cynulliad. Yr ydym wedi colli'r pwerau hynny oherwydd i'r Cabinet fethu â sicrhau bod y Cynulliad yn cael ei grybwyll yn y Ddeddf Seneddol newydd. Ceir enghreifftiau eraill. Nid wyf yn argyhoeddedig bod gan y Cabinet ymagwedd systemataidd tuag at y broblem hon. Os na fydd yn datblygu un, bydd pwerau'r Cynulliad, ymhen amser, yn cael eu herydu mewn rhai meysydd. Wrth gwrs, bydd y meysydd hynny yn dibynnu ar yr adrannau o'r Llywodraeth dan sylw. Mae hynny'n achos pryder. Mae'n ffaith syml, wrth i Ddeddfau newydd ddisodli hen rai, y dylai ein polisi gael ei gynnwys yn y Deddfau newydd neu rhaid inni sicrhau bod y Deddfau Seneddol newydd yn rhoi peth hyblygrwydd inni fel y gallwn weithredu ein polisïau ein hunain. Pasiwyd cynnig gennym i'r perwyl hwnnw ym mis Chwefror a hoffwn i'r Ysgrifennydd sydd yn ymateb i'r ddadl hon amlinellu camau'r Cabinet i ddylanwadu ar y Deddfau newydd.

The Plaid Cymru group will not support Mike German's amendment 1 because it repeats the fact supported by a case law,

Ni fydd grŵp Plaid Cymru yn cefnogi gwelliant 1 Mike German gan ei fod yn ailadrodd ffaith a gefnogir gan gyfraith

previous Assembly motions, precedence and is an established concept in public law. It is unnecessary, and adds nothing new. The amendment was probably tabled to ensure that that speaker was called rather than to add any substance to the motion.

achos, cynigion blaenorol yn y Cynulliad, cynsail a'i fod yn gysyniad sefydledig mewn cyfraith gyhoeddus. Mae'n ddiangen, ac nid yw'n ychwanegu unrhyw beth newydd. Mae'n debyg i'r gwelliant gael ei gyflwyno er mwyn sicrhau bod y siaradwr hwnnw yn cael ei alw yn hytrach nag i ychwanegu unrhyw sylwedd i'r cynnig.

William Graham: First, to quote Billy Connolly,

William Graham: I ddechrau, gan ddyfynnu Billy Connolly,

'I do not wish a wee pretendy Parliament here.'

I ask for an explanation on the range of legislation that we are being asked to pass today. There is no real briefing on it, nor is there knowledge of its root. It is vast and complex. In future, could we be given a briefing on this legislation as a matter of importance to all Assembly Members? I realise that it is too late to do so today.

Gofynnaf am esboniad ar yr ystod o ddeddfwriaeth y gofynnir i ni ei phasio heddiw. Nid oes unrhyw gyfarwyddyd gwirioneddol ar hyn, ac nid oes unrhyw wybodaeth am ei wraidd. Mae'n eang a chymhleth. Yn y dyfodol, a allem gael cyfarwyddyd ar y ddeddfwriaeth hon fel mater o bwysigrwydd i bob Aelod o'r Cynulliad? Sylweddolaf ei bod yn rhy hwyr i wneud hynny heddiw.

4:30 p.m.

Andrew Davies: I am grateful for Jocelyn Davies's congratulations on our ability to affect primary legislation in the first year of our operation. This is a new system that will grow over time. If I am supposed to believe what I read in the newspapers about the timescale that Jocelyn predicts for further powers to be given to the Assembly, we have another 10 years in which to get things right.

Andrew Davies: Yr wyf yn ddiolchgar i Jocelyn Davies am longyfarch ein gallu i weithredu deddfwriaeth sylfaenol yn ystod ein blwyddyn gyntaf o weithredu. Mae hon yn system newydd a fydd yn tyfu dros amser. Os dylwn gredu yr hyn yr wyf yn ei ddarllen yn y papurau newydd ynglŷn â'r terfyn amser y mae Jocelyn yn ei ragweld ar gyfer rhoi rhagor o bwerau i'r Cynulliad, mae gennym 10 mlynedd arall i gael pethau'n iawn.

Jocelyn Davies: I am surprised that Andrew reads *The Welsh Mirror*. I hope that everything that I have read about Andrew is true.

Jocelyn Davies: Yr wyf yn synnu bod Andrew yn darllen *The Welsh Mirror.* Gobeithiaf fod popeth yr wyf wedi'i ddarllen am Andrew yn wir.

Andrew Davies: As Jocelyn indicated, the Executive has influenced primary legislation on a raft of measures that affect Wales. That is a good commendation for the Assembly's first year. However, the system requires improvements and, as the First Secretary mentioned in his reply to questions earlier, these issues are raised in the Joint Ministerial Committee and on a day-to-day basis with our Whitehall colleagues and with the Secretary of State for Wales. There is a great deal to commend in the Assembly's first year

Andrew Davies: Fel yr awgrymodd Jocelyn, mae'r Weithrediaeth wedi dylanwadu ar ddeddfwriaeth sylfaenol yn ymwneud ag ystod o fesurau sydd yn effeithio ar Gymru. Mae hynny'n gymeradwyaeth dda i flwyddyn gyntaf y Cynulliad. Fodd bynnag, mae angen gwella'r system ac, fel y crybwyllodd y Prif Ysgrifennydd yn ei ateb i gwestiynau yn gynharach, caiff y materion hyn eu codi yng Nghyd-bwyllgor y Gweinidogion o ddydd i ddydd gyda'n cydweithwyr yn Whitehall a chydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Mae

of operation. Assembly Members will have plenty of opportunity to provide input into the review of its procedures, including ways in which we can affect and influence primary legislation in Whitehall.

llawer i'w ganmol ynglŷn â blwyddyn gyntaf y Cynulliad. Caiff Aelodau o'r Cynulliad ddigon o gyfle i roi mewnbwn i'r arolwg o'i weithdrefnau, gan gynnwys ffyrdd y gallwn effeithio a dylanwadu ar ddeddfwriaeth sylfaenol yn Whitehall.

John Marek: Can the Business Secretary itemise delegated functions so that Members can grapple with any problems and understand exactly what is being delegated this afternoon? Jocelyn and William indicated that unless you go through the Act and all its sections, it is not easy to understand what one is voting for. However, I support the motion.

John Marek: A all y Trefnydd restru'r swyddogaethau a ddirprwyrir fel y gall yr Aelodau fynd i'r afael ag unrhyw broblemau a deall yn union beth sydd yn cael ei ddirprwyo y prynhawn yma? Nododd Jocelyn a William, oni bai eich bod yn mynd drwy'r Ddeddf a'i holl adrannau, nad yw'n hawdd deall dros beth y mae rhywun yn pleidleisio. Fodd bynnag, cefnogaf y cynnig.

Andrew Davies: I am not sure whether John is talking about the delegation of functions or whether he is referring to the precise legislation of each delegation. A full description of the delegation of functions should be on the intranet and internet. If it is not, I will get back to you on that.

Andrew Davies: Nid wyf yn siŵr a yw John yn sôn am ddirprwyo swyddogaethau neu a yw'n cyfeirio at union ddeddfwriaeth pob dirprwyaeth. Dylai disgrifiad llawn o'r swyddogaethau a ddirprwyir fod ar y fewnrwyd a'r rhyngrwyd. Os nad ydyw, fe ddof yn ôl atoch ar hynny.

Gwelliant 1: O blaid 40, Ymatal 15, Yn erbyn 0.
Amendment 1: For 40, Abstain 15, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Glyn
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
Feld, Val
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Marek, John
Melding, David
Middlehurst, Tom

Ymataliodd yr aelodau canlynol:
The following members abstained:

Dafis, Cynog
Davies, Geraint
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Hancock, Brian
Jarman, Pauline
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Lloyd, David
Ryder, Janet
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Phil

Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Richards, Rod
Rogers, Peter
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Williams, Kirsty

Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment adopted.

Amended motion:

the National Assembly, acting under section 62(1)(b) of the Government of Wales Act 1998, resolves to delegate all the functions of the National Assembly contained in the Care Standards Act 2000; the Carers and Disabled Children Act 2000; the Government Resources and Accounts Act 2000; the Learning and Skills Act 2000; the Local Government Act 2000; and the Electronic Communications Act 2000; to the Assembly First Secretary, save those which by law cannot be so delegated.

Nothing in this resolution will have the effect of either reducing the pre-eminence of the authority of the full Assembly, or reducing the role of Assembly Committees in reviewing the effectiveness of policies and in developing new policies, as described in Standing Order No. 9.7(i), in contributing to the development of the Assembly's policies.

Cynnig wedi'i ddiwygio:

y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol ag adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo holl weithrediadau'r Cynulliad Cenedlaethol sydd wedi eu cynnwys yn Neddf Safonau Gofal 2000; Deddf Cynhalwyr a Phlant Anabl 2000; Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000; Deddf Dysgu a Sgiliau 2000; Deddf Llywodraeth Leol 2000 a Deddf Cyfathrebu Electronig 2000; i Brif Ysgrifennydd y Cynulliad, ac eithrio'r rheini na ellir eu dirprwyo yn ôl y gyfraith.

Ni fydd unrhyw ran o'r penderfyniad hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn, nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth adolygu effeithiolrwydd polisïau a datblygu polisïau newydd, yn unol â'r disgrifiad a geir yn Rheol Sefydlog Rhif 9.7(i), wrth gyfrannu at ddatblygiad polisïau'r Cynulliad.

Cynnig wedi'i ddiwygio: O blaid 55, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amended motion: For 55, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Dafis, Cynog
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn

Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
Feld, Val
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Lewis, Huw
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Middlehurst, Tom
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Richards, Rod
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty
Williams, Phil

Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.
Amended motion adopted.

Pwynt o Drefn
Point of Order

Nick Bourne: Point of order. Before we move on to the debate on the comprehensive spending review and given that we intend to finish at 5.30 p.m., which is less than an hour away, I request under Standing Order No. 6.16 either a postponement of the debate or a continuation of it on another occasion. There will not be sufficient time to cover it all in an hour.

Nick Bourne: Pwynt o drefn. Cyn inni symud ymlaen i'r ddadl ar yr adolygiad cynhwysfawr o wariant ac o gofio ein bod yn bwriadu gorffen am 5.30 p.m., sef ymhen llai nag awr, gofynnaf o dan Reol Sefydlog Rhif 6.16 naill ai i'r ddadl gael ei gohirio neu ei pharhau ar achlysur arall. Ni fydd digon o amser i drafod y cyfan mewn awr.

The Presiding Officer: I make it clear that I am always amenable to Standing Order No. 6.16. [*Laughter.*] I can only wait for it to be proposed. It does not have to be proposed until 5.29 p.m.

Y Llywydd: Yr wyf yn ei gwneud yn glir fy mod bob amser yn agored i Reol Sefydlog Rhif 6.16 [*Chwerthin.*] Ni allaf ond aros iddi gael ei chynnig. Nid oes rhaid iddi gael ei chynnig tan 5.29 p.m.

Nick Bourne: If other Members agree, I am happy to suggest that we have an hour's debate now and then adjourn the debate and continue it at a later date because there is not sufficient time to cover all this.

Nick Bourne: Os bydd yr Aelodau eraill yn cytuno, yr wyf yn fodlon awgrymu ein bod yn cael awr o ddadl yn awr ac yna gohirio'r ddadl a'i pharhau ar ddyddiad diweddarach gan nad oes digon o amser i ddelio â'r cyfan.

The Presiding Officer: That cannot happen without a motion being proposed.

Y Llywydd: Ni all hynny ddigwydd oni bai bod cynnig yn cael ei gyflwyno.

Nick Bourne: I suggest that the Business Secretary proposes a motion to adjourn the debate at 5.30 p.m.

Nick Bourne: Yr wyf yn awgrymu bod y Trefnydd yn cynnig cynnig i ohirio'r ddadl am 5.30 p.m.

The Presiding Officer: The Business Secretary indicates his assent.

Y Llywydd: Mae'r Trefnydd yn nodi ei gytundeb.

Yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant
The Comprehensive Spending Review

The Presiding Officer: I impose a time limit of five minutes except for the opening and closing speakers and proposers of amendments who will have double that time. I have selected amendments 1, 3, 4 and 6 in the name of Ieuan Wyn Jones, amendment 5 in the name of Peter Black and amendment 7 in the name of Glyn Davies. Although Glyn Davies's amendment 2 appears on the agenda it has not been selected for debate or vote

Y Llywydd: Yr wyf yn cyfyngu amser siaradwyr i bum munud ac eithrio'r siaradwyr a fydd yn agor a chloi'r ddadl a chynigwyr gwelliannau a fydd yn cael dwywaith yr amser hwnnw. Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1, 3, 4 a 6 yn enw Ieuan Wyn Jones, gwelliant 5 yn enw Peter Black a gwelliant 7 yn enw Glyn Davies. Er bod gwelliant 2 Glyn Davies yn ymddangos ar yr agenda, nis detholwyd i'w drafod nac i bleidleisio arno.

The Finance Secretary (Edwina Hart): I propose that

Yr Ysgrifenydd Cyllid (Edwina Hart): Cynigiaf fod

the National Assembly

y Cynulliad Cenedlaethol

welcomes the additional allocations made available to Wales through the UK Government's spending review;

yn croesawu'r dyraniadau ychwanegol sydd bellach ar gael i Gymru drwy adolygiad Llywodraeth y DU o wariant;

approves the principle that the funds are allocated according to the priorities set out in www.betterwales.com, namely: better opportunities for learning; a better, stronger economy; better health and well-being; better quality of life; and better, simpler government;

yn cymeradwyo'r egwyddor bod y cronfeydd yn cael eu dyrannu yn ôl y blaenoriaethau a roddir yn www.gwellcymru.com, sef cyfleoedd gwell i ddysgu; economi gryfach, well; iechyd a lles gwell; ansawdd bywyd gwell; a llywodraeth symlach, well;

approves the principle that the allocations promote the three major themes in www.betterwales.com—sustainable development, tackling social disadvantage and equal opportunities;

yn cymeradwyo'r egwyddor bod y dyraniadau'n hybu'r tair prif thema yn www.gwellcymru.com—datblygu cynaliadwy, mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a chyfle cyfartal;

takes account of the views of its committees and partners in making financial allocations; and

calls on the Finance Secretary to bring forward proposals to meet these objectives in the draft budget in October.

I welcome this opportunity to have an early debate on the Assembly's priorities, now that the outcome of the comprehensive spending review is known. The discussion today is an important part of the process of developing the Assembly's thinking about the budget and will inform the draft budget that I will present next month.

I will update the Assembly on the details of the comprehensive spending review, outline the process for the budget round and pick up some of the themes that emerged during the debate on 19 July. On the detailed figure-work, last week I issued slightly different figures to those that were circulated on 18 July. These changes mainly affect the annual managed expenditure items, and therefore are not critical as the provision for these budgets is reviewed twice a year. The reasons for these changes do not lie with the Assembly, but with the UK Government who provided us with the wrong figures in the first instance. The figures are therefore subject to final confirmation by the Treasury; if there are any further changes I will inform Assembly Members immediately. I thank my officials who have worked hard during August to ensure the accuracy of all the figures in the settlement and that we have the correct figures and information.

Under the devolution settlement, it was envisaged that the Assembly would take over responsibility for the funding of the Forestry Commission's activities in Wales. Section 105 and Schedule 7 of the Government of Wales Act 1998 make provision for this. It was intended for that transfer to take place at the start of this financial year. However, we have yet to agree an appropriate level of resources to be transferred to the Assembly to enable it to take on this responsibility.

yn ystyried barn ei bwyllgorau a'i bartneriaid wrth wneud dyraniadau ariannol; ac

yn galw ar yr Ysgrifennydd Cyllid i gyflwyno cynigion i gwrdd â'r amcanion hyn yn y gyllideb ddrafft fis Hydref.

Croesawaf y cyfle hwn i gael dadl gynnar ar flaenoriaethau'r Cynulliad, gan ein bod yn awr yn gwybod canlyniad yr adolygiad cynhwysfawr o wariant. Mae'r drafodaeth heddiw yn rhan bwysig o'r broses o ddatblygu ffordd y Cynulliad o feddwl am y gyllideb a bydd yn llywio'r gyllideb ddrafft y byddaf yn ei chyflwyno fis nesaf.

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am fanylion yr adolygiad cynhwysfawr o wariant, yn amlinellu'r broses ar gyfer cylch y gyllideb ac yn datblygu rhai o'r themâu a ddaeth i'r amlwg yn ystod y drafodaeth ar 19 Gorffennaf. O safbwynt y gwaith ffigurau manwl, cyhoeddais ffigurau ychydig yn wahanol yr wythnos diwethaf i'r rhai a ddosbarthwyd ar 18 Gorffennaf. Mae'r newidiadau hyn yn effeithio'n bennaf ar yr eitemau gwariant blynyddol a reolir, ac felly nid ydynt yn newidiadau hanfodol oherwydd y caiff y ddarpariaeth ar gyfer y cyllidebau hyn eu hadolygu ddwywaith y flwyddyn. Nid y Cynulliad sydd yn gyfrifol am y rhesymau dros y newidiadau hyn, ond yn hytrach Llywodraeth y DU a roddodd y ffigurau anghywir inni yn y lle cyntaf. Felly mae'r ffigurau yn amodol ar gadarnhad terfynol gan y Trysorlys; os bydd unrhyw newidiadau pellach rhof wybod i Aelodau'r Cynulliad ar unwaith. Diolchaf i'm swyddogion sydd wedi gweithio'n galed yn ystod mis Awst i sicrhau cywirdeb yr holl ffigurau yn y setliad a bod y ffigurau a'r wybodaeth gywir gennym.

O dan y setliad datganoli, rhagwelwyd y byddai'r Cynulliad yn cael y cyfrifoldeb dros ariannu gweithgareddau'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru. Mae Adran 105 ac Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn darparu ar gyfer hyn. Bwriadwyd i'r trosglwyddiad hwnnw gymryd lle ar ddechrau'r flwyddyn ariannol hon. Fodd bynnag, nid ydym wedi cytuno hyd yn hyn ar lefel briodol o adnoddau i'w throsglwyddo i'r Cynulliad er mwyn ei alluogi i ymgymryd â'r

Provided that we can reach agreement, I will include provision for this function in my budget plans for 2001-02. Negotiations are continuing and I will keep you informed on progress.

cyfrifoldeb hwn. Cyhyd â'n bod yn gallu dod i gytundeb, byddaf yn cynnwys darpariaeth ar gyfer y swyddogaeth hon yn fy nghynlluniau cyllideb ar gyfer 2001-02. Mae negodiadau yn parhau a byddaf yn rhoi gwybod ichi am y datblygiadau diweddaraf.

I make it clear that I will not take on any financial commitment in any respect unless I have the proper financial commitments to the Assembly within the devolution settlement. As regards the transfer of resources from the Department for Education and Employment to meet the expected level of European social fund receipts for new programmes in 2000-01, I am happy to confirm that this has now been agreed. The necessary arrangements to effect the transfer will be put in place at the time of the winter supplementary estimates. Provision for 2001-02 to 2003-04 was included in the spending review settlement.

Yr wyf yn ei gwneud yn glir na fyddaf yn ymgymryd ag unrhyw ymrwymiad ariannol o unrhyw fath oni fydd gennyf yr ymrwymiadau ariannol cywir i'r Cynulliad o fewn y setliad datganoli. Mewn perthynas â throsglwyddo adnoddau o'r Adran Addysg a Chyflogaeth i gwrdd â'r lefel ddisgwyliedig o dderbyniadau o gronfa gymdeithasol Ewrop ar gyfer rhaglenni newydd yn 2000-01, mae'n dda gennyf gadarnhau bod hyn wedi'i gytuno bellach. Caiff y trefniadau angenrheidiol i drosglwyddo'r adnoddau eu gweithredu ar adeg amcangyfrifon atodol y gaeaf. Cynhwyswyd darpariaeth ar gyfer 2001-02 i 2003-04 o fewn setliad yr adolygiad o wariant.

The comprehensive spending review has generated an increase in the Welsh departmental expenditure limit of £487 million, £1,178 million and £1,828 million over the next three years, bringing the Assembly's departmental expenditure limits up to nearly £10 billion by 2003-04. As I said in July, that is a staggering, unprecedented increase which, by virtue of its scale, imposes a special responsibility on all of us. We have a unique opportunity to make significant progress with our vision for the future and we owe it to the people of Wales to exercise great care and wisdom in making the most of it. This will include making difficult choices. There is no shortage of legitimate claims on the budget and we must be no less vigorous this year than we would in more usual circumstances.

Mae'r adolygiad cynhwysfawr o wariant wedi cynhyrchu cynnydd yn nherfyn gwariant adrannol Cymru o £487 miliwn, £1,178 miliwn a £1,828 miliwn dros y tair blynedd nesaf, sydd yn codi terfynau gwariant adrannol y Cynulliad bron hyd at £10 biliwn erbyn 2003-04. Fel y dywedais ym mis Gorffennaf, mae hwn yn gynnydd anhygoel, digyffelyb sydd, oherwydd ei raddfa, yn rhoi cyfrifoldeb arbennig ar bob un ohonom. Mae cyfle unigryw gennym i wneud cynnydd sylweddol o ran ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol ac mae dyled arnom i bobl Cymru i arfer gofal a doethineb mawr wrth wneud y gorau ohono. Bydd hyn yn cynnwys gwneud dewisiadau anodd. Nid oes diffyg galwadau cyfreithlon ar y gyllideb ac rhaid inni fod yr un mor drwyadl eleni ag y byddem mewn amgylchiadau mwy arferol.

I now turn to the process for the budget round. Assembly Secretaries have now had views on their priorities and those of their Subject Committees. They are helpful and will inform our discussion as we move through the budget round. The comments from outside bodies and our partners on the consultation paper 'Building a Better Wales Together' were also useful. Assembly Secretaries are meeting representatives of the voluntary sector this month, and discussions

Yr wyf yn troi yn awr at y broses ar gyfer cylch y gyllideb. Mae'r Ysgrifenyddion Cynulliad bellach wedi derbyn barn eraill ar eu blaenoriaethau a rhai eu Pwyllgorau Pwnc. Maent yn ddefnyddiol a byddant yn llywio ein trafodaeth wrth inni symud drwy gylch y gyllideb. Bu sylwadau cyrff allanol a'r partneriaid ar y papur ymgynghorol 'Adeiladau Gwell Cymru Gyda'n Gilydd' yn ddefnyddiol hefyd. Mae'r Ysgrifenyddion Cynulliad yn cwrdd â chynrychiolwyr o'r

are also taking place in the various partnership councils. I shall meet my Assembly Secretary colleagues later this month and, with the Assembly's approval, will table a draft budget for debate on 26 October. The committees will then be asked for their views on the proposals, and the final budget debated, subject to the Assembly's approval, on 7 December. We are giving early warning about these dates and procedures as we want the process to be as inclusive as possible.

sector gwirfoddol y mis hwn, a chynhelir trafodaethau yn y cynghorau partneriaeth amrywiol hefyd. Byddaf yn cwrdd â'm cyd-Ysgrifenyddion Cynulliad yn ddiweddarach y mis hwn a, gyda chymeradwyaeth y Cynulliad, byddaf yn cyflwyno cyllideb ddrafft ar gyfer dadl ar 26 Hydref. Gofynnir i'r pwyllgorau wedyn am eu barn ar y cynigion, a chaiff y gyllideb derfynol ei thrafod, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad, ar 7 Rhagfyr. Yr ydym yn rhoi rhybudd cynnar o'r dyddiadau a'r gweithdrefnau hyn gan ein bod am i'r broses fod mor gynhwysol â phosibl.

4:40 p.m.

Now for the meat of the motion: in July I said that it was imperative that the Assembly gives a clear indication of its priorities. This is particularly true now, because we have a new strategic plan, 'Betterwales.com', which will need to be revised in the light of the spending review; and also because this autumn's budget will largely determine Wales's spending patterns for the rest of this Assembly's term. It is vital therefore that we get it right. We all share the responsibility for ensuring that the Assembly's priorities are right, and that our spending matches the priorities.

Dyma hanfod y cynnig: ym mis Gorffennaf dywedais ei bod yr hanfodol bod y Cynulliad yn nodi ei flaenoriaethau yn glir. Mae hyn yn arbennig o wir erbyn hyn, gan bod gennym gynllun strategol newydd, 'Gwellcymru.com', y bydd angen ei adolygu yng ngoleuni'r adolygiad o wariant; a hefyd gan y bydd cyllideb yr hydref hwn yn gosod y rhan fwyaf o batrymau gwario Cymru ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad hwn. Felly mae'n hanfodol ein bod yn gwneud pethau'n gywir. Mae pob un ohonom yn rhannu'r cyfrifoldeb i sicrhau bod blaenoriaethau'r Cynulliad yn gywir, a bod yr arian a wariwn yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau.

In the last debate I also said that we were only interested in pursuing policies that were made in Wales for Wales. I think that all political parties supported that principle, and it is important that we now turn it into a reality in this budgetary process.

Yn y ddadl olaf dywedais hefyd mai dim ond mewn mynd ar drywydd y polisïau a wnaethpwyd yng Nghymru ar gyfer Cymru yr oedd gennym ddiddordeb. Credaf i bob plaid gefnogi'r egwyddor honno, ac mae'n bwysig ein bod yn ei throi yn realiti yn y broses gyllidebol hon yn awr.

In 'Betterwales.com' the Assembly as a whole endorsed priorities for unique Welsh activity. These must define our approach to the planning and budgeting round. The main priorities, as we see them, are as follows. On better opportunities for learning, we must continue to drive up standards, tackle social disadvantage and extend access, invest in the infrastructure needs of our schools, improve the standards of teaching, and tackle the skills and qualifications deficit in Wales.

Yn 'Gwellcymru.com' cymeradwyodd y Cynulliad cyfan flaenoriaethau ar gyfer gweithgarwch sydd yn unigryw i Gymru. Rhaid i'r rhain ddiffinio ein hymagwedd at y cylch cynllunio a chyllido. Mae'r prif flaenoriaethau, fel y gwelwn ni hwy, fel a ganlyn. O ran cyfleoedd gwell i ddysgu, rhaid inni barhau i wella safonau, mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol ac ehangu mynediad iddynt, buddsoddi yn anghenion seilwaith ein hysgolion, gwella safonau addysgu, a mynd i'r afael â'r diffyg sgiliau a chymwysterau yng Nghymru.

In order to achieve a better and stronger economy, we will need to maximise the opportunities provided by the structural funds allocations in the poorest areas of Wales, and ensure that we have the right business support measures in place. We need to make progress with our commitment to a sustainable future for agriculture and have a robust national economic development strategy to drive the whole process.

Er mwyn cael economi well a chryfach, bydd angen inni greu cynifer â phosibl o gyfleoedd o'r dyraniadau cronfeydd strwythurol yn ardaloedd tlotaf Cymru, a sicrhau bod gennym y mesurau cynnal busnes cywir yn eu lle. Mae angen inni wneud cynnydd o ran ein hymrwymiad i greu dyfodol cynaliadwy ar gyfer amaethyddiaeth a chael strategaeth datblygu economaidd cenedlaethol i lywio'r broses gyfan.

Gareth Jones: Diolch i chi am y ffordd gadarn y buoch, y prynhawn yma, yn cyfleu sut y bydd pob ceiniog wedi'i thargedu o ran y gyllideb hon. Yr ydych yn cyfeirio at y cronfeydd yn cael eu dyrannu yn unol â 'Gwellcymru.com' ac â themâu holl bwysig megis datblygu cynaliadwy. Hynny yw, mae blaenoriaethau.

Gareth Jones: Thank you for the robust way in which you have, this afternoon, conveyed how every penny will be targeted in terms of this budget. You refer to the funds being allocated in accordance with 'Betterwales.com' and with vital themes such as sustainable development. That is, there are priorities.

Beth fydd yn digwydd os bydd arian ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol, fel yr hyn a gawsom gan Ganghellor y Trysorlys ryw dri mis yn ôl, pan dargedwyd, er enghraifft, £50 miliwn ar gyfer addysg a £100 miliwn—os cofiaf yn iawn—ar gyfer iechyd? A fyddwch yn cymhwyso'r un egwyddorion ac yn trin yr arian ychwanegol hwn yn yr un modd? Pan ddaw arian ychwanegol—ac mae'n sicr o ddod achos bod etholiad cyffredinol ar y ffordd—a fyddwch yn sicrhau, os bydd £20 miliwn arall yn cael ei drosglwyddo i'n hysgolion, y dosberthir ef yn unol â themâu, egwyddorion a thargedau'r Cynulliad, fel y gosodwyd hwy yn y cynnig hwn?

What will happen if there is additional money during the financial year, as we had from the Chancellor of the Exchequer some three months ago, when, for example, £50 million was targeted for education and £100 million—if I remember correctly—for health. Will you apply the same principles and deal with this additional money in the same way? When additional money comes—and it is sure to come because there is a general election on the way—will you ensure that, if another £20 million is transferred to our schools, it will be distributed according to the themes, principles and targets of the Assembly, as set out in this motion?

Edwina Hart: My general election is in May 2003. I will target priorities agreed by the Assembly and the budgeting process. I agree with Gareth that if we were lucky enough to have any additional money over and above the Barnett formula, I would like us to build on what we have begun in this budget process and ensure that we can do that with it. It was quite a shock when we received that first lot of money. There always was the desire to ensure that we allocated it. As we are going through another budget process, other ideas will come forward concerning what we would want to add to, if there were further money, and I would take the Assembly's wishes and broad priorities into account.

Edwina Hart: Cynhelir yr etholiad cyffredinol ym Mai 2003. Byddaf yn targedu'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt gan y Cynulliad a'r broses gyllido. Cytunaf â Gareth: os oeddem yn ddigon ffodus i gael arian ychwanegol ar ben fformwla Barnett, hoffwn inni ddatblygu'r hyn yr ydym wedi'i gychwyn yn y broses gyllideb hon a sicrhau ein bod yn gallu gwneud hynny gyda hi. Yr oedd yn sioc pan gawsom y swm cyntaf o arian. Yr oedd yr awydd yno o hyd i sicrhau ein bod yn ei ddyrannu. Wrth inni fynd drwy broses gyllideb arall, bydd syniadau eraill yn dod i'r amlwg ynglŷn â'r hyn yr hoffem ychwanegu ato, pe byddai arian ychwanegol ar gael, a buaswn yn ystyried dymuniadau a blaenoriaethau eang y Cynulliad.

Another priority is the promotion of health and well-being; we need to develop targeted action to improve services, to focus on health improvement and clinical effectiveness, and to protect the most vulnerable in society, especially the young and old. We need to ensure that we have the right regulatory and support mechanisms in place so that the health and social services systems operate effectively. That has been a key theme in Assembly discussions.

Blaenoriaeth arall yw hybu iechyd a lles; mae angen inni ddatblygu camau wedi'u targedu i wella gwasanaethau, i ganolbwyntio ar wella iechyd ac effeithiolrwydd clinigol, ac i ddiogelu'r bobl fwyaf diamddiffyn yn ein cymdeithas, yn enwedig yr ifanc a'r henoed. Mae angen inni sicrhau bod gennym y dulliau rheoleiddiol a chynnal cywir fel bod y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn gweithredu'n effeithiol. Bu hynny'n thema allweddol yn nhrafodaethau'r Cynulliad.

To ensure a better quality of life, we also need a coherent and sustainable transport policy. I hesitate to go into this now, after our earlier discussion, but we must meet our environmental obligations to future generations, and tackle the significant housing problems that exist. We see what is happening to housing stock across Wales, in the Valleys and in rural areas, and the real need to get people into better living conditions and out of poverty.

Er mwyn sicrhau ansawdd bywyd gwell, mae angen polisi trafnidiaeth cydlynol a chynaliadwy arnom hefyd. Yr wyf yn petruso cyn siarad am hyn ar hyn o bryd, ar ôl ein trafodaeth gynharach, ond rhaid inni gyflawni'n dyletswyddau amgylcheddol i genedlaethau yn y dyfodol, a mynd i'r afael â'r problemau tai sylweddol sydd yn bodoli. Gwelwn yr hyn sydd yn digwydd i stoc tai ledled Cymru, yn y Cymoedd ac mewn ardaloedd gwledig, a'r gwir angen i gael pobl i fyw mewn amodau gwell gan osgoi tlodi.

We are also committed to better, simpler government. That trips off the tongue, but the reality is rather different. It means better value for money and more efficient services. I am conscious of the pressures that currently face local government. I am anxious to work closely with local authorities to deliver better services and a more co-ordinated approach to service delivery. We will make proposals during the budget round in these areas.

Yr ydym hefyd yn ymrwymedig i lywodraeth symlach, well. Hawdd yw dweud hynny, ond mae'r realiti braidd yn wahanol. Mae'n golygu gwell gwerth am arian a gwasanaethau mwy effeithlon. Yr wyf yn ymwybodol o'r pwysau sydd yn wynebu llywodraeth leol ar hyn o bryd. Yr wyf yn awyddus i gydweithio'n agos ag awdurdodau lleol er mwyn darparu gwasanaethau gwell ac ymagwedd fwy cydlynol tuag at ddarparu gwasanaeth. Byddaf yn cyflwyno'r cynigion hyn yn ystod cylch y gyllideb yn y meysydd hyn.

Underlying these objectives are three major themes. I am sorry to harp on about them but they are crucial. First, sustainable development, which must run through all our activities and which several Committees have raised. On Thursday, Carwyn Jones will ask you to consider the implications of the responses to our consultation document. In November, when necessary revisions have been made, he will invite you to make the scheme formally. I cannot anticipate the decisions that will be made in those two debates, but three things are clear. We must ensure that our decisions in each field of policy take account of the effects of our proposals in the round, not just in the fields

Mae tair prif thema yn sylfaenol i'r amcanion hyn. Mae'n flin gennyf sôn amdanynt o hyd ond maent yn hanfodol. Yn gyntaf, datblygu cynaliadwy, sydd yn gorfod treiddio drwy ein holl weithgareddau ac y mae nifer o'r Pwyllgorau wedi'i godi. Ddydd Iau, bydd Carwyn Jones yn gofyn ichi ystyried goblygiadau yr ymatebion i'n dogfen ymgynghorol. Ym mis Tachwedd, pan fydd yr adolygiadau angenrheidiol wedi'u gwneud, bydd yn eich gwahodd i wneud y cynllun yn un ffurfiol. Ni allaf ragweld y penderfyniadau a gaiff eu gwneud yn ystod y ddwy ddadl hynny, ond mae tri pheth yn glir. Rhaid inni sicrhau bod ein penderfyniadau ym mhob maes polisi yn ystyried effeithiau

in question. We need to be happy about spending plans, strike the right balance between objectives and design our policies and programmes in a joined-up way so that they are mutually reinforcing. That is the conclusion of discussions in the Assembly about being mutually reinforcing.

ein cynigion yn y cylch, ac nid yn unig y meysydd dan sylw. Mae angen inni fod yn fodlon â chynlluniau gwario, cael y cydbwysedd cywir rhwng amcanion a llunio ein polisïau a'n rhaglenni mewn ffordd di-fwlch fel ein bod yn gyd-atgyfnerthol. Dyna gasgliad y trafodaethau yn y Cynulliad ynglŷn â bod yn gyd-atgyfnerthol.

Secondly, we need to tackle social disadvantage that affects both individuals and communities. Key to this is the Communities First approach to community-led regeneration, which we will be unveiling. This must be a bottom-up and rounded approach.

Yn ail, mae angen inni fynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol sydd yn effeithio ar unigolion a chymunedau. Mae ymagwedd Rhoi Cymunedau'n Gyntaf tuag at waith adfywio a arweinir gan y gymuned, a gaiff ei lansio gennym, yn rhan allweddol o hyn. Rhaid i'r ymagwedd hon fod yn un sydd yn dechrau o'r gwaelod ac yn un gytbwys.

Thirdly, equal opportunity. The Assembly has a statutory duty to conduct its business and exercise its functions with due regard to equal opportunities. We must ensure that that means access to health and education and, above all, putting people first.

Yn drydydd, cyfle cyfartal. Mae dyletswydd statudol ar y Cynulliad i drefnu ei fusnes ac arfer ei swyddogaethau gan roi sylw priodol i gyfle cyfartal. Rhaid inni sicrhau bod hynny yn golygu'r gallu i fanteisio ar iechyd ac addysg ac, uwchlaw popeth, rhoi pobl yn gyntaf.

Over the coming weeks, I will discuss these issues with my Assembly Secretary colleagues and put flesh on our proposals. Today I want to hear your views. People say that I do not always listen, but I do. I take things into account and make meticulous notes of what you say. At the end of the day, if I can, I will try to deliver on some of them.

Dros yr wythnosau nesaf, byddaf yn trafod y materion hyn gyda'm cyd-Ysgrifenyddion yn y Cynulliad ac yn datblygu ein cynigion. Heddiw yr wyf am glywed eich barn. Dywedir nad wyf bob amser yn gwrando, ond yr wyf. Yr wyf yn ystyried pethau ac yn gwneud nodiadau manwl am yr hyn yr ydych yn ei ddweud. Ar ddiwedd y dydd, byddaf yn ceisio cyflwyno rhai ohonynt, os gallaf.

Ieuan Wyn Jones: Cynigiaf welliant 1. Ychwaneger ar ddiwedd y cymal cyntaf:

Ieuan Wyn Jones: I propose amendment 1. Add at end of the first clause:

Ond mae'n destun pryder iddo nad yw'r dyraniad yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at yr arian cyfatebol y bydd ei angen er mwyn galluogi Cymru i fanteisio'n llawn ar botensial y rhaglenni Ewropeaidd.

But is concerned that the allocation does not include any reference to the match funding which will be necessary to enable Wales to exploit the full potential of European programmes.

Cynigiaf hefyd welliant 3. Ychwaneger ail gymal newydd:

I also propose amendment 3. Add a new second clause:

Yn cymeradwyo'r egwyddor o ddyrannu arian ar ben bloc Barnett ar gyfer y rhaglenni Ewropeaidd, ond mae'n gresynu nad yw'r swm a ddyrannwyd ar hyn o bryd yn ddigon i alluogi Cymru i wneud defnydd llawn o gronfeydd strwythurol Ewrop a mentrau cymunedol.

Endorses the principle of allocating money in addition to the Barnett block to cover European programmes but regrets that the sum currently allocated is insufficient to enable Wales to make full use of European structural funds and community initiatives.

Cynigiaf hefyd welliant 4. Newidier yr ail gymal. Dileer popeth ar ôl '*yn ôl*' ac ychwaneger

blaenoriaethau a fydd yn fodd i gyrraedd y nod o sicrhau ffyniant drwy Gymru benbaladr ac a fydd yn mynd i'r afael ag anghyfartaleddau o ran iechyd, addysg, cyflogaeth a meysydd polisi eraill.

Cynigiaf hefyd welliant 6. Dileer y trydydd cymal ac ychwaneger

yn cymeradwyo dyrannu yn unol â'i ddyletswydd i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy gan dalu sylw arbennig i fynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a hyrwyddo cyfle cyfartal.

Brysiaf ymlaen oherwydd sylweddolaf fod amser yn mynd a'i bod yn bwysig gwrando ar gymaint o gyfranwyr ag sydd yn bosibl. Gan mai dyma fy nghyfle cyntaf i lefaru ar faes cyllid, hoffwn dalu teyrnged i'm rhagflaenydd fel arweinydd grŵp Plaid Cymru am ei gyfraniad aruthrol nid yn unig fel arweinydd ond am ei arbenigedd ym maes cyllid. Yr wyf yn siŵr y gallwn, fel Cynulliad, elwa o hynny yn y misoedd a'r blynyddoedd sydd i ddod.

Cyn dod i'r Cyfarfod Llawn, darllenais gyfraniadau nifer o'r Aelodau yn y ddadl ar 19 Gorffennaf. Dywedodd Edwina Hart yn y drafodaeth honno

'Gyda'n gilydd mae angen inni ddarparu'r gwasanaethau y mae eu hangen ar Gymru.'

Byddwn yn eich cadw at eich gair ar hynny, Edwina. Mae gennyf fi bryderon, fodd bynnag, ynglŷn â'r blaenoriaethau yn eich cynnig. Dyna pam yr ydym wedi cynnig gwelliannau. Yr ydych yn clymu eich syniadau ynglŷn â gwariant wrth flaenoriaethau 'Gwellcymru.com'. Fel y gwyddoch, yr ydym wedi ymdynghedu i gytuno â'r datganiad a wnaethpwyd ar ddechrau'r ddogfen ond nid ydym yn gefnogol i'r ddogfen i gyd. Nid ydym yn credu bod goleuni a gweledigaeth yn dod o'r ddogfen. Gobeithiwn y byddwch yn gwrando ar syniadau nad ydynt efallai wedi'u cynnwys

I also propose amendment 4. Amend the second clause. Delete everything after '*according to*' and add

priorities which will achieve the aim of spreading prosperity throughout Wales and will tackle inequality in health, education, employment and other policy areas.

I also propose amendment 6. Delete the third clause and add

approves the making of allocations in accordance with its duty to promote sustainable development and paying particular attention to addressing social disadvantage and promoting equal opportunities.

I hasten as I realise that time is passing and that it is important to listen to as many contributors as possible. Since this is my first opportunity to speak on finance, I wish to pay tribute to my predecessor as leader of the Plaid Cymru group for his contribution not only as leader but for his financial expertise. I am sure that we, as an Assembly, can benefit greatly from that in the coming months and years.

Before coming to Plenary, I read the contributions of many Members in the debate on 19 July. Edwina Hart stated in that discussion that

'Collectively we need to deliver the services that Wales needs.'

We will keep you to your word on that, Edwina. I have concerns, however, regarding the priorities in your motion. That is why we have proposed amendments. You are tying your ideas on expenditure in with the priorities of 'Betterwales.com'. As you know, we have vowed to agree with the statement made at the beginning of the document but we have not bought into the entire document. We do not think that vision and light emanate from the document. I hope that you will listen to ideas that may not be included in 'Betterwales.com' as part of the discussion today. That is why our amendments refer to

yn ‘Gwellcymru.com’ fel rhan o’r drafodaeth heddiw. Dyna pam y mae ein gwelliannau yn cyfeirio at bethau eraill y byddaf yn cyfeirio atynt yn y man.

other matters to which I will refer in due course.

Edwina, you also said in your contribution on 19 July that

Edwina, dywedasoch hefyd yn eich cyfraniad ar 19 Gorffennaf

‘Our policies will be determined in the National Assembly for Wales. We can learn from what happens over the border, but each policy will be closely scrutinised to see whether it is in Wales’s best interests.’

‘Cynulliad Cenedlaethol Cymru fydd yn pennu ein polisïau ni. Gallwn ddysgu o’r hyn sydd yn digwydd dros y ffin, ond manylir yn drylwyr ar bob polisi i weld a yw er lles pennaf Cymru.’

We intend to keep the administration to that clear and unambiguous pledge. There has not been much evidence of that in the past. Not many distinctive Welsh policies have been pursued so far but we hope that, in view of your commitment, things will be different from now on.

Bwriadwn gadw’r weinyddiaeth i’r addewid clir a diamwys hwnnw. Ni fu llawer o dystiolaeth o hynny yn y gorffennol. Ni ddilynwyd llawer o bolisïau sydd yn nodweddiadol Gymreig hyd yn hyn ond gobeithio y bydd pethau’n wahanol o hyn ymlaen, yng ngoleuni eich ymrwymiad.

4:50 p.m.

Ailddatganaf yr hyn a ddywedasom ar 19 Gorffennaf. Mae hi’n fuddugoliaeth sylweddol i’r Cynulliad—pob plaid yn y Cynulliad—fod y Canghellor wedi neilltuo arian ar gyfer rhaglenni Ewrop yn ychwanegol i’r bloc. Ni fyddai hynny wedi digwydd oni bai fod unoliaeth barn yng Nghymru ar y mater hwn. Llais unol pobl Cymru drwy’r Cynulliad sydd wedi sicrhau’r llwyddiant hwn. Fodd bynnag, rhaid inni ei gwneud yn glir, er ein bod yn croesawu hynny ac yn credu ei bod yn fuddugoliaeth, nid ydym wedi cael yr arian Ewropeaidd i gyd. Er enghraifft, yn ein barn ni, mae’r £421 miliwn sydd wedi ei gynnwys ar gyfer y rhaglenni Ewropeaidd, gan gynnwys yr arian o’r gronfa gymdeithasol, yn fyr o £195 miliwn dros y cyfnod 2001-04. Yn ogystal, wrth gwrs, yr ydym £80 miliwn yn brin eleni.

I restate what we said on 19 July. It is a great victory for the Assembly—every party in the Assembly—that the Chancellor has set aside money for European programmes in addition to the block. This would not have happened had there not been unanimity of opinion in Wales on this issue. The united voice of the people of Wales through the Assembly has secured this success. However, we must make it clear that although we welcome this and believe that it is a victory, we have not had all the European money. For example, in our opinion, the £421 million that has been included for the European programmes, including the money from the social fund, falls short by £195 million over the period 2001-04. Of course, we are also £80 million short this year.

I also had an interesting discussion—with myself really—with Rhodri saying that matched funding is some kind of theological argument that is of no interest to the people of Wales. I know that over the centuries the people of Wales have been interested in theology. In fact, thousands of Welsh books have been written on theology and many of our chapels were built on the back of great theological debates. However, I cannot see that theology has anything to do with

Cefais drafodaeth ddiddorol hefyd—gyda mi fy hun mewn gwirionedd—lle’r oedd Rhodri yn dweud bod arian cyfatebol yn rhyw fath o ddadl ddiwinyddol nad yw o ddiddordeb i bobl Cymru. Gwn fod pobl Cymru wedi ymddiddori mewn diwinyddiaeth dros y canrifoedd. Yn wir, ysgrifenwyd miloedd o lyfrau Cymraeg am ddiwinyddiaeth ac adeiladwyd llawer o’n capeli ar sail dadleuon diwinyddol mawr. Fodd bynnag, ni welaf fod a wnelo diwinyddiaeth ddim ag arian

matched funding. It is either there or it is not, and currently it is not. Therefore, we must make our point clear.

Putting that behind us, however, we must also make it clear that our priorities for spending within the comprehensive spending review increase is what we would describe as tackling inequality in Wales and spreading prosperity throughout Wales. What about looking for opportunities to give money that tackles, for example, the great issue of heart disease in Wales? Will we tackle that, because it links in with unemployment, poverty and deprivation?

What about ensuring that schools are properly resourced in areas where there are people in difficult circumstances? It is clear that we should look at priorities for health and education to eradicate inequalities—

Brian Gibbons: I welcome what Ieuan Wyn says. Obviously, the implication, particularly in health and education, is that we want resources to go to health authorities and local authorities on the basis of deprivation. Therefore, can we take it that his party will now support the resource allocation formula, which gives top priority to deprivation, so that we can achieve the exact objectives that he has just outlined?

Ieuan Wyn Jones: The motion that Edwina proposed does not do that. It simply ties in with the priorities included in 'Betterwales.com'. In our amendments, we say that there must be a wider motion, because if you are to improve health and educational provision throughout the whole of Wales you must tie it in with the principle of spreading prosperity throughout the whole of Wales. That is why our amendments are so important and why I hope that you will feel able to support them when we vote.

Janet Ryder: On the new formula for local government, would you also agree that it needs to be worked out on ward-based statistics, which are currently not available? That would have a great effect on that new formula and how the money is distributed.

cyfatebol. Mae naill ai ar gael neu ddim, ac nid yw ar gael ar hyn o bryd. Felly, rhaid inni wneud ein pwynt yn glir.

Wrth roi hynny y tu ôl inni, fodd bynnag, rhaid inni ei gwneud yn glir hefyd mai ein blaenoriaethau o ran gwario o fewn y cynnydd yn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant yw'r hyn y byddem yn ei ddisgrifio fel mynd i'r afael ag anghyfartaledd yng Nghymru a lledaenu ffyniant ledled Cymru. Beth am edrych am gyfleoedd i roi arian sydd yn mynd i'r afael â phwnc mawr clefyd y galon yng Nghymru, er enghraifft? A fyddwn yn mynd i'r afael â hynny, oherwydd mae'n gysylltiedig â diweithdra, tlodi ac anfantais?

Beth am sicrhau adnoddau priodol i ysgolion yn yr ardaloedd lle mae pobl yn byw mewn amgylchiadau? Mae'n glir y dylem edrych ar flaenoriaethau ar gyfer iechyd ac addysg er mwyn cael gwared ar anghyfartaleddau—

Brian Gibbons: Croesawaf yr hyn y mae Ieuan Wyn yn ei ddweud. Yn amlwg, y goblygiad, yn enwedig o ran iechyd ac addysg, yw ein bod am i adnoddau fynd i'r awdurdodau iechyd a'r awdurdodau lleol ar sail amddifadedd. Felly, a allwn gymryd y bydd ei blaid ef yn awr yn cefnogi'r fformwla dyrannu adnoddau, sydd yn rhoi'r flaenoriaeth gyntaf i anddifadedd, fel y gallwn gyflawni'r union amcanion y mae ef newydd eu hamlinellu?

Ieuan Wyn Jones: Nid yw cynnig Edwina yn gwneud hynny. Dim ond cysylltu â'r blaenoriaethau a gynhwyswyd yn 'Gwellcymru.com' a wna. Yn ein gwelliannau, dywedwn fod yn rhaid i'r cynnig fod yn ehangach, oherwydd bod rhaid cysylltu gwella'r ddarpariaeth iechyd ac addysg ledled Cymru â'r egwyddor o ledaenu ffyniant ledled Cymru. Dyna pam y mae ein gwelliannau mor bwysig a pham y gobeithiaf y byddwch yn teimlo y gallwch eu cefnogi pan bleidleisiwn.

Janet Ryder: Ynglŷn â'r fformwla newydd ar gyfer llywodraeth leol, a fyddech hefyd yn cytuno bod angen ei chyfrifo gan ddefnyddio ystadegau yn seiliedig ar wardiau, nad ydynt ar gael ar hyn o bryd? Byddai hynny'n cael effaith fawr ar y fformwla newydd honno a'r modd y dosberthir yr arian.

Ieuan Wyn Jones: That is right and I am grateful to you for making that valuable contribution to this debate. I read Dafydd Wigley's contribution to the previous debate that we had on the comprehensive spending review. He made a critical point about how the CSR in the United Kingdom fails to deal with the plight of pensioners in England and Wales and, indeed, in any country in the UK. Although this is not a devolved matter, I believe that the way that pensioners have been treated by successive Governments is a scandal and that the 75p increase in basic pension was a disgrace.

Ieuan Wyn Jones: Mae hynny'n gywir ac yr wyf yn ddiolchgar ichi am wneud y cyfraniad gwerthfawr hwnnw i'r ddadl hon. Darllenais gyfraniad Dafydd Wigley i'r ddadl flaenorol a gawsom ynglŷn â'r adolygiad cynhwysfawr o wariant. Nododd bwynt hanfodol, sef bod yr adolygiad cynhwysfawr o wariant yn y Deyrnas Unedig yn methu â delio â phroblemau pensiynwyr yng Nghymru a Lloegr ac, yn wir, mewn unrhyw wlad yn y DU. Er nad yw hwn yn fater datganoledig, credaf fod y ffordd y mae un Llywodraeth ar ôl y llall wedi trin pensiynwyr yn sgandal a bod y codiad o 75c yn y pensiwn sylfaenol yn warthus.

I hope that the Chancellor will take the opportunity to put this right. The report published by Rowntree only yesterday highlighted the plight of the poor in the 1980s and the 1990s, and the pensioner poor were a large group in that. Let us therefore make the first decade of the twenty-first century a decade where we treat pensioners with the dignity they deserve.

Gobeithiaf y bydd y Canghellor yn defnyddio'r cyfle i unioni hyn. Yr oedd yr adroddiad a gyhoeddwyd ddoe ddiwethaf gan Rowntree yn amlygu cyflwr y tlodion yn yr 1980au a'r 1990au, a phensiynwyr oedd grŵp mawr o'r tlodion hynny. Gadewch inni felly bennu degawd cyntaf yr unfed ganrif ar hugain yn ddegawd lle yr ydym yn trin pensiynwyr â'r urddas y maent yn ei haeddu.

I also want to deal with other amendments briefly—

Yr wyf hefyd am ddelio â gwelliannau eraill yn fyr—

Glyn Davies: I noted your comments about pensioners. I take an increasing interest in the over-60s. Do you agree and accept that the level of pensioner poverty has increased dramatically in the last three years, principally because of the increase in council tax and other costs, and a rather fiddled way of having lower state retirement pension increases?

Glyn Davies: Nodais eich sylwadau am bensiynwyr. Mae diddordeb cynyddol gennyf mewn pobl dros 60 oed. A ydych yn cytuno ac yn derbyn bod lefel tlodi ymysg pensiynwyr wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, yn bennaf oherwydd y cynnydd yn y dreth gyngor a chostau eraill, a dull ffugiedig braidd o gael codiadau llai ym mhensiwn ymddeol y wladwriaeth?

Ieuan Wyn Jones: You are right that pensioner poverty has worsened. If you read the Rowntree report, you will see a continuing pattern that developed throughout the 1980s and continued through the 1990s and has not been reversed under the Labour Government. We hope that in the first decade of the twenty-first century we move forward with dignity for pensioners. I will deal briefly with the amendments. We already know that amendment 2 will not be voted upon because in any event it would have been superfluous if our amendment 1 had been adopted. We will abstain on Peter Black's amendment 5

Ieuan Wyn Jones: Yr ydych yn gywir pan ddywedwch fod tlodi ymysg pensiynwyr wedi gwaethygu. Os darllenwch adroddiad Rowntree, gwelwch batrwm parhaus a ddatblygodd drwy'r 1980au ac a barhaodd drwy'r 1990au ac nad yw wedi'i wrthdroi o dan y Llywodraeth Lafur. Gobeithiwn y byddwn yn negawd cyntaf yr unfed ganrif ar hugain yn symud yn ein blaenau o ran parch at bensiynwyr. Ymdriniaf yn fyr â'r gwelliannau. Gwyddom eisoes na chynhelir pleidlais ar welliant 2 oherwydd byddai wedi bod yn ddiangen pa un bynnag pe bai ein gwelliant 1 wedi'i dderbyn. Byddwn yn

because, while we do not disagree with much of its contents, it is far too prescriptive. I would not want the Assembly to be tied to using the extra resources only for the matters that he has outlined. We want the flexibility to look at other matters. As amendment 5 stands, it would tie our hands too prescriptively. We will support Glyn Davies's amendment 7, and I hope that the Assembly will feel able to back it. Glyn has promised us a few sparklers during this Assembly session. Let us hope that the sparklers shine brightly and do not turn into a damp squib. We are asking in this debate for a commitment by the administration to be bold and imaginative in the way that resources are allocated to Wales under the comprehensive spending review. We will look carefully at the draft budget and we are pleased that Edwina will be making that available by the end of October so that we can debate it sometime in November or December, which is vital. We will then measure the draft budget against the priorities in our amendments today, which I hope the Assembly will support. This will improve the motion so that we can have distinctive Welsh policies and the funds to match. We will then judge whether we will be in a position to support the budget.

ymatal ar welliant 5 Peter Black oherwydd, er nad ydym yn anghytuno â llawer o'i gynnwys, mae'n llawer rhy benodedig. Ni fyddwn i am i'r Cynulliad gael ei glymu i ddefnyddio'r adnoddau ychwanegol ar gyfer y materion y mae ef wedi'u hamlinellu yn unig. Mae arnom eisiau'r hyblygrwydd i edrych ar faterion eraill. Byddai gwelliant 5 fel y mae ar hyn o bryd yn clymu ein dwylo mewn modd rhy benodedig. Byddwn yn cefnogi gwelliant 7 Glyn Davies, a gobeithiaf y bydd y Cynulliad yn teimlo y gall ei gefnogi. Mae Glyn wedi addo ambell wreichionyn disglair inni yn ystod y sesiwn Cynulliad hwn. Gadewch inni obeithio y bydd y gwreichion yn rhai disglair ac na fyddant yn diffodd ac yn ein siomi. Yn y ddadl hon yr ydym yn gofyn am ymrwymiad gan y weinyddiaeth i fod yn fentrus a llawn dychymyg yn y ffordd y dyrennir adnoddau i Gymru o dan yr adolygiad cynhwysfawr o wariant. Byddwn yn edrych ar y gyllideb ddrafft yn ofalus ac mae'n dda gennym glywed y bydd Edwina yn sicrhau y bydd honno ar gael erbyn diwedd mis Hydref fel y gallwn gynnal dadl arni rywbryd yn Nhachwedd neu Ragfyr, sydd yn hanfodol. Wedyn byddwn yn cloriannu'r gyllideb ddrafft yn ôl y blaenoriaethau yn ein gwelliannau heddiw, y gobeithiaf y bydd y Cynulliad yn eu cefnogi. Bydd hyn yn gwella'r cynnig fel y cawn bolisïau sydd yn nodweddiadol Gymreig a chyllid i gyd-fynd â hwy. Gallwn farnu wedyn a fydd modd inni gefnogi'r gyllideb.

Peter Black: I propose amendment 5. Add at the end of the third clause:

in particular, through

the availability of adequate match funding to ensure a full take-up from the current European structural funding programme;

urgent investment in the extensive backlog of school building repairs and reduction of class sizes;

upgrading long-term NHS clinical capacity and reducing waiting times;

Peter Black: Cynigiaf welliant 5. Ychwaneger ar ddiwedd y trydydd cymal:

yn arbennig, drwy

wneud yn siŵr bod digon o arian cyfatebol ar gael er mwyn sicrhau bod modd manteisio'n llawn ar y rhaglenni strwythurol Ewropeaidd presennol;

buddsoddi ar fyrder er mwyn mynd i'r afael â'r llwyth mawr o waith atgyweirio adeiladau ysgolion sydd wedi cronni ac er mwyn lleihau maint dosbarthiadau;

sicrhau bod y gallu gan yr NHS yn y tymor hir i ymgymryd â mwy o waith clinigol, a lleihau amserau aros;

extending the Assembly's commitment to the agri-environmental sector; and

ensuring that local services are safeguarded and council tax rises minimised through increased Assembly funding for local government.

As we begin the process that will lead to the Assembly's second budget, the extra money which we have received from the comprehensive spending review is welcome. I am not making that statement because I believe that the UK Government has done a good job, but because at last, after three years of Labour Government, we are starting to get the resources that we need to begin to tackle the many problems that we inherited 17 months ago. One of the most telling revelations of the comprehensive spending review process was that despite all the talk of prudence from the iron Chancellor, the money was always there to spend on public services, from day one of this Government. The fact that it was not used and that we were forced to endure more than two years of living within the so-called spending limits of the previous Conservative Government is a matter of regret and, some would say, misjudgement. Based on the Chancellor's own projections, public expenditure as a proportion of gross domestic product, by the end of the next financial year, 2001-02, will still be lower than that which Labour inherited in 1997; 28.2 per cent as compared to 29 per cent. That is a missed opportunity for Wales as well as for the UK as a whole. We can, though, only start from where we are. Our job is to ensure that the extra money that we have makes a difference. That is why, in the amendments that we have tabled today, the Liberal Democrats have sought to put down a marker for the priorities that we believe the budget process needs to address. The availability of adequate match funding for Objective 1 and other European funding is crucial. It is not a source of pride that we have won this funding, but regret that we needed it. We must make the funding count. The Liberal Democrats have a great deal of sympathy for the arguments put forward in the Plaid Cymru amendments, but the allocation does not include any reference to match funding over and above the block grant. Important as the public expenditure

sicrhau mwy o ymrwymiad gan y Cynulliad i'r sector amaeth-amgylcheddol; a

sicrhau bod gwasanaethau lleol yn cael eu diogelu a bod unrhyw gynnydd yn y dreth gyngor mor isel â phosibl drwy roi mwy o arian i lywodraeth leol.

Wrth inni ddechrau'r broses a fydd yn arwain at ail gyllideb y Cynulliad, croesawir yr arian ychwanegol yr ydym wedi'i dderbyn o'r adolygiad cynhwysfawr o wariant. Nid wyf yn dweud hynny oherwydd fy mod yn credu bod y Llywodraeth wedi gwneud gwaith da, ond oherwydd ein bod, o'r diwedd, ar ôl tair blynedd o Lywodraeth Lafur, yn dechrau cael yr adnoddau sydd eu hangen arnom er mwyn dechrau mynd i'r afael â'r llu o broblemau a etifeddasom 17 mis yn ôl. Un o'r datguddiadau mwyaf trawiadol a ddeilliodd o broses yr adolygiad cynhwysfawr o wariant oedd bod yr arian ar gael drwy'r amser i wario ar wasanaethau cyhoeddus, o ddiwrnod cyntaf y Llywodraeth hon, er gwaethaf yr holl sôn am bwyll gan y Canghellor haearn. Mae'r ffaith na chafodd ei ddefnyddio ac y'n gorfodwyd i ddioddef mwy na dwy flynedd o fyw o fewn yr hyn a elwid yn gyfyngiadau gwario y Llywodraeth Geidwadol flaenorol yn fater i resynu yn ei gylch ac, ym marn rhai, yn achos o gamfarnu. Yn seiliedig ar frasamcanion y Canghellor ei hun, erbyn diwedd y flwyddyn ariannol nesaf, 2001-02, bydd gwariant cyhoeddus fel cyfran o gynnyrch mewnwladol crynswth yn is na'r hyn a etifeddodd y Blaid Lafur ym 1997, sef 28.2 y cant o'i gymharu â 29 y cant. Dyna golli cyfle i Gymru yn ogystal ag i'r DU gyfan. Fodd bynnag, ni allwn ond dechrau o'r fan lle'r ydym. Ein tasg yw sicrhau bod yr arian ychwanegol sydd gennym yn gwneud gwahaniaeth. Dyna pam y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol, yn y gwelliannau a gyflwynwyd gennym heddiw, wedi ceisio clustnodi'r blaenoriaethau y mae angen i broses y gyllideb eu trafod yn ein barn ni. Mae'n hanfodol bod arian cyfatebol digonol ar gyfer Amcan 1 ac arian arall o Ewrop. Ni ddylem ymfalchïo yn y ffaith ein bod wedi ennill yr arian hwn, ond dylai fod yn ddrwg gennym fod ei angen arnom. Rhaid inni wneud i'r arian gyfrif. Mae gan y Democratiaid Rhyddfrydol lawer o gydymdeimlad â'r dadleuon a gyflwynwyd yng ngwelliannau Plaid Cymru, ond nid yw'r

survey cover was for spending the European funds, we are still left with, in our estimate, a £60 million funding gap in the money that we have been given by Westminster, which we will have to fill from our own resources. That £60 million could have been better spent on health or education, had Tony Blair kept his promise not to let Wales down and followed it to its logical conclusion by giving us the money as an additional allocation. However, it is our responsibility to ensure that we make the most of the opportunity presented to us by European funding. We must live within our means.

dyraniad yn cyfeirio o gwbl at arian cyfatebol sydd uwchlaw'r grant bloc. Er mor bwysig oedd arian yr arolwg o wariant cyhoeddus o ran gwario'r cyllid Ewropeaidd, amcangyfrifwn fod bwlch ariannu o £60 miliwn o hyd yn yr arian a roddwyd inni gan San Steffan. Bydd yn rhaid inni lenwi'r bwlch hwnnw o'n hadnoddau ein hunain. Gellid bod wedi gwario'r £60 miliwn hwnnw yn well ar iechyd neu addysg, pe bai Tony Blair wedi cadw ei addewid i beidio â siomi Cymru ac wedi dilyn y broses i'w phen-draw rhesymegol drwy roi'r arian inni fel dyraniad ychwanegol. Fodd bynnag, ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'r cyfle y mae'r arian o Ewrop yn ei roi inni. Rhaid inni fyw o fewn y modd sydd gennym.

5:00 p.m.

The health service is the second challenge facing us. I have said in the past that the way that we budget our money in silos can leave many social problems unresolved while leaving health spending caught up in a process of fire fighting. Spending on housing and transport is a good example. It is a well-established fact that poor housing causes ill-health and is a cost to the health service. Shelter Cymru estimates that the annual cost of poor housing to the Welsh health budget is around £39 million to £45 million. Equally, spending on reducing road accidents would lead to a commensurate fall in health spending, as would a reduction in road pollution. That sort of expenditure is an essential investment in the fabric of Welsh society and, in the long term, in an efficient and effective health service. We must take the opportunity this extra money offers to begin that investment.

Yr ail her sydd yn ein hwynebu yw'r gwasanaeth iechyd. Yr wyf wedi dweud yn y gorffennol y gall y ffordd yr ydym yn cyllido ein harian mewn seilos adael llawer o broblemau cymdeithasol heb eu datrys tra bo gwariant ar iechyd yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael ag argyfyngau yn unig. Mae gwariant at dai a thrafnidiaeth yn enghraifft dda. Mae'n ffaith wybyddus fod tai gwael yn achosi afiechyd ac yn costio arian i'r gwasanaeth iechyd. Mae Shelter Cymru yn amcangyfrif bod tai gwael yn costio tua £39 miliwn i £45 miliwn bob blwyddyn i gyllideb iechyd Cymru. Yn yr un modd, byddai gwario arian ar leihau damweiniau ffyrdd yn arwain at gwymp gymesur yn yr arian a werid ar iechyd, a byddai gostyngiad mewn llygredd ffyrdd yn cael effaith debyg. Mae'r math hwnnw o wariant yn fuddsoddiad hanfodol yng ngwead cymdeithas yng Nghymru ac, yn y tymor hir, mewn gwasanaeth iechyd effeithlon ac effeithiol. Rhaid inni gymryd y cyfle y mae'r arian ychwanegol hwn yn ei gynnig inni i ddechrau'r buddsoddiad hwnnw.

We must also invest directly in the health service. We need to establish a substantial capital programme to address the backlog of capital works, currently valued at £350 million. We must also address the urgent shortage of staff and bed capacity, so that waiting lists and waiting times begin to decrease and hospitals do not have to cancel elective surgery to accommodate an increase

Rhaid inni hefyd fuddsoddi yn y gwasanaeth iechyd yn uniongyrchol. Mae angen inni sefydlu rhaglen gyfalaf sylweddol i ymdrin â'r ôl-groniad o waith cyfalaf, sydd yn werth £350 miliwn ar hyn o bryd. Rhaid inni drafod hefyd y broblem fawr o brinder staff a phrinder gwelyau, fel bod rhestrau aros ac amserau aros yn dechrau lleihau ac fel nad oes rhaid i ysbytai ohirio llawfeddygaeth

in emergency admissions.

ddewisol er mwyn ymdrin â'r cynnydd mewn derbyniadau brys.

Despite the expenditure that has already been targeted at education, we still face a large task in further reducing class sizes and reducing the backlog of school maintenance, which is estimated to be worth between £325 million and £500 million. The Liberal Democrats believe that this process must be transparent so that we can see how much has been allocated in the budget and how it is being spent.

Er gwaethaf y gwariant sydd eisoes wedi'i dargedu ar gyfer addysg, yr ydym yn wynebu tasg fawr o hyd o ran lleihau maint dosbarthiadau ymhellach a lleihau'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw mewn ysgolion, yr amcangyfrifir ei fod yn werth rhwng £325 miliwn a £500 miliwn. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol o'r farn bod yn rhaid i'r broses hon fod yn dryloyw fel y gallwn weld faint o arian a ddyrannwyd yn y gyllideb a sut y gwerir ef.

Local government must be the other key priority. I declare an interest as a member of Swansea City and County Council. Like other councils, we are anxious to avoid a further year of hikes in council tax and cuts in service. The settlement must reflect that and seek to achieve an average council tax rise which is in the low single figures. We are sympathetic to the Conservatives' amendment 7 on this issue, even though they voted against a motion containing similar clauses on 19 July.

Rhaid sicrhau mai llywodraeth leol yw'r flaenoriaeth allweddol arall. Datganaf fuddiant yma fel aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe. Fel cynghorau eraill, yr ydym yn awyddus i osgoi blwyddyn arall o godi'r dreth gyngor a thorri gwasanaethau. Rhaid i'r setliad adlewyrchu hynny a cheisio sicrhau nad yw'r codiad cyfartalog yn y dreth gyngor yn uwch na'r ffigurau sengl. Yr ydym yn cydymdeimlo â gwelliant 7 y Ceidwadwyr ynglŷn â'r mater hwn, er iddynt bleidleisio yn erbyn cynnig a oedd yn cynnwys cymalau tebyg ar 19 Gorffennaf.

Glyn Davies: That is outrageous. You deliberately framed your motion on that occasion to make certain, by including other issues, that we could not vote for it.

Glyn Davies: Mae hynny'n warthus. Yr oedd eich cynnig y pryd hwnnw wedi ei lunio mewn modd a oedd yn sicrhau—gan ei fod yn cynnwys materion eraill—na allem bleidleisio drosto.

Peter Black: If my memory serves me, you voted for the amendment but then failed to vote for the substantive motion because one of your amendments was not adopted. Your memory is playing tricks on you. You should possibly reflect on the over-60s at this stage.

Peter Black: Os cofiaf yn iawn, pleidleisiasoch dros y gwelliant ond wedyn ni phleidleisiasoch dros y cynnig gwreiddiol oherwydd na fabwysiadwyd un o'ch gwelliannau. Mae eich cof yn eich twyllo. Efallai y dylech feddwl yn awr am bobl dros 60 oed.

Jenny Randerson: To clarify, the Conservative group voted for our amendment but voted against the amended motion because its amendment had not been adopted. I reassure Glyn and seek Peter's confirmation that, when we decide on what motions and amendments to table, we consider Liberal Democrat rather than Conservative principles.

Jenny Randerson: I egluro'r sefyllfa, pleidleisiodd y grŵp Ceidwadol dros ein gwelliant ond yn erbyn y cynnig wedi'i ddiwygio oherwydd na fabwysiadwyd ei welliant. Sicrhaf Glyn a gofynnaf am gadarnhad gan Peter ein bod, wrth benderfynu pa gynigion a gwelliannau i'w cyflwyno, yn ystyried egwyddorion y Democratiaid Rhyddfrydol yn hytrach na rhai'r Ceidwadwyr.

Janet Davies and **Janet Ryder** *rose—*

Janet Davies a **Janet Ryder** *a gododd—*

Peter Black: I have been trying to talk about Liberal Democrat principles. I see that a whole raft of people are standing now. I give way to Janet Davies first, as I saw her first.

Peter Black: Bûm yn ceisio siarad am egwyddorion y Democratiaid Rhyddfrydol. Gwelaf fod twr o bobl yn sefyll erbyn hyn. Ildiaf i Janet Davies yn gyntaf, gan mai hi a welais yn gyntaf.

Janet Davies: Will Peter reflect on his comment about the over-60s?

Janet Davies: A wnaiff Peter ailystyried ei sylw am bobl dros 60 oed?

Peter Black: I withdraw that remark as it was clearly out of order.

Peter Black: Tynnaf y sylw hwnnw yn ôl oherwydd ei bod yn amlwg ei fod allan o drefn.

Janet Ryder: I reiterate Janet's point.

Janet Ryder: Ategaf sylw Janet.

Peter Black: In conclusion, returning to local government, we must be clear that, as yet, no one can say how much such a provision will cost, especially with the new funding formula in place. We must ensure that council tax payers do not suffer excessive council tax increases again. This is covered in amendment 5, which amounts to a much more balanced view of the budget process.

Peter Black: I gloi, a chan ddychwelyd at lywodraeth leol, rhaid inni fod yn glir na all neb ddweud hyd yn hyn faint y bydd darpariaeth o'r fath yn ei gostio, yn enwedig gan fod y fformwla ariannu newydd wedi'i sefydlu. Rhaid inni sicrhau nad yw talwyr y dreth gyngor yn dioddef cynnydd gormodol yn y dreth gyngor eto. Cwmpesir hyn yng ngwelliant 5, sydd yn rhoi barn llawer mwy cytbwys ar broses y gyllideb.

Nick Bourne: I propose amendment 7 in the name of Glyn Davies. In the last clause, after '*draft budget in October*', add

ensuring that the revenue support grant is set to facilitate council tax increases at no more than inflation.

Nick Bourne: Cynigiaf welliant 7 yn enw Glyn Davies. Yn y cymal olaf, ar ôl *'yn y gyllideb ddrafft ym mis Hydref'*, ychwaneger

gan sicrhau bod y grant cynnal refeniw yn ddigon i sicrhau na fydd unrhyw gynnydd yn y dreth gyngor yn uwch na chwyddiant.

I welcome, in part, the Finance Secretary's contribution. It seemed to concentrate on the budget process but in so far as there were extra funds for Wales, the Welsh Conservative Group is certainly not against them. What is good for Wales is not bad news for the Welsh Conservatives nor the rest of the United Kingdom. However, we must set it into context and consider the problems that confront Wales. We must also consider it in the context of rising taxes, which are applied across the United Kingdom. It is a mistake to think that this money has suddenly and mysteriously appeared. The average amount of tax paid by families in the United Kingdom has increased by £670 under this Government, so it is not surprising for some of that to return in the form of increased spending. It would be wrong if it did not.

Croesawaf gyfraniad yr Ysgrifennydd Cyllid yn rhannol. Ymddangosai fel pe bai'n canolbwyntio ar broses y gyllideb ond o ran y ffaith fod arian ychwanegol ar gyfer Cymru, yn sicr nid yw'r Grŵp Ceidwadol yng Nghymru yn gwrthwynebu hynny. Nid yw'r hyn sydd yn dda i Gymru yn newyddion drwg i Geidwadwyr Cymru na gweddill y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, rhaid ei osod mewn cyd-destun ac ystyried y problemau sydd yn wynebu Cymru. Rhaid inni ei ystyried hefyd yng nghyd-destun trethi sydd yn codi, sydd yn berthnasol ledled y Deyrnas Unedig. Camgymeriad yw meddwl bod yr arian hwn wedi ymddangos yn sydyn mewn modd anesboniadwy. Mae swm cyfartalog y dreth a delir gan deuluoedd yn y Deyrnas Unedig wedi cynyddu £670 o dan y Llywodraeth hon, ac felly nid yw'n annisgwyl y defnyddir rhywfaint o'r arian

hwn fel gwariant ychwanegol. Byddai'n gam drwg pe na byddai hynny'n digwydd.

I will focus on the major concerns. We have committed ourselves as a group to additional spending—fully costed within the budget—on two particular sectors. The first is the health service, which remains a major concern for all parties in the National Assembly, certainly my own. NHS waiting lists in Wales have increased by 13,000 since Labour came to power with the commitment to cut them as a first step. As an early, urgent first step, waiting lists were to be cut. Three and a half years later, the Secretary for Health and Social Services, Jane Hutt, has recently made a pledge that she expects and is committed to a reduction of 15,000 in the waiting lists by next March. I hope that she will be able to restate that commitment because it is an important policy for us. I hope that the administration regards it as an issue of confidence. Perhaps the Finance Secretary could comment. Ieuan Wyn Jones referred to heart disease as a priority. There are many other priorities, including cancer, lung and respiratory disease. In Carmarthenshire, which is part of the constituency that I represent, the waiting list has increased. The number of people who have been waiting for treatment for over 12 months is currently 7,283. The number of people who have been waiting for treatment more than six months is a staggering 12,083. The health service is in crisis and the increase in money must be seen against that background.

Fe ganolbwyntiaf ar y prif bryderon. Yr ydym wedi ymrwymo fel grŵp i wariant ychwanegol—sydd wedi'i gostio'n llawn o fewn y gyllideb—ar ddau sector arbennig. Y cyntaf yw'r gwasanaeth iechyd, sydd yn bryder mawr o hyd i bob plaid yn y Cynulliad Cenedlaethol, ac yn sicr yn fy mhlaid i. Cafwyd codiad o 13,000 yn rhestrau aros yr NHS yng Nghymru ers i Lafur ddod i rym gan ymrwymo i'w gostwng fel cam cyntaf. Fel cam cyntaf brys, yr oeddent yn mynd i ostwng rhestrau aros. Dair blynedd a hanner yn ddiweddarach, mae'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Jane Hutt, wedi addo'n ddiweddar ei bod yn disgwyl ac wedi ymrwymo i ostyngiad o 15,000 yn y rhestrau aros erbyn mis Mawrth nesaf. Gobeithiaf y gall ailddatgan yr ymrwymiad hwnnw oherwydd y mae'n bolisi pwysig i ni. Gobeithiaf fod y weinyddiaeth yn ei ystyried yn fater o hyder. Efallai y gallai'r Ysgrifennydd Cyllid gynnig sylwadau. Cyfeiriodd Ieuan Wyn Jones at glefyd y galon fel blaenoriaeth. Mae llawer o flaenoriaethau eraill, gan gynnwys canser, clefyd yr ysgyfaint ac anadlol. Yn Sir Gaerfyrddin, sydd yn rhan o'r etholaeth yr wyf yn ei chynrychioli, mae'r rhestr aros wedi cynyddu. Mae nifer y bobl sydd wedi bod yn aros am driniaeth am fwy na 12 mis yn 7,283 ar hyn o bryd. Mae nifer y bobl sydd wedi bod yn aros am driniaeth am fwy na chwe mis yn 12,083, sydd yn anhygoel. Mae argyfwng yn y gwasanaeth iechyd a rhaid ystyried yr arian ychwanegol yn erbyn y cefndir hwnnw.

The second sector on which we are committed to additional spending is agriculture, which is in the midst of the worst crisis in 100 years. Farm incomes in Wales have fallen 57 per cent since this Government came to power. I do not suggest that that is entirely the Government's fault because clearly it is not. There are circumstances for which it cannot be held responsible. However, some factors have made matters worse, including increased regulation—

Yr ail sector yr ydym wedi ymrwymo i wario arian ychwanegol arno yw amaethyddiaeth, sydd yng nghanol yr argyfwng gwaethaf ers 100 mlynedd. Mae incymau ffermydd yng Nghymru wedi gostwng 57 y cant ers i'r Llywodraeth hon ddod i rym. Nid wyf yn awgrymu mai bai'r Llywodraeth ydyw yn gyfan gwbl oherwydd ei bod yn amlwg nad yw hynny'n wir. Mae amgylchiadau na ellir ei dal yn gyfrifol amdanynt. Fodd bynnag, mae rhai ffactorau wedi gwneud pethau'n waeth, gan gynnwys mwy o reoleiddio—

Brian Gibbons: You have laid down a challenge to Jane Hutt. I also present you

Brian Gibbons: Yr ydych wedi rhoi her i Jane Hutt. Yr wyf finnau hefyd yn rhoi her i

with a challenge. Will you quantify how much additional public money would be needed to increase farming income to a level with which you would be satisfied? Unless you put a price on your request, then you are asking people to sign a blank cheque. We must meet priorities within a limited budget. Will you quantify exactly how much money you are talking about?

chwithau. A wnewch chi ddweud yn union faint o arian cyhoeddus ychwanegol y byddai ei angen er mwyn codi incwm ffermio i lefel y byddech yn fodlon arni? Os na roddwch bris ar eich cais, yr ydych yn gofyn i bobl lofnodi siec wag. Rhaid inni gwrdd â'n blaenoriaethau o fewn cyllideb gyfyngedig. A wnewch chi ddweud yn union faint o arian yr ydych yn sôn amdano?

Nick Bourne: There are two separate issues here. First, I was not laying down a challenge to Jane Hutt on agriculture. I was challenging her on the health service. We have indicated that we would match Labour spending. We acknowledge that in the excellent document I have here, the Conservative manifesto, which I am sure that your leader in Westminster is reading in the back of his limousine as he passes the long queues at the petrol stations. He is probably taking the best bits of the presentation, if not the content. We will have to wait and see. We have committed ourselves to at least your planned level of expenditure on health. We have also committed ourselves to less political interference and less regulation in health. Increased resources would be available from that alone. In terms of capital spending, we would not have spent money on a new Assembly building. We would have spent it on a children's hospital. Agriculture is our other commitment. This document, which you have doubtless read at great length because I know that you like such things, Brian, shows that we are committed to cutting back on regulations and red tape. There would be considerable savings from this. For example, we would put money into Tir Gofal. In fairness, your party has increased spending on Tir Gofal, but we would invest more. As I said, and I think fairly, I do not claim that the Government is responsible for the crisis in its entirety, but it is responsible for some of the factors that are currently making the agricultural crisis worse.

Nick Bourne: Mae dau fater gwahanol yma. Yn gyntaf, nid oeddwn yn rhoi her i Jane Hutt ar amaethyddiaeth. Yr oeddwn yn ei herio ar y gwasanaeth iechyd. Yr ydym wedi nodi y byddai lefel ein gwariant cyfuwch ag un Llafur. Cydnabyddwn hynny yn y ddogfen ardderchog sydd gennyf yma, maniffesto'r Blaid Geidwadol, y mae'n siŵr bod eich arweinydd yn San Steffan yn ei ddarllen yng nghefn ei limwsîn wrth iddo fynd heibio i'r rhesi hir yn y gorsafoedd petrol. Mae'n fwy na thebyg ei fod yn cymryd darnau gorau'r cyflwyniad, os nad y cynnwys. Bydd yn rhaid inni aros i weld. Yr ydym wedi ymrwymo i o leiaf yr un lefel o wariant â'r hyn y bwriadwch chi ei wario ym maes iechyd. Yr ydym wedi ymrwymo hefyd i lai o ymyrraeth wleidyddol a llai o reoleiddio o safbwynt iechyd. Byddai mwy o adnoddau ar gael o hynny yn unig. Yn nhermau gwariant cyfalaf, ni fyddem wedi gwario arian ar adeilad newydd i'r Cynulliad. Byddem wedi'i wario ar ysbyty plant. Amaethyddiaeth yw ein hymrwymiad arall. Dengys y ddogfen hon, yr wyf yn siŵr eich bod wedi'i darllen yn fanwl oherwydd eich bod yn hoffi pethau o'r fath, Brian, ein bod yn ymrwymedig i gwtogi ar reoliadau a biwrocratiaeth. Byddai hyn yn arbed llawer o arian. Er enghraifft, byddem yn rhoi arian i Dir Gofal. I fod yn deg, mae eich plaid wedi cynyddu gwariant ar Dir Gofal, ond byddem ni yn buddsoddi mwy. Fel y dywedais, a hynny'n deg fe gredaf, nid wyf yn honni mai'r Llywodraeth sydd yn gyfrifol am yr argyfwng yn gyfan gwbl, ond mae'n gyfrifol am rai o'r ffactorau sydd yn gwneud yr argyfwng amaethyddol yn waeth ar hyn o bryd.

I will continue with some of the points that I need to make in the limited time available to me. Amendment 2 in the name of Glyn Davies relates to European funding. This has been subsumed into the Plaid Cymru amendment, which we support as the spirit is

Fe nodaf rai o'r pwyntiau y mae angen imi eu gwneud, yn yr amser cyfyngedig sydd gennyf. Mae gwelliant 2 yn enw Glyn Davies yn ymwneud ag arian o Ewrop. Mae hyn wedi'i gynnwys yng ngwelliant Plaid Cymru, yr ydym yn ei gefnogi gan ei fod bron yr un

very much the same. We are disappointed that there is not—despite the seeming commitment of the Prime Minister never to let Wales down—full match funding—as I am sure Edwina would acknowledge—in this settlement. There should be, because without that we are unable to deliver the full benefit that we would want from Objective 1 funding. Having recently returned from Ireland, I know how much their economy benefited and the flying start that they had to this programme. Our start has been a flying flop. The so-called fast-track programmes are at best slow-track and the rest are standstill. I regret that the funding that we need to transform the economies of west Wales and the Valleys is not available.

fath o ran ei ysbryd. Yr ydym wedi ein siomi nad oes arian cyfatebol llawn—er gwaethaf ymrwymiad y Prif Weinidog i bob golwg i beidio â siomi Cymru—ac yr wyf yn siŵr y byddai Edwina yn cydnabod hyn—yn y setliad hwn. Dylai fod arian cyfatebol llawn, oherwydd heb hynny, ni allwn gyflwyno'r fantais lawn y byddem am ei chael o ganlyniad i arian Amcan 1. Yr wyf newydd ddychwelyd o Iwerddon a gwn faint o fudd a gafodd eu heconomi a'r dechrau llewyrchus a gawsant i'r rhaglen hon. Yr ydym ni wedi dechrau'n wael iawn. Mae'r rhaglenni dull carlam honedig yn rhaglenni dull araf ar eu gorau ac mae'r gweddill yn sefyll yn stond. Mae'n flin gennyf nad yw'r arian sydd ei angen arnom i drawsnewid economïau gorllewin Cymru a'r Cymoedd ar gael.

The other major issue—and we have tabled amendment 7 on it—relates to the standard spending assessment formula and the proposals that were discussed during the consultation period. We would welcome the Government's reassurance in terms of a vote for this amendment if it believes that it can be kept to the rate of inflation. I would welcome hearing why the Government does not believe that that is possible, if it is not supporting this amendment. Rural areas such as Powys in my region had massive increases last time because of the settlement. That is destined to worsen, and the same it true of Monmouthshire. It is also true of Cardiff. It is not often that I agree with Russell Goodway, but even a broken clock is right twice a day. We welcome the fact that he also supports the criticism of the standard spending assessment formula and I look forward to hearing what the Finance Secretary has to say on that issue.

Mae'r mater pwysig arall—y cyflwynasom welliant 7 ynglŷn ag ef—yn ymwneud â'r fformwla asesu gwariant safonol a'r cynigion a drafodwyd yn ystod y cyfnod ymgynghorol. Byddem yn croesawu sicrwydd gan y Llywodraeth ar ffurf pleidlais dros y gwelliant hwn os cred y gellir ei gadw at gyfradd chwyddiant. Byddwn yn croesawu clywed pam na chred y Llywodraeth bod hynny yn bosibl, os nad yw'n cefnogi'r gwelliant hwn. Dioddefodd ardaloedd gwledig fel Powys yn fy rhanbarth i godiadau enfawr y tro diwethaf o ganlyniad i'r setliad. Mae hynny'n sicr o waethygu, ac mae'r un peth yn wir am Sir Fynwy. Mae'n wir am Gaerdydd hefyd. Nid yn aml yr wyf yn cytuno â Russell Goodway, ond mae hyd yn oed cloc sydd wedi torri yn dangos yr amser cywir ddwywaith y dydd. Croesawn y ffaith ei fod hefyd yn cefnogi'r feirniadaeth ar y fformwla asesu gwariant safonol ac edrychaf ymlaen at glywed beth sydd gan yr Ysgrifennydd Cyllid i'w ddweud ar y mater hwnnw.

In short, there is some good news and we welcome it. However, it should be placed against the background of constant let-downs by Labour. Ask farmers, ask patients who are on ever-growing waiting lists and ask the workers at BAE Systems in Broughton, Flintshire, if I am allowed to mention them in this context. They are still waiting—

Yn fyr, mae rhywfaint o newyddion da ac yr ydym yn croesawu hynny. Fodd bynnag, dylid ei osod yn erbyn cefndir o siomedigaethau cyson gan Lafur. Gofynnwch i ffermwyr, gofynnwch i gleifion sydd ar restrau aros sydd yn dal i dyfu a gofynnwch i weithwyr BAE Systems ym Mrychdyn, Sir y Fflint, os caniateir imi sôn amdanynt yn y cyd-destun hwn. Maent yn dal i aros—

The Presiding Officer: Order. You are

Y Llywydd: Trefn. Mae croeso ichi sôn am

welcome to mention Broughton at any time when it is relevant.

Frychdyn ar unrhyw adeg pan fo'n berthnasol.

Nick Bourne: I hope that it is always relevant to discuss Welsh jobs in the National Assembly. To mention that was a rhetorical flourish. It is an important issue and we now know that they are unable to come to the Assembly on Thursday because of the fuel crisis. We need to know what this administration will do about the workers in Broughton. Can the Finance Secretary tell us in the absence of the First Secretary?

Nick Bourne: Gobeithiaf ei bod hi bob amser yn berthnasol trafod swyddi yng Nghymru yn y Cynulliad Cenedlaethol. Yr oedd sôn amdano yn addurn rhethregol. Mae'n fater pwysig ac yr ydym yn gwybod bellach na allant ddod i'r Cynulliad ddydd Iau oherwydd yr argyfwng tanwydd. Mae angen inni wybod beth fydd y weinyddiaeth hon yn ei wneud ynglŷn â gweithwyr Brychdyn. A all yr Ysgrifennydd Cyllid roi gwybod inni yn absenoldeb y Prif Ysgrifennydd?

Edwina Hart: There are ongoing issues relating to Broughton, as you know. These have been discussed by the administration and—as far as I am aware—our heart and concerns are geared towards ensuring the necessary investment in north Wales.

Edwina Hart: Mae materion ar y gweill yn ymwneud â Brychdyn, fel y gwyddoch. Mae'r weinyddiaeth wedi trafod y rhain ac—hyd y gwn i—mae ein calon a'n pryderon ynghlwm wrth sicrhau y buddsoddir yr arian angenrheidiol yng ngogledd Cymru.

Nick Bourne: Therefore, we still do not know whether they are going to get the assistance or not. That is a shambolic situation.

Nick Bourne: Felly, ni wyddom o hyd a ydynt yn mynd i gael cymorth ai peidio. Mae hon yn sefyllfa hollol ddi-drefn.

Edwina Hart: At the end of the day, decisions were made taking into account the use of public money and all those other issues. That is Government's responsibility. Making politics out of people's lives and jobs is not helpful in this situation.

Edwina Hart: Yn y pen-draw, gwnaethpwyd penderfyniadau gan ystyried defnyddio arian cyhoeddus a'r holl faterion eraill hynny. Cyfrifoldeb y Llywodraeth ydyw. Nid yw'n ddefnyddiol gwleidydda am fywydau a swyddi pobl yn y sefyllfa hon.

Nick Bourne: I thought that we were here to discuss politics. However, I will return to the point and conclude that no decision has been reached. If a decision has been reached, perhaps we can share it with the National Assembly. I will take it to mean that we do not know what the decision is.

Nick Bourne: Yr oeddwn yn credu ein bod yma i drafod gwleidyddiaeth. Fodd bynnag, dychwelaf at fy mhwynt a dod i'r casgliad na wnaethpwyd penderfyniad. Os gwnaethpwyd penderfyniad, efallai y gallwn ei rannu â'r Cynulliad Cenedlaethol. Cymeraf felly na wyddom beth yw'r penderfyniad.

In conclusion, we welcome some of the good news in the comprehensive spending review. However, we feel for behalf of the many people in Wales who have been let down. There have been let-downs on Objective 1 projects, let-downs for patients on ever-growing waiting lists and let-downs for workers throughout Wales. In particular, people in Tom Middlehurst's constituency—with whom we have common cause on this matter—are disenchanted.

I gloi, croesawn rywfaint o'r newyddion da yn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant. Fodd bynnag, teimlwn dros y llu pobl yng Nghymru a siomwyd. Bu siom am brosiectau Amcan 1, siom i gleifion y mae eu henwau ar y rhestrau aros sydd yn tyfu drwy'r amser a siom i weithwyr ledled Cymru. Yn arbennig, mae pobl yn etholaeth Tom Middlehurst—y mae gennym achos cyffredin ynglŷn â'r mater hwn—wedi'u dadrithio.

5:20 p.m.

Val Feld: I am pleased to have the opportunity to speak on what is an important change for us. For the first time, we have money and can discuss how we will spend it. The European money is coming through. We have significant amounts of extra money coming through from the Treasury and this is a defining time for us as an Assembly. What we do and how we decide to spend this money over the next few years will be critically important. I know that Edwina has worked hard to listen to the views of people inside and outside the Assembly to know how best we can ensure that this money makes a real difference. It involves supporting the poor, disadvantaged people in our communities who rely on public services. However, it must also, critically, be the opportunity to increase our economy's wealth, because how we invest this money now will decide how the economy moves in the long term. The extra money means that, for the first time, we can put money into public services and the economy. We can invest over a long enough period to begin to see some sustained growth that can make a difference.

Val Feld: Mae'n dda gennyf gael y cyfle i siarad am rywbeth sydd yn newid pwysig i ni. Am y tro cyntaf, mae arian gennym a gallwn drafod sut i'w wario. Mae'r arian Ewropeaidd yn dod i law. Mae symiau sylweddol o arian ychwanegol yn dod inni gan y Trysorlys ac mae hwn yn amser diffiniol i ni fel Cynulliad. Bydd yr hyn a wnawn a sut y penderfynwn wario'r arian hwn dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yn hanfodol bwysig. Gwn fod Edwina wedi gweithio'n galed i wrando ar farn pobl y tu mewn i'r Cynulliad a'r tu allan iddo er mwyn gwybod sut y gallwn sicrhau orau bod yr arian hwn yn gwneud gwir wahaniaeth. Mae'n cynnwys rhoi cymorth i'r bobl dlawd, ddifreintiedig yn ein cymunedau sydd yn dibynnu ar wasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, rhaid iddo hefyd fod yn gyfle holl bwysig i gynyddu cyfoeth ein heconomi, oherwydd bydd y ffordd yr ydym yn buddsoddi'r arian hwn yn awr yn penderfynu trywydd yr economi yn y tymor hir. Golyga'r arian ychwanegol y gallwn, am y tro cyntaf, roi arian i'r gwasanaethau cyhoeddus a'r economi. Gallwn fuddsoddi dros gyfnod digon hir i ddechrau gweld rhywfaint o gynnydd cynaliadwy a all wneud gwahaniaeth.

It is vital, despite some of the political expediency, that we are not tempted into making short-term gains or into the old Welsh habit of dealing out a little bit to everyone to keep everyone happy. The Assembly must stand back and look at the whole of Wales. We must build on our knowledge of the huge problems that exist on the ground, which have been mentioned and of which we are all aware. We also know much about what we can do to make a difference. This is our opportunity to get down to the grass roots and to bring hope and expectation to so many people for whom that is lost. It is also our opportunity to work with business to attract new businesses so that we make a difference. Nick Bourne mentioned Ireland, and it is unfortunate that he has left the Chamber. The Economic Development Committee has also visited Ireland, and the overwhelming lesson that I took out of that visit was the importance of genuine social partnership and building consensus in the

Er gwaethaf hwylustod gwleidyddol, mae'n hanfodol nad ildiwn i'r temtasiwn o wneud enillion tymor byr neu i ymgymryd â'r hen arfer Cymreig o roi ychydig i bawb i gadw pawb yn hapus. Rhaid i'r Cynulliad sefyll yn ôl ac edrych ar Gymru gyfan. Rhaid inni adeiladu ar ein gwybodaeth o'r problemau enfawr ar lawr gwlad, yr ydym wedi sôn amdanynt ac yr ydym oll yn ymwybodol ohonynt. Gwyddom hefyd faint y gallwn ei wneud i wneud gwahaniaeth. Dyma ein cyfle i effeithio ar bobl gyffredin ac i ddod â gobaith a disgwyliadau i gymaint o bobl sydd wedi colli hynny. Mae'n gyfle hefyd inni weithio gyda byd busnes i ddenu busnesau newydd fel ein bod yn gwneud gwahaniaeth. Soniodd Nick Bourne am Iwerddon, ac mae'n anffodus ei fod wedi gadael y Siambr. Mae'r Pwyllgor Datblygu Economaidd wedi ymweld ag Iwerddon hefyd, a'r wers aruthrol a ddysgais o ganlyniad i'r ymweliad hwnnw oedd pwysigrwydd gwir bartneriaeth gymdeithasol ac adeiladu consensws o ran y

economic prosperity that has grown there. It was clear from all the meetings that we attended that planning, monitoring, discussing and achieving consensus had had a major impact. We can develop that in Wales.

cyfoeth economaidd sydd wedi tyfu yno. Yr oedd yn glir o'r holl gyfarfodydd a fynychwyd gennym bod gwaith cynllunio, monitro, trafod a chael consenswys wedi cael effaith fawr. Gallwn ddatblygu hynny yng Nghymru.

I hope that these will be the last resolutions about match funding. The endless arguments on this issue scare people outside and divert us from the real issue of developing the project and examining how we can integrate European funding into our mainstream programmes. Nick is right to say that we must do that. However, he failed to mention that Ireland achieved that because they manage the whole Irish economy. They brought in their own money and ran those programmes together. We have money in the system and there are opportunities for accessing, bringing in and drawing down money for Wales from other sources. It is vital that we do that. Ieuan is not here to hear this, but Phil Williams is, as are others Plaid Cymru members of the Economic Development Committee. The match funding issue is a diversion.

Gobeithiaf mai'r rhain fydd y penderfyniadau olaf am arian cyfatebol. Mae'r dadleuon diddiwedd ar y mater hwn yn dychryn pobl y tu allan ac yn ein troi oddi wrth y gwir fater o ddatblygu'r prosiect ac archwilio sut y gallwn integreiddio arian Ewropeaidd i'n rhaglenni prif ffrwd. Mae Nick yn iawn i ddweud bod yn rhaid inni wneud hynny. Fodd bynnag, methodd â dweud bod Iwerddon wedi cyflawni hynny oherwydd eu bod yn rheoli economi gyfan Iwerddon. Daethant â'u harian eu hunain a chynaliasant y rhaglenni hynny gyda'i gilydd. Mae'r arian gennym yn y system ac mae cyfleoedd i gael gafael ar arian ar gyfer Cymru o ffynonellau eraill, i ddod ag ef i mewn ac i wneud defnydd ohono. Mae'n hanfodol ein bod yn gwneud hynny. Nid yw Ieuan yma i glywed hyn, ond mae Phil Williams yn bresennol, ac aelodau eraill o Blaid Cymru sydd ar y Pwyllgor Datblygu Economaidd. Defnyddir pwnc arian cyfatebol i greu gwrthdyniad.

The South West Wales Information Gateway is an important project which works on information and communication technology with businesses in Swansea. It is based at the University of Wales, Swansea and works across the whole of the city. It received £1.2 million of European regional development fund money and it matched that with £1.8 million that was all found in kind from other funders. There are many ways of releasing money. Eight different partners worked on that project, bringing in different expertise and different communities. We must develop work through that kind of partnership if we are to make a lasting impact on our economy and communities. Critical to that is understanding the relationships between the different aspects—

Mae Porth Gwybodaeth De Orllewin Cymru yn brosiect pwysig sydd yn datblygu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu gyda busnesau yn Abertawe. Mae wedi'i leoli ym Mhrifysgol Cymru, Abertawe ac yn gweithio ar draws y ddinas gyfan. Derbyniodd £1.2 miliwn o'r gronfa datblygu rhanbarthol Ewropeaidd a chyfatebodd hynny gyda £1.8 miliwn a roddwyd gan arianwyr eraill mewn da. Mae llawer o ffyrdd i ryddhau arian. Gweithiodd wyth partner gwahanol ar y prosiect hwnnw, gan gyfuno arbenigedd gwahanol a chymunedau gwahanol. Rhaid inni ddatblygu gwaith drwy bartneriaethau o'r fath os ydym am wneud effaith barhaol ar ein heconomi a'n cymunedau. Yr hyn sydd yn hanfodol o ran hynny yw deall y cydberthnasau rhwng yr agweddau gwahanol—

The Presiding Officer: Order. I draw your attention to the clock, Val.

Y Llywydd: Trefn. Tynnaf eich sylw at y cloc, Val.

Val Feld:—such as education and training, transport and community development so that

Val Feld:—fel addysg a hyfforddiant, trafnidiaeth a datblygu cymunedol fel bod y

those impact on our potential to grow our economy as we can to make a step change and a difference.

rheini'n cael effaith ar ein potensial i wella ein heconomi fel y gallwn er mwyn newid pethau fesul cam a gwneud gwahaniaeth.

Phil Williams: The National Assembly for Wales's budget is governed by a formula where, for a specified list of items in the budget of any London department, we receive the same cash increase per head. This is the formula that, over time, gives convergence to bring the level of spending in Wales down to that of England. At the same time, for each London department, there is a list of items for which we receive nothing. Therefore, we only receive a proportion of the total increase per head in any English department. For the non-comparable items, there is no convergence. For example, Government expenditure on research is far less per capita in Wales than in England, but there is no mechanism in the Barnett formula to bring spending in Wales up to the English level. These non-comparable items are officially described as non-identifiable, which suggests that they cannot be broken down into regional expenditure, but that is not true. The Government has the full accounts of where the expenditure is made, but it does not publish them. I urge Edwina to press for these figures. Until then, I must repeat my best estimate, which is that total Government spending on all headings per capita in Wales is about equal to, or slightly below, the UK average. That is why I do not believe that the Barnett formula addresses the real needs of Wales.

Phil Williams: Rheolir cyllideb Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan fformwla lle derbyniwn yr un cynnydd ariannol y pen, ar gyfer rhestr benodol o eitemau yng nghyllideb unrhyw adran yn Llundain. Dyma'r fformwla sydd, dros amser, yn rhoi cydgyfeiriad sydd yn gostwng lefel gwario Cymru i'r lefel yn Lloegr. Ar yr un pryd, mae rhestr o eitemau na dderbyniwn ddim ar eu cyfer, ym mhob adran yn Llundain. Felly, dim ond cyfran o'r cyfanswm cynnydd y pen mewn unrhyw adran yn Lloegr a gawn. Ar gyfer eitemau na ellir eu cymharu, nid oes cydgyfeirio. Er enghraifft, mae gwariant y Llywodraeth ar ymchwil yn llawer llai y pen yng Nghymru nag yn Lloegr, ond nid oes mecanweithiau o fewn fformwla Barnett er mwyn dod â lefel gwario yng Nghymru i lefel Lloegr. Disgrifir yr eitemau hyn na ellir eu cymharu yn swyddogol fel eitemau na ellir eu hadnabod, sydd yn awgrymu na ellir eu torri i lawr i wariant rhanbarthol, ond nid yw hynny'n wir. Mae'r cyfrifon llawn gan y Llywodraeth sydd yn dangos lle gwnaethpwyd y gwariant, ond nid yw'n eu cyhoeddi. Anogaf Edwina i bwyso i gael y ffigurau hyn. Tan hynny, rhaid imi ailadrodd fy amcangyfrif gorau, sef bod cyfanswm gwariant y Llywodraeth ar bob pennawd y pen yng Nghymru yn gyfartal, neu ychydig yn is, na chyfartaledd y DU. Dyna pam na chredaf fod fformwla Barnett yn ymdrin â gwir anghenion Cymru.

It is ironic that in our own management of money, we are about to introduce a new formula for local government that takes account of the greater needs of deprived areas. This is consistent with the European Union's policies, which now devotes 30 per cent of its budget to structural funds to ensure that the gap between richer and poorer areas is reduced. The clear, unambiguous intention is that these funds should represent a transfer of money from more affluent to less affluent regions. That has not occurred in the past. The comprehensive spending review represents an advance, but only a partial one.

Mae'n eironig ein bod ar fin cyflwyno fformwla newydd ar gyfer llywodraeth leol sydd yn ystyried anghenion mwy ardaloedd difreintiedig, wrth reoli ein harian ein hun. Mae hyn yn gyson â pholisïau'r Undeb Ewropeaidd, sydd bellach yn neilltuo 30 y cant o'i gyllideb i gronfeydd strwythurol er mwyn sicrhau bod y bwlch rhwng yr ardaloedd cyfoethocaf a thlotaf yn lleihau. Y bwriad clir a diamheuaeth yw y dylai'r cronfeydd hyn gynrychioli trosglwyddo arian o ardaloedd mwy cyfoethog i ardaloedd llai cyfoethog. Nid yw hynny wedi digwydd yn y gorffennol. Mae'r adolygiad cynhwysfawr o wariant yn welliant, ond dim ond yn rhannol.

To summarise, European grants for projects

I grynhoi, £989 miliwn yw cyfanswm

in Wales under the three Objective programmes and the overhang from previous programmes for the period up to March 2004, total £989 million. Spending on a project can be spread over the two years following commitment, so I have assumed that spending on each project would start as soon as possible and be spread evenly over the whole period. The total then required to fund European grants for the four years is £783 million, or £196 million a year. The announcement by Gordon Brown of an additional £442 million for the four-year programme, or £110 million a year, therefore does not represent full additionality. To ensure that the structural programmes go ahead as quickly as possible—and we support that—we must find £85 million a year, either from our normal budget or from reserves. It is disappointing that, although the Government has conceded the principle of additionality, we will not get full additionality. There is a provision for a 20 per cent contingency increase in these additional funds. As this is not nearly enough, I press the First Secretary and Edwina to consider whether this contingency could be the way forward, and that if our programme proceeds as fast as we hope, we will receive the full additionality.

grantiau Ewrop ar gyfer prosiectau yng Nghymru o dan dair rhaglen Amcan a'r arian sydd yn weddill o'r cyfnod hyd at fis Mawrth 2004. Gellir ymestyn gwario arian ar brosiect dros y ddwy flynedd ar ôl ymrwymo i'w wario, felly yr wyf wedi derbyn y byddai rhoi arian i bob prosiect yn dechrau cyn gynted ag y bo modd a chaiff ei ymestyn yn gyfartal dros y cyfnod cyfan. Y cyfanswm sydd ei angen wedyn i ariannu grantiau Ewrop am y pedair blynedd yw £783 miliwn, neu £196 miliwn y flwyddyn. Felly, nid yw cyhoeddiad Gordon Brown ei fod yn rhoi £442 miliwn yn ychwanegol i'r rhaglen bedair blynedd, neu £110 miliwn y flwyddyn, yn cynrychioli ychwanegolrwydd llawn. Er mwyn sicrhau bod y rhaglenni strwythurol yn mynd yn eu blaen mor gyflym ag y bo modd—ac yr ydym yn cefnogi hynny—rhaid inni ddod o hyd i £85 miliwn y flwyddyn, naill ai o'n cyllideb arferol neu o gronfeydd. Mae'n siom na fyddwn yn cael ychwanegolrwydd llawn, er bod y Llywodraeth wedi ildio i egwyddor ychwanegolrwydd. Mae darpariaeth 20 y cant o gynnydd wrth gefn yn y cronfeydd ychwanegol hyn. Gan nad yw hyn yn ddigon o bell ffordd, pwysaf ar y Prif Ysgrifennydd ac Edwina i ystyried a fyddai'r arian wrth gefn hwn yn ffordd ymlaen, ac y byddwn yn cael ychwanegolrwydd llawn, os bydd ein rhaglen yn mynd yn ei blaen mor gyflym ag yr ydym yn gobeithio.

I will mention match funding, although additionality has always been the important issue. Using the same assumptions of even expenditure, over the period of the CSR we will pay £618 million of public sector match funding, or £155 million a year. Much of that, quite properly, will come from other sources. However, this is an increase of between £50 million and £70 million a year on the level that applied in the past. That is an extra burden if this is public sector match funding—

Byddaf yn sôn am arian cyfatebol, er y bu ychwanegolrwydd yn fater pwysig erioed. Gan ddefnyddio'r un tybiaethau gwariant cyfartal, byddwn yn talu £618 miliwn o arian cyfatebol y sector cyhoeddus dros gyfnod yr adolygiad cynhwysfawr o wariant, neu £155 miliwn y flwyddyn. Bydd llawer o'r arian hwnnw yn dod o ffynonellau eraill, sydd yn gwbl briodol. Fodd bynnag, mae hyn yn gynnydd o rhwng £50 miliwn a £70 miliwn y flwyddyn ar y lefel yn y gorffennol. Mae hon yn faich ychwanegol os yw hwn yn arian cyfatebol o'r sector cyhoeddus—

Val Feld: Do you accept that there is no proper assessment of the amount of match funding that has previously gone into the system, and that this has been debated extensively. We do not know how much money has gone on match funding previously.

Val Feld: A ydych yn derbyn nad oes asesiad priodol o gyfanswm arian cyfatebol sydd wedi'i roi yn y system o'r blaen, a bod hyn wedi'i drafod yn helaeth. Ni wyddom faint o arian a ddefnyddiwyd o'r blaen ar gyfer arian cyfatebol.

Phil Williams: The point is that there is between £50 million and £70 million extra match funding, and we have not been given a penny of extra money to cover it. Therefore, the settlement falls short of our minimum demand. We will have to take money out of other budget and we will have to decide which those will be. Above all, money that could have been used to provide a damping grant for local—

Phil Williams: Y pwynt yw bod rhwng £50 miliwn a £70 miliwn o arian cyfatebol ychwanegol, ac nid ydym wedi cael ceiniog o arian ychwanegol i'w gwmpasu. Felly, mae'r setliad yn llai na'r swm isaf yr oeddem yn gofyn amdano. Bydd yn rhaid inni dynnu arian o gyllidebau eraill a bydd yn rhaid inni benderfynu pa rai fydd y rheini. Uwchlaw popeth, mae arian y gellir bod wedi'i ddefnyddio i roi grant dampio i—

The Presiding Officer: Order. You are out of time. I point out that interventions come out of the Assembly Member's own time when he or she gives way. I ask you to conclude rapidly, Phil.

Y Llywydd: Trefn. Yr ydych wedi defnyddio'ch amser. Nodaf fod ymyriadau yn dod o amser yr Aelod Cynulliad ei hun pan fydd yn ildio. Gofynnaf ichi ddod i derfyn yn gyflym, Phil.

Phil Williams: That means that money that could have been spent on local government grants will now be spent on European grants.

Phil Williams: Mae hynny'n golygu y caiff arian a allasai fod wedi'i wario ar grantiau llywodraeth leol ei wario ar grantiau Ewropeaidd bellach.

Glyn Davies: It is good to be back after the summer. You obviously summered well, Llywydd. I am pleased to see you in such splendid form. I have missed the cut and thrust of debate in this Chamber—indeed I have missed the cut and thrust of statements in this Chamber—over the last two months. I look forward to playing my part in persuading the people of Wales to develop a high regard for this Assembly over the next two years.

Glyn Davies: Mae'n braf bod yn ôl ar ôl yr haf. Mae'n amlwg y cawsoch haf da, Lywydd. Mae'n dda gennyf weld eich bod mewn hwyliau cystal. Yr wyf wedi hiraethu am drafodaethau brwd y Siambr hon—yn wir yr wyf wedi hiraethu am ddatganiadau brwd y Siambr hon—dros y ddau fis diwethaf. Edrychaf ymlaen at chwarae fy rhan wrth ddarbwyllo pobl Cymru i ddatblygu parch uchel tuag at y Cynulliad hwn dros y ddwy flynedd nesaf.

I have said in this Chamber before that the failure of this Assembly is unthinkable and would be a massive blow to the confidence of our nation. I want to ensure that any contributions that I make pass my own test of being directed at increasing the public perception of our National Assembly. I shall do that whether opposing the Government's performance, which is probably what I shall be doing most of the time, supporting the Government's performance, which I expect to happen fairly rarely, or firing up a few sparklers under the First Secretary or the new leader of Plaid Cymru.

Yr wyf wedi dweud o'r blaen yn y Siambr hon na ellir ystyried y bydd y Cynulliad hwn yn methu a byddai'n ergyd enfawr i hyder ein cenedl. Yr wyf am sicrhau bod unrhyw gyfraniadau a wnaf yn pasio fy mhrawf fy hun sef eu bod wedi'u hanelu at gynyddu parch y cyhoedd tuag at ein Cynulliad Cenedlaethol. Byddaf yn gwneud hynny pa un ai a fyddaf yn gwrthwynebu perfformiad y Llywodraeth, y byddaf yn ei wneud y rhan fwyaf o'r amser fwy na thebyg, neu os byddaf yn cefnogi perfformiad y Llywodraeth, nad wyf yn disgwyl iddo ddigwydd yn aml, neu yn cynhyrfu'r Prif Ysgrifennydd neu arweinydd newydd Plaid Cymru.

I will make two points in today's debate, as time does not allow us to deal with everything. My first point relates to my amendment 7. Nothing has done more

Yr wyf yn cynnig dau bwynt yn y ddadl heddiw, gan nad yw amser yn caniatáu inni ddelio â phopeth. Mae fy mhwynt cyntaf yn gysylltiedig â gwelliant 7. Nid oes unrhyw

damage to the perception of this Assembly since its creation than last year's council tax settlement—apart from the decision to build a new building perhaps. Not only is there no case whatsoever for another swingeing increase in the current year, bearing in mind the comprehensive spending review, it would do untold damage to the public's perception of this Assembly if we were to increase council tax by more than inflation. I hope that every party in this Assembly will recognise that and will support my amendment. This is a key issue that will feature strongly in our forthcoming budget-setting process. I look forward to everybody's support, including, hopefully, that of the Government. It is appropriate that Peter Law should walk in at this moment. I know what a sane man he is, and I expect his support.

beth wedi gwneud mwy o niwed i amgyffrediad pobl o'r Cynulliad hwn ers ei sefydlu na setliad treth gyngor y llynedd—ar wahân i'r penderfyniad i adeiladu adeilad newydd efallai. Nid yn unig nad oes achos o gwbl dros gynnydd llym arall yn y flwyddyn gyfredol, o ystyried yr adolygiad cynhwysfawr o wariant, byddai codi'r dreth gyngor yn fwy na chwyddiant yn niweidio amgyffrediad y bobl o'r Cynulliad hwn yn aruthrol. Gobeithiaf y bydd pob plaid yn y Cynulliad hwn yn cydnabod hynny ac y byddant yn cefnogi fy ngwelliant. Mae hwn yn fater allweddol a fydd yn nodwedd bwysig o'r broses gosod cyllideb sydd i ddod. Edrychaf ymlaen at gael cefnogaeth pawb, gan gynnwys y Llywodraeth, gobeithio. Mae'n briodol bod Peter Law newydd gerdded i mewn. Gwyddwn ei fod yn ddyn call, ac yr wyf yn disgwyl cael ei gefnogaeth.

Secondly, I restate my view that this Assembly's investment plans must not be a simple rolling out of Westminster's plans. I have heard what the Finance Secretary has said, and I hope that her sentiments and statements will be converted into actions and recommendations when the budget-setting process starts. It is vital that Labour Assembly Members in this Chamber stand up to their Westminster colleagues and give our budget next year a strong, Welsh dimension. We have had a comprehensive spending review that has delivered a much higher level of public spending in Wales, on the back of a massively increased tax burden. I would like to speak on this at some length, but time constraints do not allow me to do so. However, I make this key point, which is one that I will be making through the budget-setting process, that we must use this opportunity—no matter how it is arrived at—of increased public spending in Wales. If we use it to give a genuinely Welsh flavour to this year's budget, we will earn the support of the Welsh people for this Assembly.

Yn ail, yr wyf yn ailadrodd fy sylw bod yn rhaid i gynlluniau buddsoddi'r Cynulliad hwn beidio ag ailadrodd cynlluniau San Steffan yn unig. Yr wyf wedi clywed yr hyn y mae'r Ysgrifennydd Cyllid wedi'i ddweud, a gobeithiaf y caiff ei theimladau a'i datganiadau eu trosglwyddo yn weithrediadau ac argymhellion pan fydd y broses gosod cyllideb yn dechrau. Mae'n hanfodol bod Aelodau Llafur o'r Cynulliad yn y Siambr hon yn herio'u cydweithwyr yn San Steffan a'u bod yn rhoi dimensiwn cryf Cymreig yn ein cyllideb y flwyddyn nesaf. Cawsom adolygiad cynhwysfawr o wariant a gyflwynodd lefel llawer uwch o wariant cyhoeddus yng Nghymru, ar ôl baich treth sydd wedi cynyddu'n sylweddol. Hoffwn siarad am hyn am beth amser, ond nid yw cyfyngiadau amser yn caniatáu imi wneud felly. Fodd bynnag, gwnaf y pwynt allweddol hwn, sydd yn bwynt y byddaf yn ei wneud drwy'r broses gosod cyllideb, bod yn rhaid inni ddefnyddio'r cyfle hwn o fwy o wariant cyhoeddus yng Nghymru—waeth sut yr ydym yn ei wneud. Os byddwn yn ei ddefnyddio i roi gwir flas Cymreig ar gyllideb eleni, byddwn yn ennill cefnogaeth pobl Cymru ar gyfer y Cynulliad hwn.

Cynnig Trefniadol
Procedural Motion

The Presiding Officer: I ask the Business

Y Llywydd: Gofynnaf i'r Trefnydd gynnig

Secretary to propose a procedural motion, under Standing Order No. 6.16, for the adjournment of the debate. Under Standing Order No. 6.18, I require the support of 10 Members to proceed with the motion, which I see that I have.

cynnig trefniadol, o dan Reol Sefydlog Rhif 6.16, i ohirio’r ddadl. O dan Reol Sefydlog Rhif 6.18, mae angen cefnogaeth 10 Aelod i fynd ymlaen â’r cynnig, ac mae hynny gennyf yn ôl a welaf.

The Business Secretary (Andrew Davies): I propose that

Y Trefnydd (Andrew Davies): Cynigiaf fod

the Assembly adjourns this debate and continues it at the earliest possible opportunity.

y Cynulliad yn gohirio’r ddadl hon ac yn ei pharhau cyn gynted ag y bo modd.

Cynnig: O blaid 52, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion: For 52, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Dafis, Cynog
Davidson, Jane
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
Feld, Val
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Middlehurst, Tom
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne

Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty

Derbyniwyd y cynnig.
Motion adopted.

Y Llywydd: Gohiriaf y ddadl tan fore dydd Iau. Diolch yn fawr i'r Aelodau am eu cydweithrediad ar y diwrnod cyntaf yn ôl.

The Presiding Officer: I adjourn the debate until Thursday morning. I thank Members for their co-operation on the first day back.

Daeth y sesiwn i ben am 5.30 p.m.
The session ended at 5.30 p.m.